Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# Cynllun Rheoli
## 2014 - 2019

# Rhan Un
# STRATEGAETH


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dynodi AHNE | 3 |
| Rhoi'r Cynllun mewn Cyd-destun | 7 |
| Dull Ecosystem | 13 |
| Beth sy'n gwneud Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Arbennig? | 19 |
| Gweledigaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | 25 |
| Ansawdd a Chymeriad Y Dirwedd | 27 |
| Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt | 31 |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | 39 |
| Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth | 49 |
| Diwylliant a Phobl | 55 |

# Cyflwyniad

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw'r ffin ucheldirol ddramatig i Ogledd Cymru. Mae'n cynnwys rhai o rannau mwyaf hyfryd o gefn gwlad Cymru.**

**Mae Bryniau Clwyd yn gadwyn ddigamsyniol o gopaon wedi'u gorchuddio â grug a chanddynt fryngaerau sydd yn y lleoliadau mwyaf trawiadol ym Mhrydain. Y tu hwnt i Fwlch yr Oernant gwyntog, dros Fynydd Llantysilio, mae Dyffryn Dyfrdwy gogoneddus gyda thref farchnad enwog a hanesyddol Llangollen, sy'n llawn treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol, gan gynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen, Safle Treftadaeth y Byd dynodedig.**

**Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn croesi'r ardal warchodedig arbennig hon, un o'r tirweddau sydd wedi'i darganfod lleiaf ond sydd ymhlith y mwyaf croesawgar a hawsaf i'w harchwilio o dirweddau gorau Prydain.**

## Manylion am y Cynllun hwn

Yn 2011, cafodd AHNE Bryniau Clwyd ei hymestyn i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy a rhan o Ddyffryn Llangollen. Cynhyrchwyd datganiad ar gyfer yr estyniad Deheuol hwn i'r AHNE yn 2012 fel atodiad i Gynllun Rheoli Bryniau Clwyd 2009. Y Cynllun Rheoli hwn felly yw'r strategaeth 5 mlynedd drosfwaol gyntaf ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sydd newydd ei ffurfio.

Mae'n gynllun ar gyfer pawb sydd â diddordeb ym Mryniau Clwyd a Dyfrdwy Dyffryn ac fe'i paratowyd gan yr Uned AHNE mewn cydweithrediad agos â phartneriaid allweddol a budd-ddeiliaid, gan gynnwys tirfeddianwyr a cheidwaid nodweddion allweddol. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd ar gyfer cymuned gyfan yr AHNE, nid dim ond yr Uned AHNE. Mae hefyd yn cydnabod bod yr AHNE yn cael effaith ar y rhanbarth ehangach a gall dylanwadau y tu allan i'w ffiniau effeithio arni. Mae'n Gynllun ar gyfer yr AHNE, ei chymunedau, busnesau, ymwelwyr a sefydliadau a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sydd â diddordeb yn yr AHNE gydweithio i gyflawni ei ddyheadau. Bydd yn sicrhau bod dibenion AHNE yn cael eu cyflawni wrth gyfrannu at nodau ac amcanion strategaethau eraill ar gyfer yr ardal.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn wahanol i'w ragflaenwyr gan ei fod hefyd yn dechrau mynd i'r afael â'r hyn y gall yr AHNE ei gynhyrchu i ddiwallu anghenion cymdeithas gan sicrhau bod dibenion AHNE yn cael eu cyflawni i warchod a gwella harddwch naturiol.

# Dynodi AHNE

**Dynodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ym mis Gorffennaf 1985. Yn 2011 yn dilyn gwaith manwl gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdodau Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, estynnwyd dynodiad yr AHNE i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy. Hwn yw'r dynodiad tirwedd mwyaf diweddar yng Nghymru ac mae'n golygu mai AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw'r mwyaf o'r 5 AHNE yng Nghymru.**

## 1.1 Pwrpas y Dynodiad

Mae AHNE ynghyd â Pharciau Cenedlaethol yn cydnabod ein tirweddau gorau ac yn gosod fframwaith ar gyfer eu gwarchod a'u gwella. Prif bwrpas statudol dynodi darn o Gefn Gwlad yn AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Mae'r cysyniad o 'harddwch naturiol' yn cynnwys diogelu fflora, ffawna a nodweddion daearegol yn ogystal â nodweddion tirwedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod dimensiwn diwylliannol y dirwedd, gan gynnwys yr elfennau hanesyddol, ysbrydol ac ysbrydoledig, yn ogystal â llunio ffisegol y tir gan bobl, yn cael ei gydnabod yn llawn. Yng Nghymru mae dimensiynau ychwanegol yr iaith yn darparu elfen hanfodol o gyfoeth diwylliannol y mae'n rhaid ei gydnabod hefyd. Dylai'r rhain i gyd gael eu hintegreiddio i waith rheoli AHNE.

## 1.2 Arwyddocâd dynodi AHNE

Mae'r pŵer i ddynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn dod o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad, 1949. Mae dibenion, dyletswyddau a gofynion rheoli ar gyfer AHNE wedi eu nodi yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae adran 82 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn nodi mai prif bwrpas dynodiad AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol.

Mae **Adran 85** yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i roi sylw i bwrpas gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal wrth ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau neu weithredoedd sy'n effeithio ar AHNE. Nid diben dynodiad yw atal datblygiad ond bydd yr awdurdodau cynllunio yn ystyried unrhyw gynnig datblygu er mwyn sicrhau nad yw'n niweidio cymeriad a golwg yr AHNE yn ormodol; ei fod wedi ei leoli a'i ddylunio'n sensitif; a'i fod yn ategu neu'n gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr ardal.

Mae **Adran 89** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol y mae AHNE yn eu hardal i baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli AHNE i arwain gwaith datblygu polisïau a chamau gweithredu rheoli.

## 1.3 Ar gyfer pwy mae'r Cynllun?

Mae'r Cynllun wedi ei lunio i ddarparu fframwaith a all lywio ac arwain unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau a allai effeithio ar yr AHNE. Bydd y rhain yn cynnwys:

**Awdurdodau Perthnasol** - pob corff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol - fel y'i diffinnir yn Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 - sydd â dyletswydd i ystyried dibenion AHNE. Mae'r cynllun hwn, wrth ddiffinio rhinweddau a nodweddion arbennig yr ardal, yn nodi agenda ar gyfer rheoli newid a fydd yn helpu'r cyrff hyn i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae'r Cyd-bwyllgor AHNE yn cynrychioli ac yn gweithredu ar ran tri Awdurdod lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

**Partneriaid yr AHNE** - sefydliadau ac unigolion sydd â rôl allweddol wrth gyflwyno a chefnogi rhaglenni'r AHNE - fel y'i cynrychiolir gan Bartneriaeth yr AHNE.

**Tirfeddianwyr a rheolwyr tir** - Mae'r Cynllun yn ceisio gweithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir ac mae'n cydnabod y rôl allweddol sydd ganddynt i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth gyffredinol.

**Cymunedau Lleol** - Mae'r cynllun yn ymrwymo i weithio â'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn yr AHNE ac yn nodi pwysigrwydd cymunedau wrth ddiffinio'r dirwedd a gofalu amdani. Mae'r cynllun yn nodi agenda ar gyfer gweithio gyda chymunedau'r AHNE.

**Defnyddwyr ac ymwelwyr â'r ardal** – Mae llawer yn cael budd o'r AHNE, hyd yn oed os ydynt yn bell ohoni, ac mae'r cynllun hwn yn cydnabod yr effaith gadarnhaol mae tirwedd Bryniau Clwyd yn ei chael ar bobl a chymunedau y tu hwnt i'w ffiniau.

## 1.4 Llywodraethu

Ers ehangu'r AHNE i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy, y mae rhannau ohono yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae adolygiad llywodraethu wedi ei gynnal er mwyn datblygu strwythur gwaith mwy priodol sy'n adlewyrchu'r ymagwedd ar y cyd rhwng tri Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn ogystal â'r angen i ehangu i gynnwys partneriaethau eraill yn yr AHNE newydd.

**Cyd-bwyllgor AHNE 2014**
Gwnaeth tri Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam lofnodi'r cytundeb cyfreithiol i gyflawni eu swyddogaethau AHNE ar y cyd trwy gyfrwng Cyd-bwyllgor ar gyfer yr AHNE yn ystod haf 2014. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau Arweiniol (aelodau o Weithrediaeth yr Awdurdod neu'r Cabinet) o bob Awdurdod Lleol ac mae ganddo'r pŵer i weithredu ar ran yr Awdurdodau Lleol hynny wrth gyflawni dibenion yr AHNE. Caiff ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion o swyddogion perthnasol a ddaw o'r awdurdodau lleol cyfansoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru.

# Rhoi'r Cynllun mewn Cyd-destun

## Cyd-destun Ewropeaidd

### 2.1 Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd

Llofnododd y DU y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn 2007. Mae'r Confensiwn yn nodi'n glir agenda ar gyfer amddiffyn a rheoli tirweddau ar lefel Ewropeaidd ac fel y cyfryw mae'n elfen bwysig o ran llywio dull gweithredu strategol. Mae'r Confensiwn yn gofyn i aelod-wladwriaethau:

**a)** gydnabod tirweddau dan y gyfraith fel elfen hanfodol o amgylchoedd pobl, yn fynegiant o amrywiaeth eu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol a rennir, ac yn sylfaen i'w hunaniaeth;

**b)** sefydlu a gweithredu polisïau tirwedd wedi'u hanelu at amddiffyn, rheoli a chynllunio'r dirwedd.

**c)** sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, awdurdodau lleol a rhanbarthol, a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn diffinio a gweithredu polisïau tirwedd.

**ch)** integreiddio tirwedd yn eu polisïau cynllunio rhanbarthol a threfol ac yn eu polisïau diwylliannol, amgylcheddol, amaethyddol, cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â mewn unrhyw bolisïau eraill sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol bosibl ar y dirwedd.

Yn benodol, mae'r Confensiwn yn gofyn i bob gwlad ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o amddiffyn y dirwedd, nodi nodweddion tirwedd arbennig, a gosod a gweithredu amcanion ar gyfer amddiffyn, rheoli a chynllunio'r dirwedd.

### 2.2 Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac Adnoddau Naturiol - Tirweddau Categori V

Mae categorïau rheoli ardal a warchodir yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn dosbarthu ardaloedd gwarchodedig yn unol â'u hamcanion rheoli. Mae'r categorïau yn cael eu cydnabod gan gyrff rhyngwladol fel y Cenhedloedd Unedig a chan sawl llywodraeth genedlaethol fel y safon fyd-eang ar gyfer diffinio a chofnodi ardaloedd gwarchodedig, ac fel y cyfryw, yn cael eu hymgorffori'n fwyfwy mewn deddfwriaeth y llywodraeth.

Mae Categori V yn cyfeirio at un o chwe chategori o ardaloedd gwarchodedig ledled y byd ac yn cael eu diffinio fel ardaloedd gwarchodedig lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl â natur dros amser wedi cynhyrchu ardal o gymeriad nodedig gyda gwerth ecolegol, biolegol, diwylliannol a golygfaol arwyddocaol: a lle mae diogelu cyfanrwydd y rhyngweithiad hwn yn hanfodol er mwyn gwarchod a chynnal yr ardal a'i chadwraeth natur cysylltiedig a gwerthoedd eraill.

Mae Tirweddau Categori V yn cydnabod arwyddocâd AHNE mewn termau byd-eang ac yn sicrhau ymagwedd gyson tuag at gadwraeth tirwedd yn rhyngwladol.

## 2.3 Safle Treftadaeth y Byd UNESCO

*Mae Traphont Ddwr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen wedi dod yn 28ain Safle Treftadaeth y Byd yn y DU, a dim ond y drydedd arysgrif Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru.*

Mae Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen, sydd wedi cael arysgrif fel Safle Treftadaeth y Byd yn 2009. Mae'r dynodiad yn eistedd o fewn 3 Sir –Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir Amwythig, ac yn ymestyn o Lantysilio yn y gorllewin i Gledridge yn y dwyrain. Mae oddeutu 90% o Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr AHNE.

Mae'r cysyniad o Safleoedd Treftadaeth y Byd wrth graidd Confensiwn Treftadaeth y Byd. Mabwysiadwyd hyn yn 1972 gan UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig), y mae 193 o genhedloedd yn perthyn iddo. Trwy'r confensiwn, mae UNESCO yn ceisio annog adnabyddiaeth, amddiffyniad a chadwraeth o safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol o amgylch y byd, yr ystyrir iddynt fod o werth eithriadol i ddynoliaeth.

Roedd y confensiwn yn gofyn am sefydlu Rhestr Treftadaeth y Byd wedi'i rheoli gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd rhynglywodraethol. Mae safleoedd a ddyfernir gyda Statws Treftadaeth y Byd yn cael eu hychwanegu at y rhestr hon, ac mae'n ffordd o gydnabod bod rhai mannau - naturiol a diwylliannol - yn ddigon pwysig i fod yn gyfrifoldeb y gymuned ryngwladol yn ei chyfanrwydd. Fel aelod o'r confensiwn, mae 'gwladwriaeth sy'n barti' (llywodraethau cenedlaethol e.e. Llywodraeth y DU) wedi addo gofalu am eu Safleoedd Treftadaeth y Byd fel rhan o ddiogelu eu treftadaeth genedlaethol. Mae cynhwysiant ar Restr Treftadaeth y Byd yn golygu nad effeithir ar hawliau a rhwymedigaethau presennol perchnogion, deiliaid ac awdurdodau cynllunio, ond cyn cael Statws Treftadaeth y Byd, rhaid dangos bod safle â gwarchodaeth statudol effeithiol a bod cynllun rheoli cynhwysfawr wedi cael cytundeb perchnogion i sicrhau ei gadwraeth a'i gyflwyniad.

# Cyd-destun Cenedlaethol

## 2.4 Bil yr Amgylchedd

Mae Bil yr Amgylchedd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried y gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol, ar dir a môr, mewn ffordd fwy integredig ac mae'n rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ddull gweithredu. Mae'n gosod fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd integredig a chynaliadwy.

Mae'r Bil yn allweddol o ran gwneud darpariaeth ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol a fydd yn canfod cyflwr ein hadnoddau naturiol a pha mor dda y maent yn cael eu rheoli. Bydd yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol yn sail i Bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a fydd yn gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Bydd y polisi hwn yn cael ei gyflwyno ar lefel leol trwy Ddatganiadau Ardal a gynhyrchir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn blaenoriaethu camau gweithredu a chyfleoedd ar gyfer rheoli.

Disgwylir i'r Bil gael cydsyniad yng ngwanwyn 2016.

## 2.5 Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac i'w ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n mynnu bod cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, yn meddwl mwy am y tymor hir, ac i weithio'n well gyda phobl a chymunedau.

Mae'n nodi 7 Nod Lles ar gyfer:

- **Cymru sy'n fwy llewyrchus** - cenedl fedrus ac addysgedig gydag economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth o fewn cyfyngiadau amgylcheddol
- **Cymru gydnerth** – amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.
- **Cymru iachach** - Lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu huchafu
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** - cymdeithas lle gall pobl gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - Cymunedau deniadol, hyfyw, sy'n ddiogel ac â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** - cenedl sy'n ystyried lle y gall gael effaith gadarnhaol ar les byd-eang.

## 2.6 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol - Cymru

Fe'i gelwir hefyd yn Fil Treftadaeth, mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn ceisio gwneud gwelliannau i ddarpariaeth gyfredol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig ac yn cryfhau fframweithiau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol.

Yn benodol, bydd y bil yn rhoi mwy o bwerau i Awdurdodau Lleol weithredu lle mae adeilad rhestredig dan fygythiad neu angen sylw brys. Bydd hefyd yn rhoi cwmpas gwych i Lywodraeth Cymru ymateb, pe bai safleoedd yn cael eu difrodi neu eu dinistrio.

## 2.7 Golwg Tua'r Dyfodol *Datganiad Llywodraeth Cymru ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol.*

Mae'r datganiad polisi drafft hwn yn nodi fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau a ddynodwyd yn statudol yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i dirweddau a ddynodwyd gyfrannu at gwrdd â heriau datblygu cynaliadwy trwy gyflawni eu dibenion statudol.

Roedd yn nodi gweledigaeth ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol i fod yn dirweddau byw, sy'n gweithio, yn enghreifftiau o ddatblygu cynaliadwy, gyda chymunedau gwledig bywiog, cyfleoedd hamdden helaeth yn ogystal ag ecosystemau ffyniannus sy'n gyfoeth o fioamrywiaeth.

Mae'n galw ar Dirweddau Gwarchodedig yng Nghymru i fod yn ardaloedd lle bydd atebion newydd ac arloesol i heriau amgylcheddol yn cael eu datblygu, eu profi a'u rhannu.

Mae'n hyrwyddo yn benodol 'dull ecosystem' o reoli tirlun sy'n golygu ystyried sut y mae'n rheoleiddio ein hamgylchedd a'i wasanaethau allweddol gan gynnwys lles economaidd a chymdeithasol.

## 2.8 Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - Cynlluniau Rheoli Basnau Afon - 2015

Mae'r Gyfarwyddeb hon yn mynnu bod pob Aelod Wladwriaeth yr UE yn cyflawni statws ecolegol da o gyrff dŵr mewndirol erbyn 2015. Mae'n cyflwyno system rheoli dŵr yn seiliedig ar fasnau afon yn hytrach na ffiniau gwleidyddol neu weinyddol.

Mae'n galw am gynhyrchu cynlluniau rheoli Basn Afon a fydd yn gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd dyfrol ac yn diogelu dŵr yfed ac ymolch.

Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mewn dwy Ardal Basn Afon - Afon Dyfrdwy ac Afon Clwyd. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Chynllun Rheoli Dalgylch Afon Clwyd sydd i fod i gael eu cwblhau yn 2015. Mae'r ddau gynllun yn amlinellu mesurau i wella'r amgylchedd dŵr, ei afonydd, llynnoedd a nentydd, ac yn cwmpasu pob un o'r materion a'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr. Mae'r cynlluniau'n cydnabod y gall rheoli basn afon sicrhau manteision lluosog. Er enghraifft, gall rheoli'r ucheldiroedd nid yn unig reoli dŵr llifogydd ond gall hefyd ddarparu ansawdd dŵr gwell a helpu i ddal carbon.

# Cyd-destun Lleol

## Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dod o fewn tair ardal awdurdod lleol. Sef, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Y cynghorau hyn yw'r awdurdodau cynllunio lleol a'r 'awdurdodau perthnasol' o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng nghyswllt Cynlluniau Rheoli AHNE. Mae'n ofynnol i bob cyngor gynhyrchu cynllun datblygu i arwain newid gofodol a thwf o fewn eu hardal. Mae'r cynlluniau hyn naill ai yn 'Gynlluniau Datblygu Unedol' neu'n 'Gynlluniau Datblygu Lleol'. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol a chysoni buddiannau datblygu a chadwraeth er mwyn i newidiadau mewn defnydd tir symud ymlaen yn gydlynol a gyda'r budd mwyaf i'r gymuned.

Mae gan bob un bolisi sy'n parchu dibenion dynodi a chadwraeth tirwedd lle AHNE fel prif ystyriaeth o fewn yr AHNE wrth ystyried cynigion datblygu.

## Geoamrywiaeth

Mae geoamrywiaeth wedi cael ei ddiffinio fel:

> *'y cysylltiad rhwng pobl, tirwedd a'u diwylliant: yr amrywiaeth o amgylcheddau daearegol, ffenomenau a phrosesau sy'n gwneud y tirweddau, creigiau, mwynau, ffosilau a phriddoedd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer bywyd ar y ddaear.*
>
> *(Stanley, 2001).*

Gyda'r diffiniad hwn, mae geoamrywiaeth o'n cwmpas ym mhob man. Mae'n darparu'r deunyddiau crai ar gyfer diwydiant, adeiladau, cartrefi a'r priddoedd lle mae ein cnydau'n tyfu. Mae hefyd yn dechrau siapio a diffinio cynefinoedd sydd mor bwysig ar gyfer bioamrywiaeth. Yn bwysig i Fryniau Clwyd, mae'n cynhyrchu tirweddau trawiadol, sy'n bwysig i'n hiechyd a'n lles.

Mae ymyl dwyreiniol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei drechu gan gefn gwlad calchfaen, o Fryn Prestatyn i Loggerheads a Llanarmon yn Iâl i'r darren drawiadol yn Eglwyseg. Cafodd y calchfaen ei ddyddodi mewn môr trofannol bas, yn ferw o fywyd tua 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan orweddodd Cymru i'r de o'r cyhydedd. Mae'r creigiau yn cynnwys llawer o ffosilau creaduriaid megis sawl math gwahanol o gwrel, crinoidiau, (lili môr), pysgod cregyn deufalf a braciopod, yn enwedig y Gigantoproductus giganteus mawr a Davisiella llangollensis a thrilobitau prin. Ym mhen dwyreiniol yr AHNE mae olion traethau gyda thwyni tywod mawr a ffurfiodd ar arfordir y môr bas. Mae'r tywodfaen yn uchel iawn mewn silica ac fe gafodd y dyddodion eu cloddio ar gyfer y diwydiant gwydr. Mae'r calchfeini a'r tywodfeini hyn hefyd wedi cael eu codi o lawr y môr i'w safle presennol dros 400m uwchben lefel y môr.

Mae'r ardaloedd calchfaen o'r AHNE yn gysylltiedig â chloddio cerrig a mwynau dros ganrifoedd gydag olion gweithgarwch cloddio am blwm yn amlwg yn y dirwedd a chwareli calchfaen.

Mae asgwrn cefn canolog Bryniau Clwyd a llethrau Dyffryn Dyfrdwy yn cael eu trechu gan fryniau wedi'u gorchuddio â grug. Mae'r bryniau yn oes Silwraidd, gyda cherrig llaid a thywodfeini wedi'u dyddio mewn môr dwfn 410 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r creigiau môr dwfn hyn wedi cael eu plygu, eu ffawtio a'u codi i'w safle presennol gan symudiadau daear enfawr ac yn awr, mae'r pwynt uchaf, Moel Fferna uwchben Dyffryn Dyfrdwy, 630m uwchben lefel y môr.

Y Rhyl
Rhyl
Prestatyn
Meliden
Dyserth
Rhuddlan
Gwaenysgor
Trelawnyd
Llanasa
Cwm
Conwy
Rhuallt
Llanelwy
St Asaph
Tremeirchion
Caerwys
Ysceifiog
Bodfari
Waen
Nannerch
Yr Wyddgrug
Mold
Caer
Chester
Cilcain
Pantymwyn
Llangwyfan
Dinbych
Denbigh
Loggerheads
Gwernymynydd
Maeshafn
Llanferres
Moel Famau
Llanbedr
Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Ruthin
Eryrys
Llanarmon-yn-lâl
Llanfair Dyffryn
Clwyd
Graigfechan
Pentre-celyn
Llandegla
Bwlchgwyn
Coedpoeth
Wrecsam
Wrexham
Nantwich
Bryneglwys
Gwyddelwern
Rhosllanerchrugog
Rhewl
Corwen
Carrog
Ruabon
Pontcysyllte
Cefn-Mawr
Glyndyfrdwy
Llangollen
Bala
Cynwyd
Pontfadog
Glyn Ceiriog
Chirk
M53
A41
A548
A5151
A55
M56
A494
A541
A543
A525
A5104
A483
A539
A5


Liverpool
Manchester
Stoke on Trent
Birmingham
Chester
Conwy
Bangor
Caernarfon
Denbigh
Mold
Wrexham
Oswestry
Shrewsbury
Telford
Wolverhampton
Stafford
Northwich
Warrington
Prestatyn
Rhyl
Llandudno
Pwllheli
Aberystwyth
Eisteddfod Genedlaethol
Whitchurch
ENGLAND
WALES

# Dull Ecosystem

## 3.1 Dull Ecosystem

*Beth mae tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ei ddarparu i ni a sut y gallwn sicrhau y gall barhau i ddarparu?*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i reolwyr tirweddau gwarchodedig ddilyn dull ecosystemau wrth baratoi cynlluniau rheoli ac mae wedi cynhyrchu canllawiau er mwyn cynorthwyo i fabwysiadu'r dull hwn (Adolygiadau Cynllun Rheoli Dull Ecosystem ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig' Ymgynghori Craggatak Mawrth 2014)

Mae'r dull ecosystem yn deillio o Gonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 2004. Mae'r confensiwn hwnnw'n diffinio'r dull fel

> *"strategaeth ar gyfer rheolaeth integredig o dir, dŵr ac adnoddau byw sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd deg".*

Mae'r dull ecosystem yn egluro'r cysylltiad rhwng statws systemau adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau sy'n cefnogi lles dynol. Mae'n ceisio cynnal cywirdeb a gweithrediad ecosystemau yn gyffredinol er mwyn osgoi newid ecolegol annymunol cyflym. Mae hefyd yn cydnabod bod effeithiau gweithgareddau dynol yn fater o ddewis cymdeithasol, ac maent yn rhan mor annatod o ryngweithio ecosystem ag y mae ecosystemau i weithgareddau dynol.

Mae systemau naturiol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cyffwrdd ein bywydau bob dydd. P'un a ydym yn byw yn yr Wyddgrug, Wrecsam neu'r Rhyl neu yn yr ardaloedd mwy gwledig, rydym yn dibynnu ar y systemau naturiol hyn i'n cefnogi. Maent yn sail i'n hiechyd, cyfoeth a hapusrwydd ac yn rhoi ymdeimlad o le, balchder a hunaniaeth i ni.

O gael gofal da, bydd yr AHNE yn parhau i roi rhai o hanfodion bywyd i ni, gan gynnwys aer a dŵr glân, bwyd, tanwydd a deunyddiau crai. Mae'n helpu i reoleiddio ein hinsawdd, storio dŵr llifogydd, hidlo llygredd, ac yn rhoi cyfleoedd i ni wella ein hiechyd a'n lles. Mae angen i'r Cynllun, felly, ystyried pa fanteision y gall yr AHNE eu darparu i ddiwallu anghenion cymdeithas ac ymateb i faterion cyfoes megis yr angen i gynhyrchu mwy o fwyd, gwella iechyd a lles ac addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid.

Cydnabyddir hefyd bod tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael dylanwad ar ecosystemau, cymunedau ac economïau ymhell y tu hwnt i ffin y dynodiad. Er enghraifft, mae dechrau dalgylch Afon Dyfrdwy ym Mryniau Clwyd a Mynyddoedd y Berwyn ond mae'n ymestyn ymhell y tu hwnt drwy Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Gaer. Felly mae gweithgarwch o fewn y dalgylchoedd hyn o bosibl yn bellgyrhaeddol, ac felly lle bo angen mae angen i ni ystyried yr effeithiau hyn. Mae hyn yr un mor wir am y cymunedau a busnesau y tu allan i'r AHNE sydd serch hynny yn dibynnu ar ansawdd rhagorol y dirwedd ar garreg eu drws i ffynnu.

Mae **planhigion a choed** yn ganolog i reoleiddio ansawdd aer drwy ailgylchu carbon deuocsid
Mae **treftadaeth ddiwylliannol** yr AHNE yn rhoi cymeriad nodedig i'r ardal wedi'i ffurfio gan gymunedau dros genedlaethau
**Rheoleiddio Dal Carbon** – mae 160 miliwn o dunelli o Garbon wedi ei gloi i mewn i ucheldiroedd Cymru
Mae dalgylch Afon Dyfrdwy yn darparu **dŵr yfed** ffres i Ogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr
**Darparu ynni** drwy harneisio ynni dŵr, solar neu wynt
Mae **rhostir, coetir a ffridd** yn arbennig o bwysig wrth reoleiddio'r llif d□r o ddalgylchoedd i mewn i afonydd a nentydd
Tirwedd dawel ac **ysbrydoledig**
**Darparu coed** i farchnadoedd lleol yn Kronospan
**Darparu Bwyd**
Mae 425 o ffermydd yn yr AHNE yn cadw 95,760 o ddefaid ac ŵyn, 11,063 o wartheg a Lloi
Mae **Twristiaeth Awyr Agored** yn cyfrannu tua £40 miliwn at economi Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
**Cefnogi bioamrywiaeth**
Mae dros chwarter yr AHNE yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn rhyngwladol
**Gwasanaethau Diwylliannol** - Gall mynediad i'r awyr agored wneud cyfraniad sylweddol i iechyd a lles corfforol a meddyliol. Amcangyfrifir bod cost anweithgarwch corfforol yng Nghymru tua £650m

| Gwasanaethau Darparu | Gwasanaethau Rheoli | Gwasanaethau Diwylliannol | Gwasanaethau Cynnal |
|---|---|---|---|
| **Cynnyrch ecosystemau fel dŵr, bwyd a Chyflenwad o ddeunyddiau crai.** | **Canlyniadau prosesau naturiol megis puro dŵr ac ansawdd aer.** | **Manteision 'ansylweddol' sy'n deillio o'n rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol.** | **Swyddogaethau a ddarperir gan ecosystemau sy'n sail i bob un o'r gwasanaethau eraill.** |
| **Cyflenwad Dŵr** | **Ansawdd Aer** | **Ysbrydoliaeth** | **Ffurfiant Pridd** |
| Mae dŵr glân yn hanfodol i fywyd. Mae llethrau Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhan o ddalgylchoedd Dyfrdwy a Chlwyd sy'n cyflenwi dŵr ar gyfer defnydd masnachol a domestig. | Mae planhigion a choed yn ganolog i gylch ocsigen a charbon deuocsid yn yr atmosffer. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoleiddio lefelau llygredd aer. | Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn enwog am harddwch ei dirwedd a'i naws am le. Mae'r ardal wedi rhoi ysbrydoliaeth i lawer o artistiaid enwog ac awduron.<br><br>Mae rhinweddau arbennig yr AHNE yn parhau i fod yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth ac yn galluogi pobl i ddianc a dod o hyd i adnewyddiad ysbrydol. | Mae pridd cael ei ffurfio gan y rhyngweithio rhwng planhigion,<br><br>micro-organebau a'r ddaeareg waelodol. Rydym yn dibynnu ar briddoedd iach ar gyfer tyfu bwyd. Mae pridd yn araf i ffurfio ond gellir ei ddiraddio'n gyflym drwy reoli tir yn wael, erydiad ac effeithiau tywydd a hinsawdd. |
| **Bwyd** | **Rheoleiddio'r Hinsawdd a storio carbon** | **Llonyddwch** | **Bioamrywiaeth** |
| Mae ffermwyr yn yr AHNE yn cynhyrchu bwyd a deunyddiau crai eraill. Mae'r amgylchedd a ffermir yn gynhyrchydd mawr o gig oen, cig eidion a llaeth. | Mae planhigion a choed yn dylanwadu ar yr hinsawdd ar raddfa leol a byd-eang. Maent yn amsugno ac yn storio carbon o'r atmosffer. Mae gan briddoedd mawnaidd o ardaloedd ucheldir Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy rôl allweddol i'w chwarae wrth gloi carbon. | Mae llonyddwch cymharol yn cael ei gydnabod fel ansawdd arbennig yr AHNE. Mae'n darparu adnodd a mantais sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr yng nghyd-destun y canolfannau poblogaeth prysur i'r Gogledd a'r Dwyrain. | Mae planhigion ac anifeiliaiyn sbarduno llawer o'r prosesau sy'n arwain at ecosystem iach, a'r manteision yr ydym yn ei gael ohono. Mae cyfoeth ac amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd yn hanfodol i'w gwarchod gan eu bod yn cefnogi ac yn ategu llawer o'r prosesau rydym yn dibynnu arnynt i gynnal ein bywydau.<br><br>Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gartref i nifer o rywogaethau yn enwedig rhywogaethau prin fel y rugiar ddu, bod tinwen, llygoden bengron y dŵr, a madfallod dwr cribog. |

| Coed | Dŵr a Rheoleiddio Llifogydd | Treftadaeth Ddiwylliannol | Dŵr |
|---|---|---|---|
| Mae coetiroedd yn gorchuddio tua 13% o gyfanswm arwynebedd yr AHNE. Mae'r coetiroedd dail llydan a choniffer yn cyfrannu at farchnadoedd pren yn Kronospan ond mae llawer o berchnogion coetiroedd bach yn cymryd rhan mewn coedlannu a chynhyrchu golosg. | Mae afonydd a nentydd dalgylch dŵr yn helpu i reoleiddio llif dŵr a draeniad y tir trwy storio a lleihau dŵr ffo. Mae'r rhostiroedd, coetiroedd a ffridd yn arbennig o bwysig ac os cânt eu rheoli'n iawn gallant helpu i leihau llifogydd ar adegau o law trwm a chynnal llif afonydd yn ystod cyfnodau o sychder. | Pobl Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n rhoi ei chymeriad unigryw a naws cryf am le a pherthyn personol i'r ardal. Mae'r dreftadaeth wedi bod yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth i genedlaethau o arlunwyr tirwedd, beirdd a cherddorion ac yn parhau i ysbrydoli celf, cerddoriaeth a barddoniaeth mewn eisteddfodau a llenyddiaeth ar draws yr ardal. | Rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol a'i swyddogaethau i ddarparu dŵr ffres i ni. |
| **Egni** | **Rheoliad Erydiad** | **Mynediad a Hamdden** | **Ailgylchu Maethynnau** |
| Mae gan yr AHNE amodau da ar gyfer ystod o gynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n gydnaws â'i rinweddau arbennig.<br><br>Mae lle i ddatblygu adnoddau megis tanwydd coed ac ynni dŵr mewn ffyrdd sy'n hefyd yn gwella ansawdd y dirwedd a bioamrywiaeth. | Mae priddoedd mawnaidd bregus y cribau grug a'r priddoedd calchfaen tenau yn dueddol o erydu. Caiff erydiad ei leihau gan goed a llystyfiant. | Mae hamdden a thwristiaeth yn nodwedd arwyddocaol o'r ardal gyda rhwydwaith helaeth o lwybrau mynediad, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.<br><br>Mae mannau prydferth poblogaidd yn Loggerheads, Moel Famau a'r atyniadau i ymwelwyr megis Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r ardal yn denu miliynau o ymweliadau bob blwyddyn, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd a lles yr ymwelwyr a'r preswylwyr. | Mae planhigion, anifeiliaid a micro-organebau yn hanfodol i gylch naturiol o faetholion ac yn helpu i gynnal ansawdd pridd a dŵr.<br><br>Gall lefelau uwch o faetholion megis nitradau a ffosffadau o garthion a gwrteithiau yn arwain at ansawdd dŵr gwael. |

# Beth sy'n gwneud Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Arbennig?

Wrth lunio rhaglen rheoli ar gyfer amddiffyn a gwella'r AHNE mae'n angenrheidiol yn gyntaf i ddiffinio'r nodweddion a'r rhinweddau unigol hynny sy'n ffurfio cymeriad arbennig yr ardal.

Er y cydnabyddir bod nifer o elfennau eraill o fewn y dirwedd sydd o werth arbennig, mae'n bwysig nodi'r nodweddion hynny o fewn Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n cynrychioli'r rhinweddau gorau yn genedlaethol. Cydnabyddir hefyd bod y cymeriad arbennig hwn wedi'i lunio o'r cyfuniad unigryw o'i holl Nodweddion Arbennig a'i rhinweddau lle gellir ystyried mai'r nodweddion yw'r priodoleddau ffisegol, ei gweundir eang, coetiroedd a chlogwyni, a'r rhinweddau yw'r priodoleddau anffisegol ac maent yn ymwneud â sut yr ydym yn rhyngweithio â hi. Dyma agweddau synhwyrol y dirwedd.

Gwnaeth y broses cynllunio rheoli yn 2009 ar gyfer Bryniau Clwyd olygu cynnal ymgynghoriad â chymunedau lleol, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau â diddordeb yn rheolaeth yr ardal. Nodwyd y nodweddion a'r rhinweddau unigol sy'n ffurfio cymeriad arbennig yr ardal ac roeddent yn sail i Gynllun Rheoli 2009 ar gyfer Bryniau Clwyd. Yn yr un modd roedd y gwaith a wnaed i gyflawni'r estyniad i Fryniau Clwyd i Ddyffryn Dyfrdwy yn 2011 yn ystyried nodweddion arbennig y dirwedd a gafodd eu dwyn ynghyd yn Ddatganiad Interim yn 2012. Mae'r Nodweddion a'r Rinweddau Arbennig a nodwyd yn y ddau ddarn o waith wedi'u dwyn ynghyd i ffurfio sail y cynllun hwn.

Mae'r nodweddion arbennig a'r rhinweddau a nodir yn y ddau ddarn o waith wedi'u tynnu ynghyd i ffurfio sail y cynllun hwn ac wedi'u hailadrodd isod yn **Nhabl 1**

# Tabl 1 : Rhinweddau Arbennig yr AHNE

## Cymeriad Tirwedd ac Ansawdd

### Llonyddwch

Mae llonyddwch yn gysylltiedig ag awyrgylch o osteg; heddwch a thawelwch; a gydag awyr dywyll y nos.

### Pellenigrwydd a Gwylltineb, Gofod a Rhyddid

Mae pellenigrwydd a gwylltineb yn gysylltiedig â theimlad o anesmwythder a pherygl weithiau hyd yn oed. Yr addurnol.

Mae gofod a rhyddid yn gysylltiedig â mynediad i'r dirwedd a'r golygfeydd di-dor a helaeth o'r lleoedd uchel o'i fewn.

Bro a'r cysylltiad rhwng cymunedau a'u tirwedd

Ymdeimlad o berthyn ac ymlyniad i'r dirwedd.

## Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

### Gweundir Grug a Chribau Eang

Cribau gweundir dramatig canol Bryniau Clwyd, Rhosydd eang Llandegla a Rhiwabon, Llantysilio a Gogledd Berwyn.

### Coetiroedd llydanddail a Choed hynafol

Coed Bishop, Cwm, a Dyffryn Afon Chwiler. Coed Dyffryn Alyn â Choed Onnen yn bennaf, a choedlannau bach rhan uchaf Dyffryn Alyn a'r coedwigoedd derw ar ucheldir Dyffryn Dyfrdwy.

### Cymoedd Afonydd ac Afon Dyfrdwy

Afon Dyfrdwy ddramatig a phwerus yn cyferbynnu ag Afon Alyn ac Afon Chwiler sy'n llai ac yn troi a throelli.

### Glaswelltiroedd calchfaen, clogwyni a sgrïau

Graig Fawr, Loggerheads a Bryn Alyn - Llanarmon yn Iâl a Chilfa ysblennydd Eglwyseg.

## Amgylchedd Hanesyddol

### Anheddiad Hanesyddol ac Archaeoleg

Patrymau anheddiad hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Y patrymau a'r nodweddion amrywiol yn y dirwedd a adawyd gan genedlaethau blaenorol.

### Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd

Chwarela calchfaen a mwyngloddio plwm, chwareli llechi a thramffyrdd a gweithfeydd cysylltiedig - Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Rhaeadr y Bedol.

### Nodweddion Amddiffyn Hanesyddol

Y gadwyn ddramatig o Fryngaerau Oes yr Haearn a Bryniau Clwyd, Castell Dinas Brân a Chastell y Waun a Mwnt a Beili canoloesol yn Nhomen y Rhodwydd, Tomen y Fadre a Mwnt Glyndŵr, Carrog.

### Nodweddion hanesyddol bach

Yn aml heb eu rhestru neu eu cofrestru, cymysgedd cyfoethog o nodweddion hanesyddol bach sy'n rhan bwysig o haen ddiwylliannol gyfoethog y dirwedd – ffynhonnau, pympiau pentref, cerrig ffiniau, arwyddbyst, stondinau llaeth a blychau teleffon K6.

### Ffiniau traddodiadol

Waliau sych a gwrychoedd sy'n adlewyrchu sgiliau a chrefftwaith traddodiadol ac yn aml yn adlewyrchu arddulliau lleol a daeareg.

## Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth

### Atyniadau Eiconig i Ymwelwyr a Diwylliant

Safleoedd sydd wedi helpu i lunio hunaniaeth yr AHNE fel cyrchfan i ymwelwyr – Loggerheads, Moel Famau, Castell Dinas Brân, Abaty Glyn y Groes, Bwlch yr Oernant a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte a Rhaeadr y Bedol.

### Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybrau wedi'u Hyrwyddo

Yn ymestyn o fryniau Prestatyn yn y gogledd i Langollen yn y De, mae'r Llwybr Cenedlaethol yn gwneud yr AHNE yn arbennig o hygyrch. Llwybr Dyffryn Dyfrdwy, Llwybr Gogledd Berwyn a rhwydwaith o lwybrau cymunedol. Ynghyd ag ardaloedd helaeth o Dir Mynediad mae tirwedd yr AHNE yn arbennig o hygyrch.

## Diwylliant a Phobl

### Yr Amgylchedd Adeiledig

Y pentrefi a threfi, pentrefannau ac aneddiadau gwasgaredig.

### Pobl a Chymunedau

Cymysgedd cyfoethog o ddiwylliant ac ymdeimlad cryf o gymuned – y cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn cynnal bywyd gwledig

## Ymateb i dueddiadau a materion yn y Dyfodol

Wrth osod agenda ar gyfer Nodweddion a Rhinweddau Arbennig yr AHNE, mae'r strategaeth hon wedi'i thynnu o ganfyddiadau Adroddiad Cyflwr yr AHNE sy'n nodi'r materion a'r grymoedd allweddol ar gyfer newid sy'n effeithio ar yr AHNE yn lleol a chenedlaethol.

Mae Adroddiadau Cyflwr yr AHNE yn sefydlu rhywfaint o ddata llinell sylfaen hanfodol ar gyfer dangosyddion allweddol a fydd yn rhoi syniad o gyflwr cyffredinol nodweddion tirwedd a'i gallu i wrthsefyll newid. Er bod rhywfaint o ddata yn bodoli o gynlluniau blaenorol sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau mewn newid yn y dirwedd, dyma'r tro cyntaf i'r rhan ddeheuol o'r AHNE gael ei chynnwys.

Mae llawer o'r grymoedd trosfwaol ar gyfer newid a nodir yn y Cynllun Rheoli AHNE diwethaf yn dal i fod yn berthnasol er bu rhywfaint o gynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â materion allweddol mewn rhai ardaloedd.

- Mae'r cynllun Partneriaeth Tirwedd y Grug a'r Caerau yn canolbwyntio ar faterion o adawiad amaethyddol a diffyg rheoli ardaloedd rhostir gyda ffermwyr a rheolwyr tir i ddod â rhannau sylweddol o Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio i gytundebau rheoli yn y tymor hir. Mae niferoedd y grugieir du wedi cynyddu'n gyson mewn ymateb ond yn gyffredinol, mae rhywogaethau adar ucheldir cyffredinol a thir amaeth yng Nghymru yn parhau i ostwng - gostyngiad o dros 65% yn y blynyddoedd diwethaf - sy'n anffodus yn unol â cholled dramatig cyffredinol o fioamrywiaeth ar draws y DU.
- Mae'r economi ymwelwyr ym Mryniau Clwyd wedi ehangu gyda chynnydd cyffredinol mewn ymwelwyr o tua 6% a chynnydd cyfatebol mewn gwariant ymwelwyr o tua 20% i dros £19 miliwn. Mae gwariant cyffredinol ar draws Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy tua £39 miliwn ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyflogaeth ac economi'r ardal. Bydd mynd i'r afael â materion o dagfeydd sy'n gysylltiedig â mwy o ymwelwyr i'r AHNE yn

gynyddol bwysig yn enwedig o gwmpas Loggerheads a Moel Famau a Safle Treftadaeth y Byd ym Masn Trefor a Llantysilio.

- Collwyd llonyddwch yn gyffredinol ar draws yr AHNE, gyda gostyngiad o ardaloedd heb darfu arnynt a nodwyd ar Fapiau Mannau Llonydd Cymru o tua 10%. Mae hyn wedi bod yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ymyrraeth ffyrdd mawr ac mae llygredd golau a sŵn o Wrecsam a Rhosllannerchrugog wedi dwysau.

- Mae angen cynyddol i ystyried ffurfiau adnewyddadwy o gynhyrchu ynni a fydd yn dod â chynnydd mewn ceisiadau am gynigion datblygu gwynt, solar a dŵr o fewn a thu allan i'r AHNE.

- Newidiadau mewn Cymorth Amaethyddol – Mae cymorth ar gyfer gwaith amgylcheddol a ddarperir i ffermwyr drwy Dir Gofal a Glastir wedi cael effaith sylweddol ar gynefin cadarnhaol a gwarchod y dirwedd, yn enwedig o ran rheoli ar Dir Comin. Gall newidiadau yn y mecanweithiau cefnogi hyn effeithio ar gwmpas y gweithiau hyn yn y dyfodol.

# Gweledigaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dirwedd ddeinamig â chymunedau llewyrchus ac economi leol sy'n ffynnu. Mae'r tirlun hwn yn cefnogi adnodd biolegol a diwylliannol cyfoethog sy'n cyflawni manteision ar gyfer cymunedau, economïau ac ecosystemau ymhell y tu hwnt i'w ffin. Mae tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei choleddu fel hafan heddychlon gan y rhai sy'n byw yn yr AHNE a'r rhai sy'n ymweld â hi, ac mae'n cael ei thrysori am ei mannau agored a'i golygfeydd grymus. Mae ei nodweddion arbennig a'r manteision y maent yn eu darparu yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi gan bawb.

Rheolir yr AHNE drwy bartneriaethau cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau bod cymunedau ac ymwelwyr yn cymryd rhan yn llawn wrth wneud penderfyniadau ac yn cael eu grymuso i gael rhan yn eu tirwedd leol a buddsoddi yn ei dyfodol.

Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ardal flaenllaw ar gyfer datblygu cynaliadwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae ei hamddiffyn rhyngwladol fel tirwedd warchodedig categori V yn ddylanwadol ar lwyfan rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

# Ansawdd a Chymeriad Y Dirwedd

*Amrywiaeth fawr o ran tirwedd, golygfeydd agored, gweundir eang a chribau dramatig, clogwyni a sgriau ysblennydd, coed hynafol a choetir bras, cymoedd afonydd ysgubol a nentydd rhaeadrol; rhostiroedd amrywiol a glaswelltiroedd blodeuegol bras;*

*Aneddiadau hanesyddol ac adeiladau nodedig, henebion dramatig a brodwaith o dystiolaeth o anheddiad dynol; safle treftadaeth y byd, camlesi, traphontydd dŵr a dyfrffyrdd;*

*awyr dywyll y nos; aer clir heb ei lygru, heddwch a llonyddwch, anghysbell a gwyllt; adfeilion abatai ac eglwysi cynnar, golygfeydd godidog ac adfeilion hynafol; cymunedau ffyniannus, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru; ysbrydoliaeth artistig a llenyddol, llwybrau helaeth;*

*Cynefin, Belonging.*

**Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n benodol ar rinweddau Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac yn benodol y llonyddwch y mae'n ei gynnig, y golygfeydd eang a helaeth i bob cyfeiriad o bron bob cornel. O'r dwyrain, fodd bynnag, mae'r golygfeydd yn cael eu dominyddu gan gytrefi'r Wyddgrug, Caer, Wrecsam a Glannau Mersi. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar dawelwch, yn arbennig yn y nos, gan daflu goleuni ar yr awyr tywyllach i'r gorllewin.**

**Mae'r adran hon hefyd yn cydnabod y rôl hanfodol y mae pobl wedi ei chwarae ac yn parhau i'w chwarae wrth roi cymeriad unigryw i'r tirlun. Mae cenedlaethau o gymunedau wedi ffurfio'r tir, gan ffermio, adeiladu a mowldio'r dirwedd i ddiwallu eu hanghenion. Pobl sy'n rhoi blas, diwylliant a threftadaeth i ardal, ac mae'n cronni dros lawer o genedlaethau.**

**Rhinweddau Arbennig**

- Llonyddwch
- Pellenigrwydd a Gwylltineb - Heddwch a thawelwch gydag awgrym o berygl a syndod
- Bro a'r cysylltiad rhwng cymunedau a'u tirwedd - Ymdeimlad o berthyn ac ymlyniad i'r dirwedd

## Polisïau

### Ansawdd a Chymeriad y Dirwedd

**PolRhA1** Gwarchod a gwella Rhinweddau Arbennig a chymeriad unigryw tirwedd yr AHNE a'r nodweddion cysylltiedig, gan gynnwys y ffurf adeiledig hanesyddol.

**PolRhA2** Diogelu'r golygfeydd panoramig, y llonyddwch ac ansawdd amgylcheddol yr AHNE ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

**PolRhA3** Sicrhau defnydd teg a chynaliadwy o adnoddau naturiol yr ardal i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE.

**PolRhA4** Amddiffyn a hybu hynodrwydd diwylliannol traddodiadol o fewn yr AHNE gan gynnwys y Gymraeg.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| ACDA1 | Sicrhau bod adnoddau naturiol a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. |
| ACDA2 | Sicrhau bod effeithiau newid amgylcheddol ar yr AHNE yn cael eu deall a bod ymateb strategol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. |
| ACDA3 | Lleihau effeithiau cronnol newid ar raddfa fach a allai erydu cymeriad arbennig yr AHNE. |
| ACDA4 | Diogelu llonyddwch yr AHNE a chymryd camau lle bo modd i leihau llygredd sŵn a golau. |
| ACDA5 | Lleihau ymwthiad gweledol lle bo modd, drwy sgrinio neu ddileu pethau diolwg. |
| ACDA6 | Sefydlu rhaglen fonitro o olygfannau allweddol ar draws yr AHNE. |

# Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

**Mae'r AHNE yn cefnogi amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n adlewyrchu'r amrywiadau lleol mewn daeareg, topograffi, priddoedd, defnydd tir a hinsawdd. Mae cribau rhostir dramatig Bryniau Clwyd a bryniau eang Dyffryn Dyfrdwy yn gymysg â chlogwyni calchfaen ysblennydd, afonydd troellog a rhaeadrol a choetiroedd gwasgaredig. Maent yn cynnwys rhai o gynefinoedd pwysicaf y DU ac mae arwyddocâd yr ardaloedd hyn ar gyfer cadwraeth yn cael ei gydnabod gan y dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig.**

**Mae ffermio, yn enwedig cig eidion cymysg traddodiadol a ffermio defaid, yn sail i gymeriad tirwedd, bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.**

**Roedd y diwydiant traddodiadol hwn yn canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd a hefyd yn darparu cymorth sylweddol ar gyfer twristiaeth, hamdden a mynediad. Mae pori cytbwys o ardaloedd yr ucheldir, ynghyd â rheolaeth ofalus a phriodol yn hanfodol i gynnal cynefin cyfoethog ac amrywiol ar gyfer rhai o'n rhywogaethau mwyaf prin. Mae rhostir yn cyfrif am tua chwarter yr AHNE ac yn chwarae rôl hanfodol mewn rheoleiddio llif y dŵr glaw i'r prif afonydd.**

## Cysylltedd

Y cyfuniad a'r amrywiaeth o nodweddion a chynefinoedd yn yr AHNE gyda'i gilydd sy'n gwneud Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn arbennig. Mae'n bwysig ystyried sut y mae'r cydrannau amrywiol hyn yn rhyngweithio ac yn gweithredu fel ecosystem gyffredinol.

Mae ardaloedd yr ucheldir a chymoedd afon Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn darparu llawer o fanteision gwasanaeth ecosystem ar gyfer pobl a chymunedau o fewn yr AHNE a thu hwnt. Mae rhai yn gyfarwydd fel bwyd, tanwydd, dŵr a bioamrywiaeth yn ogystal â gwasanaethau diwylliannol fel hamdden a thwristiaeth. Mae eraill yn llai amlwg, ond maent yn cynnwys rheolaeth llifogydd, ffurfiad pridd a pheilliad ac maent yr un mor hanfodol i les dynol.

Mae'r AHNE yn cynnwys tirweddau gwerthfawr a chynefinoedd naturiol ac mae ei phriddoedd a choetiroedd yn storio carbon. Mae'n ffynhonnell bwysig o ddŵr a bwyd. Mae ei thirwedd a'i harddwch naturiol yn denu ymwelwyr sy'n chwilio am ddifyrrwch a chyfle i orffwyso'r meddwl.

## Nodweddion Arbennig

- Gweundir Grug a Chribau Eang
- Coetiroedd llydanddail a Choed hynafol
- Cymoedd Afonydd ac Afon Dyfrdwy
- Glaswelltiroedd calchfaen, clogwyni a sgrïau.

## Polisïau

### Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

**PolBG1** Sicrhau systemau naturiol a rhwydweithiau sy'n darparu mwy o leoedd gwell ar gyfer natur er budd bywyd gwyllt a phobl.

**PolBG2** Adfer, ailgysylltu ac ehangu cynefinoedd allweddol a rhywogaethau ar raddfa tirwedd er mwyn cynyddu gwydnwch i newid amgylcheddol.

**PolBG3** Sicrhau bod cadwraeth cynefinoedd yn rhan annatod o reolaeth amaethyddol a hela.

**PolBG4** Sicrhau bod manteision naturiol a gwasanaethau'r dirwedd yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi'n briodol.

## Gweundir Grug a Chribau Eang

Mae'r rhan fwyaf o'r gweundir o fewn yr AHNE yn cynnwys rhostir sych er bod rhostir gwlyb a gorgors yn bresennol hefyd, yn arbennig yn y de. Mae rheoli yn bennaf ar gyfer defaid ac mae rheoli grugieir hefyd yn bwysig yn Nyffryn Dyfrdwy. Er nad yw ardaloedd gweundir ym Mryniau Clwyd wedi eu dynodi, maent yn dal i fod yn gynefinoedd pwysig ar gyfer rhywogaethau a warchodir. Ar draws yr AHNE mae parth pontio nodedig ar ochr y bryniau is lle mae gweundir yn ildio i dir ffermio isel mwy ffrwythlon. Mae gan yr ymyl ucheldir hwn, a elwir yn aml yn ffridd, gyfansoddiad cynefin unigryw gydag elfennau sy'n nodweddiadol o gynefinoedd ucheldir ac iseldir. Gall ffridd yn aml fod yn un o'r cynefinoedd mwyaf amrywiol o fewn yr AHNE ac mae'n arbennig o bwysig i gysylltu ardaloedd mwy darniog.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| GGA1 | Gweithio gyda Grŵp Bionet Gogledd Cymru i gynnal neu ymestyn graddau presennol gweundir grug o fewn yr AHNE. |
| GGA2 | Dod ag ardaloedd o weundir grug i reolaeth gynhyrchiol gadarnhaol. |
| GGA3 | Parhau i fonitro grugieir duon a rhywogaethau adar eraill yr ucheldir fel arwydd o gyflwr y cynefin. |
| GGA4 | Cysylltu cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel â rheoli ecosystemau. |
| GGA5 | Cefnogi ac annog rheoli gweundir grugieir yn gynaliadwy lle mae'n cael effeithiau amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol. |
| GGA6 | Adfer ardaloedd o gynefin gweundir blaenorol o fewn yr AHNE lle bo modd. |
| GGA7 | Darparu cymorth i ffermwyr a thirfeddianwyr yn yr ucheldir i ddod â gweundiroedd i mewn i gynlluniau rheoli. |

## Glaswelltiroedd Calchfaen, Clogwyni a Sgrïau.

Mae glaswelltir calchaidd a brigiadau calchfaen yn bodoli drwy'r AHNE yn fwyaf nodedig i'r gogledd o amgylch Bryniau Prestatyn a'r ardaloedd canolog o amgylch Llanarmon yn Iâl ac Eryrys. Mae Cilfa ddramatig Eglwyseg yn dominyddu pen dwyreiniol Dyffryn Dyfrdwy yn y De ac yn darparu rhai o nodweddion mwyaf nodedig yr AHNE. Mae systemau ogofâu yn Ffynnon Beuno, Llanarmon yn Iâl a Dyffryn Alun yn nodweddion allweddol o'r dirwedd hon ac mewn llawer o achosion yn gysylltiedig â galwedigaeth cyn-hanesyddol megis yn yr ogof Lyncs a Perthichwarae. Mae'r ail balmant calchfaen mwyaf yng Nghymru i'w ganfod ym Mryn Alun.

Mae'r ardaloedd hyn yn gysylltiedig â phriddoedd bas, â sylfaen cyfoethog sy'n draenio'n rhydd ac sy'n cefnogi cymunedau planhigion bras. Mae'r math hwn o gynefin yn cyfrannu'n fawr at fioamrywiaeth yr AHNE. Mae'r ardaloedd agored hyn yn draddodiadol wedi'u cynnal gan bori da byw, ond mae newidiadau mewn arferion ffermio wedi golygu bod rhai ardaloedd yn cael eu tanbori ac mae amrywiaeth rhywogaethau wedyn wedi'i cholli wrth i brysgwydd ennill tir.

Mae llawer o ardaloedd calchfaen yn yr AHNE o ddiddordeb biolegol a daearegol sylweddol ac fel y cyfryw rhoddir amddiffynfa iddynt fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Yn draddodiadol mae'r ardaloedd hyn wedi'u cysylltu â chwarela ac echdynnu mwynau ac mae rhai chwareli mawr yn dal i fod yn gweithredu, a chyfoeth o archaeoleg ddiwydiannol sy'n gysylltiedig â mwyngloddio plwm yn y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| GCA1 | Cynnal graddau presennol y glaswelltir calchaidd a phalmant calchfaen o fewn yr AHNE. |
| GCA2 | Dod â'r holl ardaloedd glaswelltir calchfaen sy'n eiddo i'r cyhoedd / a reolir gan y cyhoedd, clogwyni a sgrïau i mewn i gynlluniau rheoli ffafriol. |
| GCA3 | Darparu cyfleoedd i ardaloedd glaswelltir a phalmant calchfaen dan berchnogaeth breifat i ddod i mewn i gynlluniau rheoli ffafriol. |
| GCA4 | Sicrhau bod pwysau hamdden yn lleihau mewn ardaloedd sensitif. |

## Coetiroedd a Choed Hynafol

Mae llawer o'r coetiroedd hyn yn cynrychioli cysylltiad â'r dirwedd fel y gwnaeth ymddangos yn dilyn oes yr iâ ddiwethaf ac yn cefnogi ystod amrywiol o fflora a ffawna. Mae coetiroedd onnen yn arbennig o bwysig yn Nyffryn Alyn lle mae wedi ei ddynodi yn ACA. Mewn rhannau eraill o'r AHNE mae coedwigoedd derw yn sylweddol. Mae'r parciau hanesyddol, sy'n arbennig o amlwg yn Nyffryn Dyfrdwy, yn cynnwys rhai o'r coed hynaf yn yr AHNE ac maent yn elfennau allweddol o'r dirwedd hanesyddol yn ogystal â chefnogi bioamrywiaeth sylweddol.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| **CCHA1** | Cynnal graddau presennol coetir llydanddail a choed hynafol o fewn yr AHNE gan ystyried polisïau eraill o fewn y strategaeth rheoli. |
| **CCHA2** | Cofnodi graddau presennol a chyflwr coed hynafol yn yr AHNE. |
| **CCHA3** | Cynnal ac adfer coetiroedd llydanddail i gyflwr ffafriol drwy weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Coetiroedd Onnen Cymysg, Coetiroedd Derw Ucheldir a Choetiroedd Gwlyb. |
| **CCHA4** | Datblygu coetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd fel modelau arfer gorau wrth reoli coetiroedd llydanddail. |

## Cymoedd Afonydd

Wrth ystyried Cymoedd Afonydd yr AHNE mae'n bwysig edrych y tu hwnt i'r cyrff dŵr eu hunain. Er enghraifft, gall rheoli'r gweundiroedd a ffridd, cynnal coetiroedd a ffiniau caeau nid yn unig reoli dŵr llifogydd ond gall hefyd ddarparu ansawdd dŵr gwell a helpu i ddal carbon. Hefyd dylem gofio bod y dŵr yn y pen draw yn llifo ymhell y tu hwnt i ffin yr AHNE felly mae effaith rheoli tir o fewn yr AHNE yn bellgyrhaeddol o bosibl.

Afon Dyfrdwy yw'r mwyaf amlwg o'r afonydd yn yr AHNE ac mae ei dalgylch yn ymestyn tua'r gogledd i gynnwys Afon Alyn yng nghanol Bryniau Clwyd. Mae Afon Dyfrdwy wedi'i dynodi yn ACA ac mae'n bwysig o ran eog yr Iwerydd, dyfrgwn ac amrywiaeth o gynefinoedd gwlyptir. Afon Chwiler yw'r afon arwyddocaol arall sy'n ffurfio rhan bwysig o ddalgylch Clwyd.

Mae Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn cynnwys camlas Llangollen, sy'n goridor torlannol ychwanegol, sy'n darparu cynefinoedd allweddol ar ei hyd o 11 milltir.

Maent yn systemau deinamig ac yn darparu ystod eang o gilfachau ecolegol sy'n cefnogi amrywiaeth o fflora a ffawna. Maent hefyd yn ffurfio coridorau bywyd gwyllt pwysig, gan alluogi rhywogaethau i wasgaru a mudo.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| CAA1 | Parhau i fonitro graddau rywogaethau dangosydd allweddol fel dyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr er mwyn mesur cyflwr cynefin. |
| CAA2 | Parhau i ddatblygu partneriaeth o asiantaethau a chyrff allweddol i sicrhau dull gweithredu integredig sy'n canolbwyntio ar y dirwedd o ran rheoli. |
| CAA3 | Cefnogi a datblygu dull gweithredu ar raddfa tirwedd o ran gweithredu rhaglen rheoli rhywogaethau goresgynnol yn arbennig o ran Jac y Neidiwr. |
| CAA4 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a thirfeddianwyr/rheolwyr o bwysigrwydd cymoedd afonydd ar gyfer bioamrywiaeth. |

# Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae gan yr AHNE gyfoeth o olion archeolegol a hanesyddol sy'n dyddio o'r cyfnod cynhanesyddol cynnar i'r Ail Ryfel Byd. Mae safleoedd yn amrywio o'r Bryngaerau enfawr o Oes yr Haearn i'r olion cnydau llai amlwg a chanfyddiadau yn yr ardaloedd is.

Mae'r nifer fawr o safleoedd archeolegol yn yr AHNE yn rhan o'r argraff barhaus o weithgarwch dynol sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd. Maent yn cynrychioli gweithgarwch dynol o tua oes yr iâ ddiwethaf, 12,000 o flynyddoedd yn ôl, i'r tirweddau diwydiannol mwy diweddar ond pwysig sy'n gysylltiedig â chloddio mwynau a cherrig.

Mae llawer o'r safleoedd archeolegol hyn yn Henebion Rhestredig ac maent yn cael eu hamddiffyn drwy Cadw. Mae llawer o nodweddion hanesyddol eraill, fel cerrig ffin, ffynhonnau pentrefi a cherrig milltir heb eu diogelu ac fel y cyfryw maent yn llawer mwy agored i niwed.

## Nodweddion Arbennig

- Anheddiad Hanesyddol ac Archaeoleg
- Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd
- Nodweddion Amddiffyn Hanesyddol
- Nodweddion Hanesyddol Bach
- Ffiniau Traddodiadol

## Polisïau

### Amgylchedd Hanesyddol

**PolAH1** Gwarchod a gwella nodweddion a safleoedd o bwysigrwydd archeolegol diwylliannol neu hanesyddol o fewn yr AHNE wrth gydnabod bod gan yr ardal i gyd ddimensiwn hanesyddol.

**PolAH2** Cynyddu ein dealltwriaeth o bob agwedd ar Amgylchedd Hanesyddol yr AHNE.

**PolAH3** Sicrhau bod Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei warchod a'i wella yng nghyd destun ei leoliad o fewn yr AHNE.

## Anheddiad Hanesyddol ac Archaeoleg

## Amcanion

| | |
|---|---|
| AHA1 | Gweithio tuag at sefyllfa lle mae cyflwr yr holl safleoedd archeolegol o fewn yr AHNE yn hysbys a gwneir gwaith rheoli priodol. Defnyddio gwybodaeth y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH), prosiectau Cymru gyfan, cynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir a'r broses gynllunio i hwyluso hyn. |
| AHA2 | Annog perchnogion parciau a gerddi hanesyddol o fewn yr AHNE i gynnal ac adfer nodweddion parcdir presennol fel y nodwyd ar y Gofrestr. |
| AHA3 | Cynyddu proffil yr Amgylchedd Hanesyddol drwy sicrhau dehongli a gwybodaeth effeithiol a chyson. |
| AHA4 | Ymgorffori gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol yn y broses rheoli barhaus o fewn yr AHNE. |

## Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd

Mae llonyddwch a harddwch yr AHNE heddiw mewn llawer o leoedd yn cuddio'r diwydiant prysur a ffyniannus a fu'n amlwg iawn mewn llawer o rannau o Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Roedd yr ymgyrch i ennill adnoddau naturiol o'r dirwedd; plwm, calchfaen, llechi a thywod, yn golygu bod entrepreneuriaid a chwilwyr wedi gwthio yn uchel i'r bryniau pell ac yn ddwfn i gymoedd coediog i chwilio am ffortiwn. Yn yr un cyfnod gwelwyd arloesi mawr yn goresgyn rhwystrau naturiol y dirwedd ac mae nodweddion fel Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Leete Dyffryn Alyn a thramffyrdd o Foel Fferna a Llantysilio a gweithfeydd plwm helaeth ym Minera yn parhau i atgoffa'n ddramatig o ddyfeisgarwch a phenderfyniad y gorffennol.

Drwy'r AHNE mae olion siediau, tai injan, tramffyrdd ac odynau calch yn rhan bwysig o gymeriad arbennig y dirwedd ac maent yn atgoffa o gymunedau'r gorffennol.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| **STBA1** | Sicrhau uniondeb gwerthoedd cyffredinol eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. |
| **STBA2** | Nodi a chynnal golygfeydd allweddol i Safle Treftadaeth y Byd ac oddi yno a'r lleoliad gweledol a diwylliannol, yn unol â pholisïau eraill yn y strategaeth hon. |
| **STBA3** | Cymryd camau i reoli effaith pwysau ymwelwyr ar uniondeb hanesyddol a lleoliad Safle Treftadaeth y Byd, drwy ddarparu cyfleusterau, arwyddion a gwasanaethau mewn lleoliadau addas. |
| **STBA4** | Sicrhau dull cyson neu ategol o ran dehongli, arwyddion ac ansawdd y profiad ar draws awdurdodau partner. |
| **STBA5** | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd safleoedd diwydiannol a nodweddion o fewn y cynllunio a'r AHNE. |
| **STBA6** | Datblygu cofrestr "risg" ar gyfer safleoedd hanesyddol diwydiannol allweddol a gweithio tuag at raglenni a fydd ymateb lle mae angen gweithredu. |

## Bryngaerau a Strwythurau Amddiffynnol

Mae cadarnleoedd canoloesol Castell Dinas Brân a Chastell y Waun yn cysylltu rhan Ddeheuol yr AHNE gydag amddiffynfa Dyffryn Dyfrdwy gan yn gyntaf y Cymry ac yna'r Saeson o dan Edward I. Mae'r gadwyn drawiadol o Fryngaerau Oes yr Haearn ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn awgrymu meddiannaeth a setliad amddiffynnol llawer cynharach. Yn ddiweddarach eto mae cysylltiad Owain Glyndŵr gyda Chorwen ac Ederynion yn rhoi gwreiddiau diwylliannol a hanesyddol cryf i amddiffyn hunaniaeth genedlaethol.

## Amcanion

**SAA1** Sicrhau parhad Prosiect y Grug a'r Caerau i gynnal y lefel bresennol o waith ar y 4 o gaerau ym Mhenycloddiau, Moel Arthur, Moel y Gaer Llanbedr a Moel Fenlli a cheisio parhau â rhaglen i gynnwys Moel y Gaer Bodfari a Moel Hiraddug.

**SAA2** Sicrhau'r nodweddion uniondeb strwythurol a sicrhau bod effeithiau pwysau ymwelwyr yn lleihau.

## Nodweddion Hanesyddol Bach

Mae'r dirwedd ac yn enwedig pentrefi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys llawer o nodweddion bach sydd gyda'i gilydd yn helpu i wella'r ardal a rhoi ei chymeriad iddi. Mae rhai yn dal i fod â swyddogaeth ddefnyddiol, fel blychau post a grin pentrefi a thir comin plwyfi. Mae eraill fel hen fynegbyst ar y ffyrdd, nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr awdurdod priffyrdd mwyach, nid oes defnydd i'r cerrig milltir neu flychau ffôn coch K6 mwyach a gallant ddiflannu'n rhwydd oddi ar ein tirwedd.

Mae'r nodweddion bob dydd hyn yn aml yn cael eu cymryd yn ganiataol, ond byddai ein tirweddau aneddiadau yn dlotach hebddynt.

## Amcanion

**NHBA1** Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd nodweddion hanesyddol bach o fewn yr amgylcheddau cynllunio a phriffyrdd drwy ddarparu sesiynau hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

**NHBA2** Annog cymunedau i nodi a mapio nodweddion o fewn eu cymunedau ar gronfa ddata safonol sy'n gydnaws â'r CAH.

**NHBA3** Annog cymunedau i fabwysiadu'r nodweddion hyn a gweithredu fel cefnogwyr iddynt drwy godi ymwybyddiaeth o fewn cynghorau cymuned a grwpiau ieuenctid.

## Ffiniau

Mae nodweddion ffiniau ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i raddau helaeth yn adlewyrchu amgylchiadau lleol a daeareg. Yn yr ardaloedd calchfaen mae'r ffiniau yn bennaf wedi'u hadeiladu o garreg, yn ardaloedd yr ucheldir a amgaewyd yn fwy diweddar, mae ffiniau yn bennaf yn llinellau ffensys ac yn ardaloedd amaethyddol y llethrau is, gwrychoedd a welir fwyaf.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| **FfA1** | Gan ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a chronfeydd eraill, datblygu cynllun Grant Cefn Gwlad i gefnogi prosiectau a fydd yn cynnal ac yn gwella'r ffiniau mwyaf pwysig yn yr AHNE yn ogystal â nodweddion arbennig eraill |
| **FfA2** | Yn unol â dyheadau o fewn Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru (2009), cynyddu'r sylfaen sgiliau ymhlith y gweithlu lleol i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu cyflawni'r gwaith cadwraeth ac atgyweirio angenrheidiol. |
| **FfA3** | Nodi'r ffiniau mwyaf pwysig o fewn yr AHNE. |

# Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth

**Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn borth hanesyddol i Gymru, a gaiff ei groesi gan nifer o goridorau mynediad. Mae gan y coridorau hyn, gan gynnwys llwybrau priffyrdd (fel yr A5, yr A55 a'r A494), ffyrdd ar yr ucheldir (gan gynnwys Bwlch yr Oernant) a'r llwybrau rheilffyrdd, arwyddocâd hanesyddol amrywiol yn ogystal â bod yn hynod bwysig ar gyfer twristiaeth. Yn 2007 paratowyd Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd, i redeg hyd at 2013 a thu hwnt. Roedd yn ffurfio'r sail ar gyfer dyfarnu'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd Gwarchodedig i'r AHNE ac mae wedi'i ddefnyddio'n weithredol gan y tîm AHNE a'i bartneriaid i lywio eu gwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr ardal. Adolygwyd y strategaeth hon yn 2014 gan gwmpasu rhannau newydd yr AHNE yn y De.**

**Mae'r strategaeth yn cydnabod gwerth twristiaeth i'r economi, yr amgylchedd a chymunedau'r AHNE a'i hardal ehangach o ran dylanwad. Diffinnir twristiaeth gynaliadwy fel twristiaeth sy'n cymryd ystyriaeth lawn o'i heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac yn y dyfodol, gan fynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a'r cymunedau dan sylw.**

## Iechyd a lles

Y duedd ledled y DU a gwledydd datblygedig eraill yw bod lefelau gweithgarwch corfforol yn dirywio. Mae hyn yn gysylltiedig â defnydd eang o geir preifat, cynnydd mewn gweithgareddau hamdden eisteddog a mwy o beiriannau yn y cartref, y gweithle a mannau cyhoeddus. Yn ôl amcangyfrif ceidwadol, mae salwch yn sgil anweithgarwch corfforol yn costio £1.08 biliwn y flwyddyn mewn costau uniongyrchol i'r GIG yn unig. Amcangyfrifir bod costau anuniongyrchol yn £8.2 biliwn y flwyddyn. Mae astudiaethau wedi dangos yng nghyd-destun y DU am bob £ a gaiff ei wario ar ddatblygu a hyrwyddo mynediad i gefn gwlad, mae £19 yn cael ei arbed i'r gwasanaeth iechyd. Mae buddsoddi mewn seilwaith a gweithredu i hwyluso lefelau gweithgaredd cynyddol ymysg cymunedau lleol drwy fynediad i gefn gwlad yn hollbwysig felly wrth hyrwyddo lefelau sylweddol uwch o iechyd a lles.

**Nodweddion Arbennig**

- Atyniadau Eiconig i Ymwelwyr a Diwylliant
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybrau wedi'u Hyrwyddo

## Polisïau

### Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth

**PolHT1** Hyrwyddo defnydd cynaliadwy a mwynhad a dealltwriaeth o dirwedd yr AHNE mewn ffordd sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynhwysiant cymdeithasol.

**PolHT2** Sicrhau bod atyniad tirwedd a golygfeydd yr AHNE fel sail sylfaenol i dwristiaeth ardaloedd yn cael eu cadw.

**PolHT3** Sicrhau bod yr holl ymwelwyr a phreswylwyr yn gallu profi a mwynhau manteision rhinweddau arbennig yr AHNE o fewn terfynau amgylcheddol.

**PolHT4** Sicrhau bod y potiau mêl a phwyntiau mynediad allweddol eraill yn cael eu rheoli i safon uchel a'u bod yn gweithredu fel modelau arfer da wrth ddarparu mynediad a chadwraeth.

**PolHT5** Sicrhau bod y Parciau Gwledig a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn darparu pyrth effeithiol i'r AHNE wrth hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'i rhinweddau a nodweddion allweddol.

## Atyniadau Eiconig i Ymwelwyr a Diwylliant

Mae safleoedd allweddol fel Loggerheads, Moel Famau, Castell Dinas Brân, Abaty Glyn y Groes, Afon Dyfrdwy a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte wedi eu hatgynhyrchu gan arlunwyr tirlun cynnar megis Richard Wilson, Turner ac Edward Pugh, ac fel y cyfryw mae arwyddocâd penodol iddynt yng nghyflwyniad cynnar iawn tirweddau hardd. Maent wedi, yn rhannol, cyfrannu at draddodiad cryf iawn o dwristiaeth i'r ardaloedd hyn o fewn yr AHNE.

Rhain yw'r safleoedd sydd wedi helpu i roi ymdeimlad o le i ardal oherwydd yr ymlyniad diwylliannol sy'n gysylltiedig â hwy. Bu dylanwad Loggerheads a Moel Famau ar Fryniau Clwyd canolog yn sylweddol ac mae wedi para cenedlaethau. Mae wedi siapio cymunedau yn rhannol ac wedi bod yn gonglfaen i dwristiaeth yn yr ardal hon.

Yn yr un modd mae Castell Dinas Brân, Abaty Glyn y Groes, Pontcysyllte a Bwlch yr Oernant yn cyfuno i roi ymdeimlad o'r arddunol i ran ddeheuol yr AHNE ac mae wedi ysgogi cenedlaethau o ymwelwyr sy'n chwilio am ardal bictiwrésg i heidio i Ddyffryn Dyfrdwy.

Mae'r safleoedd hyn yn aml yn gweithredu fel pyrth i'r dirwedd ehangach o'r ardal ac yn darparu cysylltiadau i safleoedd allweddol eraill. Mae hyn yn arbennig o wir am Loggerheads, Moel Famau a chamlas Llangollen, sydd yn draddodiadol wedi bod yn brofiad cyntaf i lawer o bobl o gefn gwlad ac wedi gweithredu fel sbringfwrdd ar gyfer archwilio pellach.

## Amcanion

**AEA1** Sicrhau bod ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth yn cefnogi ac yn deall yr angen i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE fel asedau allweddol sy'n sylfaen ar gyfer twristiaeth.

**AEA2** Hyrwyddo a hwyluso mynediad cyfleus a chynaliadwy i'r AHNE a'r mannau arbennig o'i fewn.

**AEA3** Parhau i ddatblygu cysylltiadau cludiant cyhoeddus a datblygu strategaeth i leihau tagfeydd rhwng potiau mêl a gyda chanolfannau eraill poblog.

**AEA4** Ymchwilio i ffyrdd o leihau'r tagfeydd o amgylch ardaloedd ymwelwyr allweddol.

| | |
|---|---|
| **AEA5** | Targedu gwybodaeth yn ymwneud â'r Cod Cefn Gwlad, ymddygiad a'r Parc Gwledig a darparu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith ymwelwyr ar waith cadwraeth ac atgyweirio, gan gynnwys torri coed. |
| **AEA6** | Sicrhau bod Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau yn parhau i weithredu fel esiamplau wrth gyflawni prosiectau mewn meysydd allweddol a rheoli'r ddau safle tuag at gyflwr ffafriol drwy reolaeth ecolegol sensitif. |
| **AEA7** | Rhoi cymorth i fusnesau twristiaeth yn yr ardal y dylid eu helpu i groesawu'r cyfleoedd a'r cyfrifoldebau o fod mewn ardal warchodedig, deall mwy am yr AHNE, gwella eu ffordd o reoli adnoddau a hysbysu ymwelwyr am yr ardal. |
| **AEA8** | Hyrwyddo a diogelu gwelliant o'r Safle Treftadaeth y Byd, drwy fod yn sympathetig iddo, a'i gyfleusterau a'i leoliad, i greu profiad ymwelwyr o ansawdd uchel, gan ystyried polisïau eraill yn y strategaeth reoli hon. |

## Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybrau wedi'u Hyrwyddo

Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn nodwedd allweddol o'r AHNE, ac mae'n ymestyn ei hyd cyfan o Fryniau Prestatyn yn y gogledd i Ddyffryn Dyfrdwy yn y De. Mae'n cysylltu llawer o nodweddion mwyaf hynod yr AHNE gan groesi brigau a bryngaerau Bryniau Clwyd, llwyfandir gweundir dramatig Mynydd Rhiwabon cyn croesi Cilfa Eglwyseg a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte tuag at Gastell y Waun.

Mae gan yr AHNE hefyd rwydwaith helaeth o hawliau tramwy, sydd wedi eu cynnal a'u cadw, eu nod a'u hybu ar gyfer mathau amrywiol o fynediad, ac mae rhai wedi eu hyrwyddo fel llwybrau a enwir. Mae Afon Dyfrdwy yn darparu cyfleuster pwysig ar gyfer gweithgareddau hamdden.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| LlCOA1 | Parhau â rhaglen o wella Hawliau Tramwy ar draws yr AHNE drwy ddefnyddio'r Menter Milltiroedd Cymunedol a gwaith gwella mynediad arall yn yr ardal sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i gael mynediad at gefn gwlad. |
| LlCOA2 | Darparu mwy o gyfleoedd lle bo'n briodol ar gyfer beicio a marchogaeth yn yr AHNE a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. |
| LlCOA3 | Sicrhau bod gan bob Fforwm Mynediad Lleol ddealltwriaeth dda o anghenion yr AHNE drwy gyswllt rheolaidd. |
| LlCOA4 | Codi ymwybyddiaeth o'r manteision iechyd a lles cydnabyddedig a ddarperir gan yr AHNE a datblygu mentrau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, yn arbennig cerdded a beicio. |
| LlCOA5 | Deall a gweithio tuag at oresgyn rhwystrau corfforol a seicolegol i gael mynediad. |
| LlCOA6 | Ymchwilio i ffyrdd o hyrwyddo'r Llwybr gyda busnesau twristiaeth lleol ac i ddatblygu mentrau a fydd yn cryfhau cysylltiadau busnes. |
| LlCOA7 | Cryfhau cysylltiadau rhwng y Llwybr Cenedlaethol ac aneddiadau a lleoedd o ddiddordeb gerllaw gan ddefnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy ehangach a Chludiant Cyhoeddus. |
| LlCOA8 | Monitro erydiad mewn ardaloedd allweddol a datblygu rhaglen o fesurau a fydd yn lleihau effaith y Llwybr ar y dirwedd drwy gyfyngu ar led neu ddyfnder y llwybr fel bo'n briodol. |
| LlCOA9 | Nodi safleoedd dangosydd allweddol i fonitro niferoedd yr ymwelwyr yn yr AHNE. |

# Diwylliant a Phobl







## Nodweddion Arbennig

- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Pobl a Chymunedau

## Polisïau

### Diwylliant a Phobl

**PolDP1** Sicrhau bod datblygiadau newydd yn defnyddio dyluniad o'r safon uchaf ac yn sympathetig i gymeriad ac edrychiad yr AHNE.

**PolDP2** Cadw a gwella gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol i bobl leol.

**PolDP3** Sicrhau bod busnesau a chymunedau lleol yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros eu hamgylchedd.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| **AAA1** | Sicrhau bod datblygiad newydd yn yr AHNE ac o'i hamgylch wedi'i leoli'n briodol yn y dirwedd, a'i fod wedi'i gynllunio'n dda i ategu cymeriad a golwg yr ardal a'i lleoliad, yn enwedig o ran effaith weledol, graddfa, deunyddiau a thirlunio. |
| **AAA2** | Gwarchod a gwella cymeriad a hynodrwydd lleol pentrefi, adeiladau a gerddi hanesyddol o fewn yr AHNE. |
| **AAA3** | Hyrwyddo camau gweithredu i leihau effaith weledol y datblygiad presennol blaenllaw yn yr AHNE. |

## Pobl a Chymunedau

Mae angen i gymunedau fod wrth wraidd unrhyw weledigaeth. Mae angen cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol ar gymunedau gwledig. Mae dau faes allweddol sydd angen cymorth. Y cyntaf yw cyfleusterau lleol fel siopau, tafarndai, ysgolion a chlybiau ieuenctid, sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i'r gymuned a chyflogaeth leol, ac sy'n cynnwys angenrheidiau bywyd mwy diweddar fel ffonau symudol a mynediad at y rhyngrwyd.

Yr ail yw gwrthsefyll allgau gwledig y mae cyfleoedd yn cael eu cyfyngu o'i herwydd gan faterion fel diweithdra, sgiliau gwael, incymau isel, tai gwael a chludiant cyhoeddus gwael. Mae diffyg tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn ffactor pwysig arall. Efallai y bydd gan gymunedau hefyd anghenion penodol ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau a'r llai galluog. Mae hefyd yn bwysig bod y cymunedau lleol yn teimlo eu bod yn rhan o'r AHNE a bod ganddynt ran i'w chwarae wrth lunio polisi ac yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylai cymunedau elwa'n uniongyrchol o fod yn yr AHNE drwy brosiectau sydd wedi eu targedu at gymunedau a'u cyffiniau drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

## Amcanion

| | |
|---|---|
| **PCA1** | Helpu cymunedau lleol i gadw a gwella'r mynediad i wasanaethau a chyfleusterau cymunedol hanfodol. |
| **PCA2** | Cefnogi datblygu tai fforddiadwy i bobl leol mewn lleoliadau priodol, wrth gynnal y safonau uchaf o ran dylunio a thirlunio. |
| **PCA3** | Meithrin ymdeimlad o le a balchder lleol i sicrhau lles cymdeithasol. |
| **PCA4** | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r AHNE yn hyrwyddo partneriaethau effeithiol ac yn meithrin cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn rheoli'r AHNE. |

# Rhan Dau
# ADRODDIAD CYFLWR yr AHNE


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 61 |
| Llonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch | 63 |
| Yr Amgylchedd Naturiol | 69 |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | 77 |
| Mynediad a Hamdden | 83 |
| Diwylliant a Phobl | 87 |

# Cyflwyniad

Wrth lunio agenda a fydd yn sicrhau bod rhinweddau a nodweddion arbennig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael eu cadw, rhaid gwneud asesiad yn y lle cyntaf o'r maint a'r cyflwr presennol. Mae'n bwysig hefyd bod y materion sy'n effeithio arnynt yn cael eu hadnabod gan ragweld y ffactorau sy'n debygol o effeithio arnynt yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Cyflwr yr AHNE yn nodi, lle bo hynny'n bosibl, ehangder a chyflwr yr holl nodweddion a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd yn ceisio canfod cyflwr delfrydol ar gyfer y nodweddion hyn ac yn dechrau sefydlu dangosyddion a fydd yn helpu i ddiffinio yr hyn yr ydym yn anelu amdanynt wrth sicrhau lles yr AHNE. Mae'n broses barhaus sy'n dibynnu ar gasglu data a monitro yn gyson a'u gallu i ymateb i ofynion newidiol ar yr amgylchedd. Mae gofyniad am y wybodaeth ddiweddaraf a fydd yn arwain at ymatebion gwybodus i newid amgylcheddol.

# Llonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch

| Adnoddau / Nodweddion Arbennig | Disgrifiad | Materion | Statws |
|---|---|---|---|
| Llonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch | **Ymyrraeth**<br>Gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar Lonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch yr AHNE. Gall sŵn traffig, llygredd golau, effaith gwaith chwarel a chyfleustodau i gyd gael effaith ar lonyddwch yr AHNE ac ar fwynhad pobl o'r tirwedd. | • Golau o brif aneddiadau, yn enwedig i'r dwyrain ac i'r gogledd o'r AHNE, yn cael effaith sylweddol ar awyr dywyll y nos.<br>• Llygredd golau a sŵn o drafnidiaeth, datblygiadau a hamdden yn difetha'r llonyddwch - A55, A494, A5, A542.<br>• Elfennau ymwthiol a diraddiol fel llinellau pŵer/llinellau ffôn, trosglwyddyddion, mastiau a thyrbinau gwynt yn gallu cael effaith sylweddol.<br>• Gall effeithiau cronnus o newid ar raddfa fechan arwain at ddirywiad yng nghymeriad y dirwedd.<br>• Gallai datblygiad a ganiateir sydd wedi'i gwblhau yn yr AHNE hefyd effeithio ar y dirwedd.<br>• Darparu ar gyfer mynediad i ymwelwyr a safleoedd cyrchfan o fewn lleoliadau sensitif. | Angen mapio ymyrraeth ymhellach<br>**Ehangder:**<br>• Bolardiau ac arwyddion gyda golau yn Sir Ddinbych - 80 o fewn AHNE<br>Wrecsam - anhysbys<br>Sir y Fflint - anhysbys<br>• Goleuadau Stryd 1,350 yn agos i, neu o fewn yr AHNE yn Sir Ddinbych. |

# Llonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch

## Ffyrdd

Mae'r prif ffyrdd a'r llwybrau cyfathrebu yn yr AHNE yn croesi Bryniau Clwyd yn bennaf mewn cyfeiriad dwyreiniol - gorllewinol, ac yn rhedeg mewn cyfeiriad dwyreiniol - gorllewinol ar hyd Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Morwynion. Y ffordd mwyaf arwyddocaol yw'r Euroroute A55 deuol sy'n mynd drwy'r rhan gulaf o'r AHNE yn Rhuallt. Ffyrdd pwysig eraill yw Cefnffyrdd yr A5 a'r A494 a'r A542, Bwlch yr Oernant, A5104, A5151, A541, A539 a'r A525. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith o fewn yr AHNE yn cynnwys ffyrdd a lonydd llai, llawer ohonynt yn ychwanegu at gymeriad yr ardal.

- Effaith amgylcheddol posibl o gynlluniau gwella'r prif ffyrdd yn yr AHNE.
- O bosib yn colli'r cymeriad gwledig a nodweddion o ganlyniad i gynnal a chadw priffyrdd, arwyddion a mân welliannau.
- Traffig cynyddol yn ymwneud â phobl sy'n gweithio pellter sylweddol o'r man lle maent yn byw, gan gynyddu traffig cymudwyr, a defnyddio ceir ar gyfer ymweliadau hamdden.
- Codi ymwybyddiaeth o'r AHNE trwy arwyddion trothwy/pentref.

- Hyd a dosbarth y ffyrdd yn yr AHNE:

| | |
|---|---|
| Euroroute Deuol | 1.6km |
| Cefnffyrdd | 35.0km |
| Ffordd A | 49.2km |
| Ffordd B | 23.6km |
| Ffyrdd bychain | 338.8km |
| Ffyrdd Sirol Annosbarthedig | 60.9km |
| Cyfanswm hyd y ffordd | 509.1km |

- Nifer o arwyddion trothwy AHNE – 16
- Nifer o arwyddion pentref AHNE wedi eu brandio – 21

## Mwynau

Mae'r daeareg o galchfaen a llechi ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i ecsbloetio ar gyfer ei gyfoeth mwynol ers canrifoedd. Mae hyn wedi gadael ei ôl ar y dirwedd; llawer o safleoedd mwynau wedi'u gadael neu wedi cael eu cymhathu i mewn i'r dirwedd dros amser ond mae eraill yn dal i greithio'r ardal. Mae dau chwarel llechi weithredol yn yr AHNE, mae safleoedd eraill yn segur, ond gyda hen ganiatâd cynllunio. O ystyried graddfa'r gweithrediadau mwynau a'u heffaith bosibl ar ardal eang, gan gynnwys golygfeydd pwysig allan o'r AHNE, mae angen rhoi sylw i chwareli gweithredol a segur tu allan i'r ardal ddynodedig.

- Adfer ac ôl-ofal o chwareli, gan gynnwys y rhain sydd y tu allan i'r AHNE ond yn weladwy o'r AHNE neu'n cael effaith ar olygfeydd i mewn i'r ardal.
- Safleoedd segur - angen mynd ar drywydd Hysbysiadau Gwahardd o dan Adran 102 o Ddeddf T&C 1990.

**O fewn yr AHNE:**

- Nifer y chwareli gweithredol - 2
- Arwynebedd y chwareli gweithredol - 41.5 ha % o gyfanswm arwynebedd AHNE - 0.11%
- Nifer y chwareli segur - anhysbys
- Ardal o chwareli segur – anhysbys % o gyfanswm ardal AHNE - anhysbys
- Nifer o Orchmynion Gwahardd wedi'u cadarnhau - anhysbys

**O fewn 3km o'r AHNE:**

- Nifer y chwareli gweithredol - 8
- Arwynebedd y chwareli gweithredol - 203.38ha
- Nifer y chwareli segur - anhysbys
- Arwynebedd y chwareli segur - anhysbys

Llonyddwch, Pellenigrwydd a Diffeithwch

## Ynni a Chyfleustodau

Llinellau trawsyrru trydan uwchben a mastiau cyfathrebu yw'r isadeiledd cyfleustodau mwyaf amlwg o fewn yr AHNE. Mae'r llinellau pŵer mwyaf yn croesi'r AHNE ar ei bwynt culaf ger Rhuallt ac yn teithio trwy'r AHNE i lawr Dyffryn Morwynion. O ystyried topograffeg yr AHNE mae'n leoliad deniadol ar gyfer isadeiledd cyfathrebu. Y gosodiadau mwyaf amlwg yw'r mastiau ym Moel y Parc a Cyrn y Brain, ond mae yna fastiau amlwg hefyd yng Ngwaenysgor, Moel Gelli, Craig-y-Dduallt, Coed Mawr a Moel y Barbwr.

Nodwedd gymharol newydd o isadeiledd ynni rhanbarthol yw datblygu ffermydd gwynt mawr ar y tir ac ar y môr.

- Gall ceblau a gwifrau uwchben effeithio ar gymeriad y tirwedd lleol.
- Mae'r amharodrwydd i rannu mastiau yn arwain at ddyblygu a chynnydd yn yr effaith ar y dirwedd leol.
- Gwell cysylltedd ffôn symudol 'mannau sy'n achosi problemau' yn arwain at bwysau am fastiau cyfathrebu ychwanegol.
- Effaith gronnus datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr yn yr AHNE yn effeithio ar gymeriad y dirwedd a'r ymdeimlad o lonyddwch.
- Yr angen i symud tuag at ddatblygiad di-garbon heb niweidio'r AHNE.

**Ehangder:**
- Hyd y cebl foltedd uchel (400kV) uwchben gan y Grid Cenedlaethol - 17.46km
- Hyd y llinellau trydan 132kV uwchben – 1.38km
- Hyd y llinellau pŵer 33kv uwchben 44.76km (87.85)
- Hyd y llinellau trydan 33kv dan y ddaear - 6.19km (12.15%)

**Mastiau cyfathrebu:**
- Moel y Parc (Teledu)
- Moel y Gelli (Gwasanaethau Brys)
- Gwaenysgor
- Bryn Alyn
- Cyrn y Brain
- Moel Gelli
- Craig-y-Dduallt
- Coed Mawr
- Moel y Barbwr

**Tyrbinau gwynt:**
- Tyrbin gwynt 1.46m o uchder wedi'i ganiatáu o fewn yr AHNE
- Tyrbinau gwynt 50m+ uwch o fewn 15km – 122

## Arferion Rheoli Perfformiad

Arferion Rheoli Tir yn newid yn barhaus, gan addasu i bolisi'r llywodraeth, newid yn yr hinsawdd a gwelliannau amaethyddol. Mae'r newidiadau hyn mewn rheoli gyda'r gallu i gael effaith ar dirwedd yr AHNE.

- Gall effaith polisïau amaethyddol a choedwigaeth Ewrop a Llywodraeth Cymru gael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd a golygfeydd.
- Mae'n bwysig bod y gwelliannau a chreu cynefinoedd yn dod yn rhan o systemau a busnesau rheoli tir hyfyw.

- 6,441.35 ha o'r AHNE yn Dir Comin (16.55% o gyfanswm arwynebedd AHNE)
- 7,786.98ha (20% o gyfanswm arwynebedd AHNE) o dir yn yr AHNE yng nghynllun Glastir (amaeth a'r amgylchedd) yn 2013.
    - 5,232.24ha (67%) Lefel Mynediad
    - 793.75ha (10%) Glastir Uwch
    - 1,760.99ha (23%) Comin Glastir

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae arferion ac offer amaethyddol modern yn arwain at gaeau mwy o faint gyda llai o ffiniau mewnol a phyrth ehangach, sy'n gallu diraddio cymeriad y dirwedd leol.<br>• Gall plannu coedwigoedd a chynaeafu geometregol, a phatrymau torri grug ychwanegu llinellau ymwthiol yn y dirwedd.<br>• Diffyg lleiniau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr. | **Amddiffyn:**<br>• 8,028.37 ha o'r AHNE wedi'i ddynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (20.62% o arwynebedd tir AHNE)<br>• 9,097.34 ha o'r AHNE wedi'i ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (23.36% o arwynebedd tir AHNE)<br>• 2,555.05 ha o'r AHNE wedi'i ddynodi fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig (6.56% o arwynebedd tir AHNE)<br>• 21.33 ha o'r AHNE wedi'i ddynodi fel Gwarchodfa Natur Lleol (0.05% o arwynebedd tir AHNE)<br>• 3,451.92 ha o'r AHNE wedi'i ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (8.87% o arwynebedd tir AHNE) |
| **Newid Hinsawdd**<br>Mae'r AHNE wedi esblygu dros amser, ac wedi'i siapio gan rymoedd daearegol, r hinsawdd a gweithgarwch dynol, ac mae'r esblygiad hwn yn un barhaus. Mae disgwyl i newid yn yr hinsawdd i gael dylanwad mawr yn y degawdau i ddod, ac mae angen i ni reoli'r broses hon, gan gymryd camau i addasu effeithiau ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd.<br>Er bod yr hinsawdd fyd-eang wedi bod yn gymharol sefydlog ers miloedd o flynyddoedd, mae digwyddiadau tywydd eithafol diweddar a thueddiadau sy'n aros am gyfnodau hirach yn awgrymu bod y newid erbyn hyn o ganlyniad i weithgaredd dynol. Mae disgwyl i newid yn yr hinsawdd i barhau, gan achosi hafau poethach a sychach, gaeafau gwlypach a chynhesach, tywydd mwy eithafol a lefel y môr yn codi yng Nghymru a gweddill Prydain.<br>Mae disgwyl i newid yn yr hinsawdd i barhau, gan achosi hafau poethach a sychach, gaeafau gwlypach a chynhesach, tywydd mwy eithafol, cyfnodau o sychder, tywydd poeth, glawiad trwm a lefel y môr yn codi ar gyflymder cynyddol yng Nghymru a gweddill Prydain dros y degawdau i ddod. | • Gall mesurau addasu a lliniaru effeithio ar yr AHNE a'i leoliad.<br>• Gostyngiad mewn aer ac ansawdd dŵr yn effeithio ar iechyd y boblogaeth a'r ecosystem.<br>• Gostyngiad / cynnydd tymhorol yn llif y dŵr.<br>• Pwysau am amddiffynfeydd rhag llifogydd amhriodol gyda gwaith carthu a datblygiad yn diraddio cymeriad y dirwedd leol.<br>• Gallai cyfnodau hir o dywydd sych arwain at fwy o berygl tân, yn enwedig ar rhostiroedd. | • 9,428 ha (24.2% o arwynebedd AHNE) yn rhostir grugog.<br>• Cyfanswm arwynebedd AHNE o dan goetir- 5,165.24 ha (13.27% o'r ardal AHNE). |

## Bro/Yr Iaith Gymraeg

Mae 'Bro' yn air Cymraeg sy'n disgrifio ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol o fewn ardal. Mae'n gysyniad anniriaethol sy'n anodd i'w ddiffinio, ond serch hynny yn elfen ddilys o gymunedau Cymreig cynaliadwy. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o gymeriad traddodiadol a diwylliannol yr AHNE. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy na chyfartaledd Cymru (21.3%) ac yn parhau i fod yn nodwedd arwyddocaol o'r ardal. Mae'r gyfran fwyaf o ddefnyddwyr iaith Gymraeg yn byw yn rhannau gorllewinol a de orllewin yr AHNE.

## Symudiad prydferth a symudiad rhamantus

Mae hanes y symudiad prydferth yn yr AHNE yn mynd yn ôl i ddiwedd y 18fed ganrif, yn enwedig yn Nyffryn Dyfrdwy o gwmpas Llangollen. Paentiwyd yr ardal gan Turner a Wilson ymysg eraill. Mae gan Richard Wilson gysylltiadau agos ag ardal Loggerheads. Sefydlodd 'Merched Llangollen' Dyffryn Dyfrdwy fel 'canolfan o werthfawrogiad i brydferthwch' o'u cartref ym Mhlas Newydd. Beirdd ac awduron megis Wordsworth, Gerald Manley Hopkins a Mendelssohn hefyd wedi cael eu hysbrydoli gan dirwedd yr AHNE.

## Eisteddfodau

Gan adeiladu ar y traddodiadau artistig hyn, mae Llangollen yn adnabyddus ledled y byd am yr Eisteddfod Ryngwladol, a gynhelir yn flynyddol yn y dref ers 1947. Corwen oedd lleoliad yr eisteddfod genedlaethol cyhoeddus cyntaf yn 1919.

- Cynnwys y Gymuned a chymryd rhan mewn digwyddiadau a thraddodiadau lleol.
- Mewnfudo yn newid cyfansoddiad cymunedau
- Mae angen codi ymwybyddiaeth y gymuned o'r AHNE a'r manteision a ddaw yn ei sgil, yn enwedig yn y de.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth busnesau lleol o'r AHNE a'r manteision a ddaw yn ei sgil.
- Cynnal yr Iaith Gymraeg
- Diffyg / colli cyfleusterau i ddathlu cysylltiadau diwylliannol.
- Pwysau ymwelwyr yn diraddio cymeriad y dirwedd mewn lleoliadau allweddol.
- Colli golygfeydd arwyddocaol sy'n cael eu crybwyll mewn celf neu ryddiaith oherwydd llechfeddiant llystyfiant, neu ddatblygiad ansensitif.

- Canran y boblogaeth sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn yr AHNE (2011):
  - Gogledd – 26.7%
  - Gorllewin – 37.2%
  - Dwyrain – 24.2%
  - De – 29.1%
- Nifer y grwpiau cymunedol gweithgar - Anhysbys
- Nifer y sioeau cymunedol - 6
- Nifer o gyhoeddiadau cymunedol - Anhysbys
- Cylch Meithrin / clybiau Ti a Fi - 7
- Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr AHNE - 2

# Yr Amgylchedd Naturiol

| Adnoddau / Nodweddion Arbennig | Disgrifiad | Materion | Statws |
|---|---|---|---|
| Amgylchedd Naturiol | **Budd-daliadau a Gwasanaethau Naturiol**<br>Mae tirwedd yr AHNE yn bwysig ar gyfer yr adnoddau y mae'n ei gynnig sydd o fudd i bawb, megis dŵr, bwyd a lleoliadau ar gyfer mwynhad tawel.<br><br>Mae'r manteision hyn, a elwir gyda'i gilydd fel Gwasanaethau Ecosystem yn dangos bod tirwedd yr AHNE nid yn unig yn darparu amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd a rhywogaethau, ond hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynhyrchu bwyd, rheoli hinsawdd a darpariaeth hamdden. | • Mae angen systemau a rhwydweithiau naturiol sy'n addas at y diben, gyda mwy o leoedd a lleoedd gwell i natur er budd bywyd gwyllt a phobl.<br>• Mae angen nodi'r holl fanteision a'r gwasanaethau a ddarperir gan y system naturiol.<br>• Diffyg data a gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd rheoli o fewn terfynau amgylcheddol.<br>• Nid oes llinell sylfaen ar gyfer rhoi gwerth i'r gwasanaethau a'r manteision a dderbyniwyd gan y system naturiol. | **Cynlluniau Dalgylch:**<br>• Dalgylch Dyfrdwy<br>• Dalgylch Clwyd |

## Cadernid Cynefin

Cadernid Cynefin yw gallu cynefinoedd i ymateb i aflonyddwch naturiol neu aflonyddwch gan ddyn trwy adferiad cyflym neu drwy wrthsefyll difrod.

- Ni ddeallir cadernid a chyflwr y system naturiol yn llwyr.
- Y sylw sy'n cael ei roi i gynefinoedd o flaenoriaeth ar draul safleoedd eraill pwysig yn lleol megis ymylon ffyrdd a choridorau eraill.
- Mae angen ehangu a chysylltu bywyd gwyllt a chynefinoedd cyfoethog.

## Dynodiadau / ACA

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer cynefinoedd ac adar, er mwyn amddiffyn yn erbyn gweithgareddau niweidiol. Mae'r dynodiadau hyn yn ffurfio rhan o rwydwaith Ewropeaidd mwy o faint o'r enw Natura 2000.

Safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu dynodi a'u hamddiffyn fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Tir a ddynodwyd fel safleoedd bywyd gwyllt y Sir yn aml yw'r enghreifftiau lleol gorau o gynefinoedd, a rhoddir ystyriaeth berthnasol iddynt yn y broses gynllunio.

Mae'r rhain a dynodiadau eraill yn darparu lefel o amddiffyniad ar gyfer safleoedd pwysig yn erbyn gweithgaredd allai fod yn niweidiol.

- Angen sicrhau bod gan safleoedd statws cadwraeth ffafriol.
- Pwysau ymwelwyr mewn ardaloedd cadwraeth allweddol.
- Nid yw dynodiadau yn mynd i'r afael â'r holl fuddiannau cadwraeth.

**Ehangder:**

- Mae 22 SoDdGA yn yr AHNE, yn goruchuddio 9,097.34 ha (23.36% o gyfanswm arwynebedd AHNE).
- Mae 3 ACA yn gorchuddio 8,028.37 ha (20.62% o'r AHNE)
- Mae yna 1 AGA sy'n gorchuddio 2,555 ha (6.56% o'r AHNE)
- Mae 162 o Safleoedd Bywyd Gwyllt yn gorchuddio 3,451.92 ha (8.87% AHNE)
- Mae yna 1 AGA sy'n gorchuddio 21.33 ha (0.05% AHNE)
- Mae 73 o Safleoedd Bywyd Gwyllt yn gorchuddio 676.45 ha (1.74% AHNE)

**Amodau:**

Mae CNC yn parhau i fonitro cyflwr SoDdGA, ACA ac AGA. Mae pob SoDdGA daearegol mewn cyflwr ffafriol.

# Tir Calchfaen, clogwyni a sgriau

Mae glaswelltiroedd calchaidd fel arfer i'w cael ar briddoedd bas trafasig sy'n deillio o'r creigiau calchfaen o dan y ddaear. Yn nodweddiadol maent yn dyweirch rhywogaeth gyfoethog byr sy'n cynnwys amrywiaeth o weiriau a pherlysiau. Yn yr AHNE mae glaswelltir calchaidd i'w gael yn bennaf yn y gogledd o Brestatyn i Gwm, yn ganolog ar hyd Dyffryn Alun, gan gynnwys yr ail balmant calchfaen fwyaf yng Nghymru ym Mryn Alyn, ac yn y de o gwmpas creigiau Eglwyseg lle mae ardaloedd mawr o sgri.

Palmant calchfaen yw ardal o galchfaen sy'n gorwedd yn agored yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar wyneb y ddaear ac wedi ei hollti gan erydiad naturiol. Gallent fod yn goediog neu'n agored ac mae'r ddau fath yn bodoli o fewn yr AHNE.

Mae nifer o ogofau daearegol sy'n gysylltiedig ag ardaloedd Calchfaen yr AHNE. Ogofâu a astudiwyd wedi cael eu canfod i fod o bwys archeolegol ar gyfer gweithgareddau pobl ac anifeiliaid. Systemau ogofâu yn Nhremeirchion, Llanarmon-yn-lâl a Loggerheads ymhlith y rhai mwy adnabyddus. Yn 2015, sefydlwyd prosiect wedi'i ariannu gan Cadw i ddarganfod mwy am ogofâu Calchfaen yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae llethrau sgri ar greigiau Eglwyseg yn nodwedd ddaearegol bwysig, gyda Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn mynd heibio'r llethrau.

- Diffyg pori yn annog llechfeddiant prysgwydd.
- Gor-bori yn arwain at golli amrywiaeth rhywogaethau
- Cyfoethogi priddoedd o ganlyniad i wrteithiau, cymhwyso chwynladdwyr, aredig ac ail-hadu ar gyfer dibenion amaethyddol.
- Asideiddio a chyfoethogi gyda nitrogen wedi'u hachosi gan ddyddodiad atmosfferig.
- Pwysau hamdden yn achosi newidiadau mewn blodau sy'n gysylltiedig â chywasgu pridd.
- Pwysau hamdden ar nodweddion daearegol calchfaen SoDdGA megis llethrau sgri Eglwyseg a glaswelltir calchfaen Llwybr Panorama.
- Goresgyniad gan rywogaethau o blanhigion sydd ddim yn rhai brodorol.
- Gwybodaeth gyfyngedig o systemau tanddaearol.
- Cloddio creigiau Calchfaen i'w defnyddio mewn gerddi.
- Chwarela.

**Ehangder:**

- Pafin Calchfaen: 1.88ha (13.82% o'r Pafin Calchfaen yng Nghymru - cyfanswm Cymru 13.6 ha)
- Sgri: 22.89 ha

**Dangosyddion:**

- Mae 12 SoDdGA yn yr AHNE yn cynnwys nodweddion Daearegol.
- Mae 73 RIGS yn yr AHNE, yn goruchuddio 676.45 ha (1.74% o gyfanswm arwynebedd AHNE).
- 315.52 ha (88.23%) o fewn ACA, SoDdGA neu Safle Bywyd Gwyllt.
- 230.3 ha (64.4%) dynodiad rhyngwladol a chenedlaethol gydag ymrwymiadau i gynnal / adfer cyflwr ffafriol (ACA a SoDdGA).

**Dangosyddion systemau Ogofâu Calchfaen:**

- Nifer yr ogofâu yn yr AHNE – anhysbys
- 4 system ogofâu wedi eu diogelu fel SoDdGA; Ogofâu Cwm Alyn (Coedwig Dyffryn Alyn ac Ogofâu Cwm Alyn - SoDdGA), Ogofâu Cae Gwyn ac Ogofâu Ffynnon Beuno, Ogofâu Tremeirchion (y ddau Ffynnon Beuno a Cae Gwyn - SoDdGA) ac Ogofâu Mwynglawdd (Mynyddoedd Rhiwabon / Llantysilio a Mwynglawdd- SoDdGA).

**Rheoli Ffafriol o Gynefinoedd Calchfaen:**

- 1.05 ha (0.29% adnodd) o fewn safleoedd a reolir/dan berchnogaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych.
- 5.47 ha (1.53% adnodd) o fewn safleoedd NWWT a reolir.

**Amodau:**

- Mae CNC yn parhau i fonitro cyflwr SoDdGA, ACA ac AGA.
- Pob SoDdGA daearegol mewn cyflwr ffafriol.

O 2015 i 2018, mae disgwyl buddsoddiad sylweddol mewn nodweddion Calchfaen yn yr AHNE trwy'r prosiect Etifeddiaeth Calchfaen sydd wedi ennill cyllid o gronfa cystadleuol CNC.

# Rhostiroedd grug a chefnoedd bryniog

Mae'r ardal wedi'i orchuddio â grug, llus ac eithin gorllewinol gyda chymunedau o oedranau amrywiol yn ddelfrydol. Mae gan yr ardal amrywiaeth penodol o adar cysylltiedig, yn cynnwys grugieir, clochdar y cerrig a chrec yr eithin.

Yn bennaf rhostir a geir ar fynyddoedd Gogleddol y Berwyn, Llantysilio, Rhiwabon a Llandegla yn ardal ddeheuol yr AHNE. Mae rhostir grug i'w gael hefyd mewn blociau mawr ar hyd cefnen Bryniau Clwyd rhwng Llandegla a Bodfari.

- Trosi i laswelltir drwy aredig, ail-hadu, calchu a gwrteithio at ddibenion amaethyddol.
- Rhannu'r tir comin trwy ddefnyddio ffensys mewnol a cholli heidiau o braidd.
- Diffyg pori / wedi gadael y tir.
- Diffyg strwythur a rheoli ar y rhostiroedd yn golygu gorbori lleoledig.
- Y broses o reoli'r gwaith o losgi / tanau gwyllt yn wael.
- Dulliau amhriodol o fwydo atodol.
- Goresgyniad o redyn. Pwysau hamdden trwm yn achosi erydiad, yn enwedig defnydd anghyfreithlon o gerbydau sydd oddi ar y ffordd yn ne'r AHNE.
- Diffyg rheolaeth priodol o gylchdroi grug.
- Coedwigo.
- Cyfoethogi Nitrogen a achosir gan ddyddodiad atmosfferig.

**Cyflwr delfrydol:**

Rhostir yr ucheldir mewn 'cyflwr ffafriol' yn cael ei ddominyddu fel arfer gan ystod o orlwyni megis grug, llus, creiglus, grug y mêl ac eithin gorllewinol. Maent yn gyffredinol yn strwythurol amrywiol, sy'n cynnwys clystyrau o lystyfiant gyda grug ar wahanol gyfnodau o dwf, gan gynnwys ardaloedd o rug aeddfed. Mae'r cynefin hwn yn cynnal casgliad pwysig o adar, ffawna diasgwrn cefn amrywiol ac, mewn rhai achosion, casgliadau o fwsoglau a llysiau'r afu prin a lleol.

**Ehangder:**

- 9,428 ha (24.2% o ardal AHNE) (yn cynnwys ardaloedd diraddiedig / ar gyfer adfer / ehangu).

**Dangosyddion:**

- 9,317.2 ha (98.9%)gyda rhyw fath o ddynodiad sy'n rhoi lefel o warchodaeth.
- 7,776.6 ha (82.48%) yn cael ei ddiogelu fel SoDdGA neu ACA.

**Rheoli Ffafriol:**

- 683.51 ha (7.25% adnodd) o fewn safloedd o berchnogaeth/sy'n cael eu rheoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad CSDd.

**Amodau:**

- Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd rhostir yn yr AHNE yn cael eu rheoli drwy dorri a llosgi grug, a thorri a chleisio rhedyn.
- Ehangder y rhedyn yn anhysbys. Rhwng 2008 a 2012, yn ardal y prosiect Grug a Chaerau cafodd 1,029 ha o redyn ei chwistrellu, a 270.5 ha eu torri / cleisio. Rhostir gyda rhedyn drosto wedi gostwng o 788 ha i 303 ha.
- Rhwng 2008 a 2012, ym Mryniau Clwyd a mynyddoedd Llantysilio, cyfanswm y grug aeddfed / dirywiedig wedi gostwng o 384 ha i 367 ha

Mae'r prosiect Grug a Chaerau o Gynllun Partneriaeth Tirwedd a fu'n rhedeg rhwng 2008 a 2012, ac sy'n canolbwyntio ar Fryniau Clwyd ac ardaloedd rhostir mynyddoedd Llantysilio. Gwnaed gwaith sylweddol i leihau maint y rhedyn drwy chwistrellu o'r awyr, yn ogystal â gweithio gyda thirfeddianwyr a phorwyr i wella cyflwr y rhostir. Cynhaliwyd arolygon ar gyflwr y grug yn 2005 a 2010, gan ddangos gwelliant yn strwythur oedran y grug yn ogystal â gostyngiad ym maint yr arwynebedd y mae'r grug yn ei orchuddio.

# Coetir a choed hynafol

Mae llawer o'r coetiroedd hyn yn cynrychioli cysylltiad â'r dirwedd gan ei fod yn ymddangos ar ôl yr oes iâ ddiwethaf ac yn cefnogi ystod eang o fflora a ffawna. Coetiroedd onnen yn arbennig o bwysig yn Nyffryn Alyn lle mae wedi cael ei ddynodi fel ACA. Mewn rhannau eraill o'r AHNE mae coedwigoedd derw yn bwysig.

Coed hynafol yn goed sydd, oherwydd eu maint ac oedran yn cael eu hystyried i fod o werth diwylliannol, tirwedd a chadwraeth natur eithriadol. Coed hynafol yn aml yn gysylltiedig â pharcdir, ac fel arfer i'w cael mewn ardaloedd ar dir isel. Mae yna ychydig yng ngogledd yr AHNE a mwy i'w gweld yn y de. Gellir gweld rhai enghreifftiau da ar yr Eglwyseg (Ywen / Masarn Maes), yn Rhaeadr y Bedol, yn Eglwys Trefor a Chastell y Waun.

- Atal pori yn golygu aildyfiant naturiol.
- Colled oherwydd cloddio lleol.
- Diffyg rheoli coetiroedd penodol a rhoi'r gorau i reolaeth draddodiadol.
- Darniad o berchnogaeth.
- Goresgyniad gan rywogaethau brodoredig yn arwain at newid yn strwythur a chyfansoddiad (sycamorwydd a ffawydd).
- Colli rhywogaethau megis y wiwer goch.
- Pwysau datblygu.
- Effeithiau llygredd aer.
- Asideiddio priddoedd basig trwy rym sborionol o goed conwydd masnachol.
- Mae llawer o goetiroedd lled-naturiol wedi lleihau o ganlyniad i ailblannu coed conwydd egsotig.

**Heintiau ac afiechydon**

- Gallai clefydau coed presennol / yn y dyfodol gael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd leol.
- Phytopthora Ramorum - Llus a Llarwydd (wedi eu rhestru fel organeb a reolir yn yr UE).
- Chalara fraxinea – Onnen yn gwyro.
- Phytophthora Alni - gwern.
- Gall canopïau sy'n cael eu heffeithio gan glefyd fod yn agored i gyfraddau uwch ohonynt yn cael eu heffeithio gan y gwynt a goresgyniad gan rywogaethau anghynrychioliadol.

**Cyflwr delfrydol:**

Mae gan goetir mewn 'cyflwr ffafriol' strwythur amrywiol gydag o leiaf tri dosbarth oedran wedi'u lledaenu ar draws y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer y coed mwyaf cyffredin, mannau agored – safiadau dros dro a pharhaol o goed aeddfed/hŷn heb darfu arnynt yn ormodol, isdyfiant a hen bren marw wedi syrthio ac yn dal i sefyll ac wedi cronni. Yn bennaf dylid cynnwys rhywogaethau brodorol ac ni ddylai fod arwyddion o golli coed a llwyni brodorol ar raddfa gyflym. Dylai fod arwyddion hefyd o eginblanhigion yn tyfu i fod yn lasbrennau i goed ifanc ar ddigon o ddwysedd i gynnal dwysedd canopi.

**Ehangder:**

- Llydanddail (gan gynnwys cymysg) coetir: 1809.43ha (4.65% AHNE) Ardal AHNE lle mae 795.8 ha (2.04% o'r AHNE) yn Goetir Hynafol sy'n Lled Naturiol neu Goetir Hynafol wedi ei Ailblannu.

**Dangosyddion:**

- 199.9 ha (11.04%) are within international and national designation (SAC and SSSI).

**Rheoli Ffafriol:**

- 54.79 ha (3.03% adnodd) o fewn Parciau Gwledig a safloedd o berchnogaeth/sy'n cael eu rheoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad CSDd
- 17.72 ha (0.98% adnodd) o fewn safleoedd NWWT a reolir.

**Amodau:**

Coetir SDdGA

- Mae CNC yn parhau i fonitro cyflwr SoDdGA, ACA ac AGA.

# Dyffrynoedd Afonydd

Nid yn unig mae dyffrynnoedd afonydd yn bwysig ar gyfer cwrs y dŵr ei hun, ond hefyd y banc a'r tir cysylltiedig neu barth y glannau. Maent yn systemau dynamig ac yn darparu ystod eang o gilfachau ecolegol sy'n cefnogi fflora a ffawna amrywiol. Maent hefyd yn ffurfio coridorau bywyd gwyllt pwysig, gan alluogi gwasgariad ac ymfudiad rhywogaethau.

Mae tri dyffryn afon allweddol yn yr AHNE. Yr Afon Dyfrdwy o Gorwen i Drecelyn, Afon Alun o Gilcain i Lanferres a'r Afon Chwiler o Fodfari i Felin-y-Wern.

- Llygredd dŵr o garthion, asideiddio, draenio trefol, dŵr ffo amaethyddol a difrod mwyngloddio diwydiannol.
- Colli llystyfiant ar y glannau trwy or-bori a sathru. Gall hyn hefyd arwain at ymylon afon yn erydu ac yn siltio o sianel yr afon gyda cholledion o graean silio, pysgod a chynefinoedd amrywiol.
- Addasu'r siâp a'r cwrs.
- Colled posibl o rywogaethau dangosol fel dyfrgwn, llygod y dŵr a chregyn gleision perlog sy'n byw mewn dŵr croyw.
- Rhywogaethau anfrodorol ymledol fel ffromlys chwarennog, crancod dyrnfol Tseiniaidd a minc yn cystadlu gyda rhywogaethau brodorol.
- All effeithiau hamdden fel cerdded, pysgota, hwylio a chanŵio achosi aflonyddu ar y rhywogaeth cynefin a thrigolion.
- Draenio tir amhriodol a gwaith amddiffyn rhag llifogydd.
- Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar y cynefin a rhywogaethau trwy lifogydd a newid mewn tymheredd.
- Tynnu a gollwng dŵr ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr.

**Cyflwr delfrydol:**

Mae morffoleg afonydd a nentydd a'u casgliadau o blanhigion ac anifeiliaid cysylltiedig yn amrywio yn ôl eu hardal ddaearyddol, daeareg a chemeg dyfrol. Fodd bynnag, mae pob afon yn eu cyflwr naturiol yn systemau deinamig, gan addasu eu ffurf yn barhaus. Bydd y dŵr mewn afon iach o ansawdd da, ac yn rhydd o lygredd y tu allan, a llystyfiant ymylol ac ar y glannau sy'n cefnogi amrywiaeth o flodau ac anifeiliaid gwyllt ac yn darparu cysylltiadau coridor rhwng cynefinoedd tameidiog. Gall afonydd sy'n dangos mosaig o nodweddion fel crychdonnau a phyllau a gwaddodion agored gefnogi ystod amrywiol o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid.

**Ehangder:**

- 62.77 km (34.53 km Afon Dyfrdwy, 19.55 km Afon Alun a 8.69 km Afon Chwiler).

**Dangosyddion:**

- Mae Afon Dyfrdwy yn cael ei ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig a SoDdGA.
- Mae 3.31 km (16.93%) o Afon Alun o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- 1.43 km (16.46%) o Afon Chwiler yn mynd drwy safleoedd bywyd gwyllt.

**Rheoli Ffafriol:**

- 1.06 km (8.16%) o'r Afon Alun yn dod o fewn Parc Gwledig Loggerheads.
- 1.73 km (5.01%) o Afon Dyfrdwy yn dod o fewn Parc Gwledig Tŷ Mawr, a Safleoedd Cefn Gwlad Sir Ddinbych.

**Amodau:**

- Dyfrgwn yn bresennol yn y dair afon. Llygod y dŵr wedi cael eu cofnodi ar Gamlas Llangollen, ac ar bob pen o ddyffryn Chwiler gyda ffosydd helaeth yn rhoi'r potensial i'r boblogaeth i ehangu. Dim ond un poced o gofnodion llygod dŵr sydd i'w cael yn Nyffryn Alun, er y gall arolygon pellach ddatgelu mwy.

| | | |
|---|---|---|
| Dyffrynoedd Afonydd | • Bodloni gofynion y Cynlluniau Rheoli Dalgylch a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. | • Rhywogaethau ymledol yn bresennol ar y tair system o afonydd, yn finc ac yn ffromlys chwarennog yn arbennig, er bod Llysiau'r Dial yn fwy cyffredin ar yr Afon Dyfrdwy. Mae gan yr Afon Dyfrdwy boblogaethau o Gimwch yr Afon.<br>• Mae gan y dair afon gynefinoedd coetir a dolydd gwlyb a gefnogir gan ôl-sianeli mewn llawer o leoedd sy'n darparu cysgod da ar ochr y glannau a'r coridorau ar gyfer bywyd gwyllt.<br>• Mae nifer o hawliau tramwy yn croesi ac yn rhedeg gyfochr â'r tair afon, yn arbennig y pwysau hamdden sy'n bresennol yn yr Alyn. Pwysau hamdden ar yr Afon Dyfrdwy yn sylweddol; mae'n leoliad poblogaidd ar gyfer pysgota, canŵio a rafftio. Mae nifer o fusnesau yn defnyddio ac yn dibynnu ar fynediad at yr afon. |

# Yr Amgylchedd Hanesyddol

| Adnoddau / Nodweddion Arbennig | Disgrifiad | Materion | Statws |
|---|---|---|---|
| Amgylchedd Hanesyddol | **Setliad Hanesyddol ac Archeoleg**<br>Mae nifer o aneddiadau hanesyddol yn yr AHNE. Llangollen yw'r dref fwyaf gyda phoblogaeth o tua 3,000. Cyflwynwyd y siarter i'r dref yn 1284 ac mae'r dref yn eistedd bob ochr i'r afon Dyfrdwy gyda'i phont bwa a adeiladwyd yn tua 1500. Mae craidd hanesyddol y dref yn bodoli ar yr ochr ddeheuol, gyda'r eglwys a'r groesfan dros yr afon yn ganolbwynt. Bu datblygiad yn ddiweddarach yn bennaf o ganlyniad i'r diwydiant gwlân. Ers yr amseroedd cynnar, mae'r dref wedi bod yn lleoliad pwysig i bobl aros, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n teithio o Lundain i Iwerddon. Hyd y 1800au cynnar, roedd y ffyrdd yn hynod beryglus ond fe gafodd ffordd newydd Telford i Gaergybi (bellach yr A5) ddylanwad enfawr ar ddatblygiad Llangollen a Gogledd Cymru yn gyffredinol ar ddechrau'r 19eg ganrif, gan ganiatáu i goets fawr Llundain deithio'n gyflymach ac yn fwy diogel. | • Dirywiad a diffyg cyllid ar gyfer cynnal a chadw strwythurau a henebion.<br>• Safleoedd yn erydu o ganlyniad i gloddiadau archeolegol.<br>• Diffyg ymwybyddiaeth o henebion a safleoedd hynafol.<br>• Diffyg cyfleusterau ar gyfer grwpiau astudio.<br>• Rheoli tir amhriodol.<br>• Diffyg data archeolegol.<br>• Difrod wrth ganfod metel.<br>• Difrod o ganlyniad i feiciau modur oddi ar y ffordd a cherbydau 4x4, yn enwedig ar fynyddoedd Llantysilio a Gogledd y Berwyn.<br>• Parciau a Gerddi Hanesyddol yn eiddo preifat; yn dibynnu ar dirfeddianwyr i gynnal a gwella.<br>• Nid yw pob un ar agor i'r cyhoedd. | **Amddiffyn:**<br>• Henebion Cofrestredig yn safleoedd archeolegol pwysig neu adeiladau hanesyddol, yn cael eu hamddiffyn yn erbyn newid anawdurdodedig.<br>• Mae 95 o Henebion Rhestredig yn yr AHNE, gyda CADW yn goruchwylio'r cyfrifoldeb o'u hamddiffyn. Mae llawer o'r safleoedd hyn yn darparu tystiolaeth o fwyngloddio, chwarela ac aneddiadau yn y gorffennol.<br>• Henebion Cofrestredig yn gorchuddio 156.04 ha (0.4% o'r AHNE).<br>• Mae 17 RIGS yn yr AHNE, yn goruchuddio 88.85 ha (0.23% o gyfanswm arwynebedd AHNE).<br>• Mae 645 Adeilad Rhestredig yn yr AHNE.<br>• Abaty Glyn y Groes, Piler Eliseg ac Eglwys Llangar yn safleoedd gwarcheidiaeth ac a reolir gan Cadw. |

# Amgylchedd Hanesyddol

Abaty Sistersaidd Glyn y Groes yn gorwedd ger cymer yr Eglwyseg a'r afon Dyfrdwy, i'r gogledd o Langollen. Mae'r groes ddarniog o'r 9fed ganrif, y Golofn Eliseg, wedi'i osod ar dwmpath crwn bychan sy'n feddrod o Oes yr Efydd, ychydig i'r gogledd o'r Abaty.

Parciau a gerddi hanesyddol yn rhan bwysig o annatod a gwead hanesyddol a diwylliannol yr ardal. Maent wedi eu rhestru yn y Gofrestr Cadw / ICOMOS o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Y safleoedd cofrestredig yw Penbedw, y Gelli Aur, Sant Beuno, Colomendy, Glyn y Groes, Bryntysilio, Neuadd Llantysilio, Y Feifod, Plas Newydd, Neuadd Trefor, Castell y Waun a Neuadd Argoed. Er nad yw'r rhain wedi eu diogelu yn yr un modd ag Adeiladau Rhestredig maent wedi eu graddio mewn ffordd debyg. Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth yn y Bil treftadaeth newydd sydd ar fin cael ei gyhoeddi yn rhoi mwy o bwysau ar y dynodiad hwn.

- Heb ei gwarchod yn statudol; angen ymgysylltu a chefnogi tirfeddianwyr.
- Dim trefniadau ar gyfer monitro cyflwr parciau a gerddi hanesyddol
- Dim Cynlluniau Rheoli / Gwella.

**Cyflwr delfrydol:**

- Safleoedd yn cael eu cadw mewn cyflwr ffafriol. Ar hyn o bryd mae Cadw yn ailarfarnu eu harolygon cyflwr henebion ac yn datblygu methodoleg Henebion mewn Perygl, hyd yma nid yw'r wybodaeth ar gael ar gyfer yr AHNE ond bydd yn wybodaeth gwerthfawr iawn yn y dyfodol.

**Statws:**

- CADW yn ymweld â'r safleoedd bob 5 neu 10 mlynedd.
- Data cyflwr SAM ddim ar gael yn gyson eto, ond mae Cadw yn gweithio tuag at hyn.
- O'r 645 o Adeiladau Rhestredig yn yr AHNE, ystyrir fod 56 ohonynt 'mewn perygl'.

**Understanding:**

- Gwaith archaeolegol diweddar ar Golofn Eliseg wedi cael ei wneud gan Brifysgolion Bangor a Chaer, wedi darganfod bod y golofn yn eistedd ar dwmpath claddu sy'n bodoli eisioes o Oes yr Efydd.
- Gwaith cloddio hefyd wedi cael ei wneud ym Mhenycloddiau gan Brifysgol Lerpwl Moel y Gaer Bodfari gan Brifysgol Rhydychen a chloddio yn Fron Newydd ger Caer Drewyn gan Brifysgol Bangor

**Ehangder:**

- Mae 12 Parc Hanesyddol yn yr AHNE, yn goruchuddio 611.67 ha (1.57% o gyfanswm arwynebedd AHNE). Mae'r lleoliadau hanfodol o 14 Parc Hanesyddol yn yr AHNE, yn goruchuddio 1,152.01 ha (2.96% o gyfanswm arwynebedd AHNE).
- 9 o Barciau a Gerddi Hanesyddol reit yn ymyl yr AHNE.

Amgylchedd Hanesyddol

# Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth

Pan orffennwyd Traphont Ddŵr Pontcysyllte gan Thomas Telford yn 1805, honno oedd pont fordwyol uchaf y byd i gychod camlas. Ar 27 Mehefin, 2009, dyma UNESCO yn gwneud y campwaith hwn o beirianneg sifil yn Safle Treftadaeth y Byd, ynghyd â 11 milltir o gamlas gan gynnwys Dyfrbont y Waun a Rhaeadr y Bedol yn Llantysilio, ger Llangollen. Mae Pontcysyllte yn cynrychioli 'campwaith o athrylith creadigol dynol' ac mae'n enghraifft ragorol o adeiladwaith sy'n 'darlunio cam arwyddocaol yn hanes dyn'.

Mae'r gwaith adeiladu ar Gangen Llangollen o Gamlas Undeb Swydd Amwythig ym 1795 ac fe'i cwblhawyd ym 1808. Rhoddodd y gamlas fynediad i byllau glo Rhiwabon ac ysgogi twf yr odynau calch a gweithfeydd crochenwaith yn Froncysyllte a Tref-y-nant.

Mae Statws Treftadaeth y Byd yn golygu bod y Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte wedi cael eu cofrestru ar Restr Treftadaeth y Byd, gan gynnig mwy o ymwybyddiaeth. Mae'r ymwybyddiaeth hwn yn arwain at gynnydd yn lefel y warchodaeth a chadwraeth a roddir i safleoedd sydd wedi'u cofrestru. Mae'n un o 28 eiddo sydd wedi'u cofrestru yn y DU. Ledled y byd roedd 1,007 o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 2014.

Cafodd Rheilffordd Dyffryn Llangollen ei agor ym 1861. Am bron i ganrif, fe gymerodd y rheilffordd lawer o'r traffig a arferai deithio ar y ffordd a'r gamlas. Mae Cymdeithas Rheilffordd Llangollen bellach yn gweithredu llinell rhwng Llangollen a Chorwen.

- Atal rhag pydru a'r angen am waith cynnal a chadw parhaus.
- Dulliau neu ddeunyddiau anaddas ar gyfer gwaith atgyweirio oherwydd diffyg dealltwriaeth, sgiliau neu ddeunyddiau, neu newid safonau modern.
- Twf llystyfiant yn Safle Treftadaeth y Byd a'r Parth Clustogi sy'n effeithio ar olygfeydd i mewn ac allan.
- Cynnal a chadw o amddiffyniad effeithiol o'r Safle a'r Parth Clustogi drwy ddynodiadau a pholisïau cynllunio.
- Rheoli pwysau ymwelwyr.
- Angen datblygu cyflwyno'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol - sut i gael y stori drosodd.
- Heb ddilyn i fyny ar arolygon safle.
- Safleoedd yn cael eu colli i newid defnydd tir.
- Mae rhai olion diwydiannol mewn cyflwr gwael.
- Mae llawer o dreftadaeth ddiwydiannol Dyffryn Alyn y tu allan i'r ystâd gyhoeddus.
- Diffyg ymwybyddiaeth o dreftadaeth archaeolegol, y berthynas o chwareli, incleins a gwaith cysylltiedig sydd gyda'i gilydd wedi achosi uniondeb diwylliannol.

**Amddiffyn:**

- Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei gwarchod fel y cyfryw.
- Mae llawer o'r safleoedd Treftadaeth y Byd yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth y Gamlas ac Afonydd.

**Ehangder:**

- Mae'r safle Treftadaeth y Byd yn gorchuddio 62.62 ha o fewn yr AHNE (0.16% o'r AHNE).
- Mae'r Parth Clustogi Safle Treftadaeth y Byd yn gorchuddio 3,129.54 ha o fewn yr AHNE (8.04% o'r AHNE).

**Statws:**

- Ddim ar restr UNESCO ar hyn o bryd ar gyfer Treftadaeth y Byd Mewn Perygl. 46 safle a restrir yn 2014.

**Gwarchod Archeoleg Diwydiannol:**

- Fel y trefnwyd, mae rhai o'r safleoedd diwydiannol allweddol yn cael eu diogelu. Mae'r gamlas a llawer o henebion cysylltiedig wedi'u cofrestru. Mae tramffordd Nant y Pandy a'r gweithfeydd llechi yn Glyndyfrydwy wedi eu cofrestru ond mewn cyflwr gwael. Mae rhannau o byllau plwm siafft Mwynglawdd yn SAM fel y mae odyn Hoffman yn Chwareli Mwynglawdd.

## Amgylchedd Hanesyddol

Loggerheads oedd y canolbwynt ar gyfer cloddio am blwm yn yr 18fed a'r 19eg ganrif ac mae olion y diwydiant hwn yn y gorffennol yn parhau ar hyd yr afonydd ac yn y goedwig. Roedd gwaith mwyngloddio plwm helaeth yn mynd ymlaen yn Nyffryn Alyn, Bryn Prestatyn, Bryn Alyn, ac ardaloedd o Fynydd Esclus, Pen Draw'r Byd a'r Mwynglawdd.

Mae'r enw Loggerheads yn deillio o anghydfod dros hawliau mwynol a gafodd eu setlo yn y pen draw yn yr uchel lys. Mae'r garreg derfyn ger yr A494 a cherrig terfyn yn y Parc yn nodi sefyllfa'r terfyn cyfreithiol posib.

Roedd chwareli llechi helaeth yn ne'r AHNE, ar fynyddoedd Llantysilio a Gogledd y Berwyn. Dim ond chwarel y Berwyn ar Fwlch yr Oernant sy'n dal i fod ar agor heddiw.

Mae nifer o nodweddion sy'n gysylltiedig â'r mwyngloddiau hyn, fel y Lît yn Loggerheads, a thramffyrdd o chwarel Moel y Faen i gamlas Llangollen, a Moel Fferna i Lyndyfrdwy drwy Nant y Pandy, lle mae adfeilion helaeth yn gysylltiedig â'r gwaith llechi.

- Mae rhai safleoedd heb eu cofnodi, neu heb unrhyw amddiffyniad wedi'i drefnu ar eu cyfer.
- Nid yw rhai safleoedd a argymhellir i'w cynnwys yn yr arolwg Mwyngloddiau Metel o'r 1990au wedi cael eu cynnal.
- Mae'r mwyafrif helaeth o safleoedd diwydiannol (ac yn wir pob safle o gyfnod arall) heb eu dynodi. Maent wedi eu nodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sy'n cael ei sefydlu i fod yn statudol yn y Bil Cynllunio newydd.

**Cyflwr:**

- Mae gweithfeydd llechi Glyndyfrdwy ac adeiladau a rhannau o'r dramffordd mewn cyflwr gwael.
- Nodweddion allweddol fel y Leete ym Mharc Gwledig Loggerheads, Rhaeadr, Safle Mwyngloddio Plwm ac eraill heb eu gwarchod.

## Bryngaerau a Strwythurau Amddiffynnol

Y gadwyn o Fryngaerau Oes yr Haearn ar hyd crib Bryniau Clwyd yw'r safleoedd archeolegol mwyaf amlwg ac unigryw. Mae'r 6 bryngaer, rhwng Moel Hiraddig ger Dyserth a Moel Fenlli ger Llanferres, yn un o'r crynoadau mwyaf yng Ngorllewin Ewrop.

Mae Moel y Gaer yn un o gopaon Mynydd Llantysilio, ar ochr ogleddol yr afon Dyfrdwy ac i'r gorllewin o Fwlch yr Oernant. Ceir tystiolaeth o weithgarwch dynol yma yn dyddio'n ôl i cyn belled â'r Oes Efydd (2,300 - 1,200 CC), gyda charnedd gladdu fawr ar gopa Moel Gamelin. Nifer o ganrifoedd yn ddiweddarach, yn ystod Oes yr Haearn (1200 CC 74 OC), dewiswyd Moel y Gaer fel safle ar gyfer bryngaer fechan.

- Erydiad ar y bryngaerau a strwythurau amddiffynnol eraill drwy hamdden a llwybrau defaid.
- Difrod drwy reoli amhriodol o'r tir, fel chwarela, plannu coed a gormod o bori.
- Aredig / pwysau Amaethyddol.
- Difrod wrth ganfod metel.
- Gallai mwy o ymwybyddiaeth a mynediad arwain at fwy o faterion erydu.

**Ehangder:**

- 10 o Fryngaerau Oes Haearn yn yr AHNE, yn cwmpasu 105.14 ha (0.27% o gyfanswm AHNE).
- 3 Chastell Mwnt a Beili.
- Olion bychain o gastell o'r 12fed ganrif yn Nyserth.
- 2 gastell carreg mwy diweddar yn deillio o'r 13eg Ganrif.

**Amddiffyn:**

- 5 Bryngaer o Oes yr Haearn yn eiddo i'r Awdurdodau Lleol.
- Mae pob Bryngaer o Oes yr Haearn yn cael eu dynodi fel Henebion Hynafol Cofrestredig.

Mae Castell Dinas Brân yn gastell canoloesol wedi'i leoli mewn gwrthgloddiau o Fryngaer Oes yr Haearn cynharach, ac yn sefyll uwchlaw tref Llangollen gan roi ymdeimlad cryf o le a chyd-destun hanesyddol. Yn yr un modd, mae Bryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn, ynghyd â'r eglwys 6ed ganrif yn Sant Mael a Sant Sulien gyda Owain Glyndŵr yn rhoi gwreiddyn hanesyddol cryf i dref Corwen. Bryngaer Pen y Gaer wedi ei leoli yn ymyl Garth ger coedwigoedd Neuadd Trefor.

Wedi'i gwblhau ym 1310, Y Waun yw'r castell Cymreig olaf o dan deyrnasiad Edward I lle mae rhywun yn dal i fyw yno. Nodweddion o'i oes o 700 mlynedd yn cynnwys y tŵr canoloesol a daeargell, Oriel 17eg ganrif, fflatiau mawreddog y wladwriaeth o'r 18fed ganrif, neuadd y gweision a thŷ golchi dillad hanesyddol.

Bryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn, ynghyd â'r eglwys 6ed ganrif yn Sant Mael a Sant Sulien gyda Owain Glyndŵr yn rhoi gwreiddyn hanesyddol cryf i dref Corwen. Bryngaer Pen y Gaer wedi ei leoli yn ymyl Garth ger coedwigoedd Neuadd Trefor.

Tydi safle Gop Cairn yn Nhrelawnyd, nid o reidrwydd yn strwythur amddiffynnol ond yn awgrym o setliad cyfagos, sydd yn ôl sôn yn dyddio i'r cyfnod Neolithig o tua 3000CC. Mae'n domen enfawr, a adeiladwyd ar ben bryn, efallai yn nodi claddedigaethau mewn ogof gerllaw.

- Mae Castell Dinas Bran, sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych, yn cael ei ddynodi fel SAM, SoDdGA ac mae hefyd o fewn glustogfa yr STB ac o fewn tirwedd hanesyddol Dyffryn Llangollen
- Castell y Waun yn cael ei reoli ar y cyd gan Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Tomen y Rhodwydd, Tomen y Faerdre a Mynydd Glyndŵr i gyd yn Henebion Rhestredig.
- Olion Castell Dyserth yn Heneb Rhestredig.

**Cyflwr:**

- Gwaith erydiad yn cael ei wneud ar Foel Fenlli, Moel Arthur, Penycloddiau, Moel y Gaer Llanbedr, Moel y Gaer Llantysilio a Chaer Drewyn fel rhan o'r cynllun Grug a Chaerau. Gwaith atgyweirio erydiad wedi digwydd yn Nhomen y Rhodwydd a gwaith sefydlogi helaeth yn cael ei wneud ym Mwnt Owain Glyndŵr.
- Cynlluniau rheoli yn cael eu llunio ar gyfer y chwe henebion o fewn ardal y prosiect Grug a Chaerau.
- Cyn i'r gwaith ddigwydd gyda'r Grug a Chaerau, cafodd arolygon cyflwr eu cynnal ar y 6 bryngaer, cafodd y gwaith hwn ei ailadrodd unwaith eto yn 2012 gyda thystiolaeth bod cyflwr pob un o'r safleoedd wedi gwella. Bydd angen gwaith monitro parhaus i gynnal hyn.

**Dealltwriaeth:**

Mae'r prosiect Grug a Chaerau, o 2008 i 2012, wedi cynyddu ein dealltwriaeth o 6 bryngaer yn yr AHNE yn fawr. Mae rhaglen o gloddiadau archeolegol (ym Moel y Gaer Bodfari, Penycloddiau, Moel y Gaer Llanbedr) a digwyddiadau archeoleg cymunedol wedi datblygu mwy o ddealltwriaeth o fewn y gymuned leol.

Mae Grŵp Archeoleg Bryniau Clwyd (CRAG) a sefydlwyd yn ystod y Grug a'r Caerau, ac yn awr yn rhedeg yn llwyddiannus fel grŵp gwirfoddol annibynnol wedi gwneud darganfyddiadau pwysig ar dir ger Bryngaer Moel Arthur.

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwaith archaeolegol diweddar hefyd wedi'i gynnal ar Foel y Gaer Bodfari gan Brifysgol Rhydychen a Phenycloddiau gan Brifysgol Lerpwl. Mae Prifysgol Bangor wedi bod yn cloddio yn Fron Newydd ger Caer Drewyn yn ogystal ag ar setliad amddiffynedig bychan Moel Fodig, ychydig y tu allan i'r AHNE. |
| **Nodweddion Hanesyddol Bychain**<br>Mae'r rhain yn nodweddion sy'n unigryw i'r AHNE. Maent yn annhebygol o gael eu rhestru a'u cadw, ond maent yn rhan o wead y tirwedd. Enghreifftiau: Blychau ffôn coch, cafnau dŵr, cerrig milltir, camfeydd a physt giât carreg, hen ffynhonnau, hen arwyddion ffyrdd, creigiau a enwir, stondinau llaeth a chreiriau o'r Rhyfel Byd I a'r Ail Ryfel Byd. | • Mae'r nodweddion hyn yn tueddu i 'ddiflannu' a rhan o hyn yw am nad oes rhestr gynhwysfawr wedi'i gadw yn unlle. Maent hefyd yn diflannu trwy gael eu moderneiddio, neu drwy gynlluniau gwella ffyrdd. | **Ehangder:**<br>• 23 o Flychau Ffôn Coch<br>• 15 o Bwyntiau Tagen<br>• Cyfanswm nifer y nodweddion yn anhysbys.<br>• % o'r nodweddion a gollwyd sydd wedi'u nodi yn anhysbys.<br>Mae'r Bil Treftadaeth newydd yn debygol o gynnwys adran ar gynigion i gynhyrchu 'rhestri lleol' gadarn o'r mathau hyn o nodweddion. |
| **Terfynau**<br>Y prif fathau yw gwrychoedd brodorol ar lethrau a waliau cerrig sych yn yr ardaloedd calchfaen a'r ucheldir siâl. Y mathau eraill yw gwrychoedd ar wal gynnal gerrig (Wal Clawdd). Mae'r nodweddion llinellol yn gynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr, sy'n gweithredu yn arbennig o dda fel coridorau bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd.<br><br>Nodwedd anarferol unigryw i Gorwen o fewn yr AHNE yw ffiniau gan ddefnyddio slabiau llechi unionsyth - mae enghraifft o hyn i'w gael yng Ngro Isa ychydig i'r gogledd o Gorwen ger yr Afon Dyfrdwy. | • Colli gwrychoedd a waliau oherwydd gwelliannau amaethyddol.<br>• Colled oherwydd diffyg cynnal a chadw.<br>• Colli sgiliau i gynnal mewn ffordd draddodiadol.<br>• Cost cynnal a chadw.<br>• Cynnal a chadw modern ddim yn addas. | **Extent:**<br>• Hyd y ffiniau traddodiadol yn yr AHNE yn anhysbys.<br>• 12 km o wrychoedd wedi cael eu hadfer trwy gynllun grant cefn gwlad AHNE rhwng 2007 a 2014.<br>• 0.5 km o waliau cerrig sych wedi cael eu hadfer trwy gynllun grant cefn gwlad AHNE rhwng 2007 a 2014.<br>Angen arolwg o ffiniau a blaenoriaethau i weithredu'r rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar y tirlun.<br>% o ffiniau mewn cyflwr da yn anhysbys. |

# Mynediad a Hamdden

| Adnoddau / Nodweddion Arbennig | | Materion | Statws |
|---|---|---|---|
| Mynediad a Hamdden | **Atyniadau Ymwelwyr Eiconig a Diwylliannol**<br><br>Mae Dyffryn Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy yn ffurfio porth trawiadol i Ogledd Cymru gan fod y newidiadau topograffi yn newid yn sydyn o fod yn wastad yng ngwastadir Swydd Amwythig i fod yn serth ar ochr y Ddyffryn Gymraeg, gyda newidiadau hefyd yn arddulliau adeiladu a deunyddiau, diwylliant a ffordd o fyw. Mae gan yr ardal rôl arbennig fel porth, ac yn ffenestr ddiwylliannol ar fywyd Cymreig ac yn nodi'r gororau rhwng Cymru a Lloegr.<br><br>Ymhellach i'r gogledd, Bryniau Clwyd yw'r gadwyn gyntaf o fryniau y tu mewn i'r ffin yng Nghymru. Gyda chysylltiadau diwylliannol cryf â Lerpwl a Gogledd Orllewin Lloegr, mae llawer o ymwelwyr yn dod i'r ardal. | • Dim hunaniaeth gydlynol ar gyfer yr ardal, ceir tair uned twristiaeth ar wahân - Bryniau Clwyd, Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd.<br>• Nid oes cydlynu wrth reoli ymwelwyr.<br>• Dehongliad ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes yr ardal yn isel.<br>• Mae pobl yn pasio drwy'r ardal i deithio i orllewin Cymru. Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r ardal ac annog pobl i stopio yn yr AHNE.<br>• Diffyg cyfleusterau o ansawdd uchel - cludiant cyhoeddus, meysydd parcio, caffis, toiledau, canolfannau gwybodaeth.<br>• Amgylchedd lleoledig diraddiedig oherwydd tagfeydd, sbwriel a fandaliaeth. | **Darpariaeth:**<br>• 36 o Barciau/Safleoedd Carafannau / Gwersylloedd yn yr AHNE.<br>• Nifer y busnesau twristiaeth - anhysbys<br>• Nifer yr arwyddion trothwy AHNE - anhysbys<br>• Nifer y Meysydd Parcio yn yr AHNE - anhysbys.<br>• Nifer y Toiledau Cyhoeddus yn yr AHNE – 8<br>• 4 Parc Gwledig yn yr AHNE -<br>  • Loggerheads<br>  • Moel Famau<br>  • Tŷ Mawr<br>  • Mwyngloddio Plwm y Mwynglawdd<br>**Ehangder:**<br>• 4 Parc Gwledig yn cwmpasu 1,007.05 ha (2.59% o'r AHNE).<br>• 1 Parc Gwledig ar gau ar hyn o bryd.<br>• Mae 20 o safleoedd (gan gynnwys Parciau Gwledig) yn yr AHNE wedi eu rheoli gan yr Awdurdodau Lleol yn cwmpasu 1075.78 ha (2.76% o'r AHNE)<br>• Ystâd Adnoddau Naturiol Cymru (Comisiwn Coedwigaeth gynt) yn cwmpasu 1299.37 ha (3.34% o'r AHNE).<br>**Cyflwr:**<br>• Mwyngloddio Plwm y Mwynglawdd ar gau ar hyn o bryd i'r cyhoedd. |

Mynediad a Hamdden

| | | |
|---|---|---|
| **Safleoedd 'Poblogaidd'**<br>Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas yn gamp o beirianneg sifil y Chwyldro Diwydiannol, a gwblhawyd ym mlynyddoedd cynnar y 19eg ganrif. Mae'r eiddo wedi ei gofrestru fel Safle Treftadaeth y Byd ac yn cael ei gydnabod fel ensemble o arloesedd a ysbrydolodd nifer o brosiectau ar draws y byd.<br>Mae Parc Gwledig Loggerheads yn gyswllt pwysig i Fryniau Clwyd ehangach ac yn cael ei weld fel canolfan ar gyfer crwydro.<br>Mae Moel Famau yn llain sylweddol o rostir grug ym Mryniau Clwyd. Mae'r Tŵr Jiwbilî ar y copa. Mae Parc Gwledig a fferm Tŷ Mawr wedi'u lleoli ar lannau'r Afon Dyfrdwy o dan fwâu Traphont Cefn.<br>Mae Parc Gwledig Pyllau Plwm y Mwynglawdd yn fan cychwyn ar gyfer Llwybr Clywedog ac yn fynediad i gefn gwlad prydferth Mynydd y Mwynglawdd.<br>Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a'r Daith Panoramig, sy'n rhedeg ar hyd troed Greigiau Eglwyseg, yn cynnig golygfeydd lefel uchel syfrdanol.<br>Bwlch yr Oernant yn lleoliad twristiaeth poblogaidd ac yn daith olygfaol. | • Datblygiad presennol a newydd lle bu diffyg sylw i ddyluniad, cymeriad, deunyddiau ac integreiddio o fewn golygfeydd allweddol ac mewn lleoliadau allweddol sy'n cyfrannu at brofiad ymwelwyr.<br>• Mae mynediad i'r llai abl yn heriol.<br>• Diffyg / cau cyfleusterau i ymwelwyr.<br>• Rheoli traffig, tagfeydd a pharcio ceir.<br>• Cysylltiadau cludiant i'r cyhoedd gwael ac isadeiledd a seilwaith cyhoeddus gwael.<br>• Croesfannau Ffyrdd prysur.<br>• Mae rhai olion diwydiannol mewn cyflwr gwael.<br>• Pwysau ymwelwyr mewn ardaloedd cadwraeth allweddol. | |
| **Llwybr Clawdd Offa a Llwybrau a Hyrwyddir**<br>Mae gan yr AHNE rwydwaith eang o lwybrau, llwybrau ceffyl a chilffyrdd. Mae gan rai arwyddocâd hanesyddol mawr, gan gynnwys Llwybr y Leete a Ffyrdd yr Hen Borthmyn. Mae'r rhwydwaith yn dod â budd economaidd penodol i'r economi leol.<br>Mae yna nifer fawr o gyhoeddiadau yn hyrwyddo cyfleoedd cerdded yn bennaf. | • Cynnal a chadw parhaus o lwybrau a hyrwyddir.<br>• Erydiad mewn ardaloedd sensitif.<br>• Effaith mynediad ar stoc a ffermio, yn enwedig effaith cŵn.<br>• Hawliau Tramwy Cyfyngedig ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr.<br>• Tagfeydd mewn ardaloedd 'poblogaidd'.<br>• Llwybrau wedi'u blocio ac na ellir eu defnyddio yn cyfyngu ar gyfleoedd.<br>• Nifer y llwybrau a hyrwyddir heb gefnogaeth.<br>• Dosbarthu deunyddiau sydd ar gael. | **Ehangder:**<br>• 772.6km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br>• 324.4 km o Hawliau Tramwy a llwybrau a ganiateir i'w defnyddio a hyrwyddir gan gyhoeddiadau AHNE / Awdurdod Lleol. (42% o'r rhwydwaith).<br>• 114 km Llwybrau Beicio wedi'u Hyrwyddo ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus / llwybrau a ganiateir i'w defnyddio. (14.8% o'r rhwydwaith). |

## Mannau agored

Mynediad i dir yn cynnwys mynydd-dir, gweundir, rhostir, tir comin a phob tir dros 600m o uchder.

Mae mynediad i dir yn elfen bwysig o Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac yn darparu mynediad i ardaloedd, yn enwedig bryniau sydd heb eu gwasanaethu gan y rhwydwaith Hawliau Tramwy. Fe'i ceir ledled yr AHNE, ond mae'r rhan fwyaf i'w cael yn y de, sy'n cwmpasu'r graddau mawr o rostir agored ar fynyddoedd Rhiwabon, Llantysilio a Gogledd y Berwyn.

Mae nifer o lwybrau mynediad a ganiateir wedi cael eu datblygu i arwain cerddwyr i fannau o ddiddordeb ac arwyddocâd, megis Neuadd Rhyddid i'r de o Gorwen, a chopa Moel Gyw.

## Gweithgareddau Antur

Mae pryder cynyddol bod ffordd o fyw pobl yn rhy segur o ran antur. Maent yn ceisio 'cael gwared ar straen' trwy brofiadau antur megis dringo creigiau, ogofa, caiacio, rafftio dŵr gwyn, beiciau mynydd, marchogaeth ac ati.

Mae tirwedd yr AHNE yn cefnogi busnesau gweithgareddau antur, gan gynnwys y ganolfan beicio mynydd yng Nghoed Llandegla.

- Cyhoedd yn ansicr ynglŷn â llefydd sy'n dir mynediad agored.
- Aflonyddu ar adar sy'n nythu a bywyd gwyllt arall.

**Gweithgareddau Antur**

- Materion iechyd poblogaeth gynyddol.
- Gwrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr gan ddefnyddio adnoddau yr ardal, yn enwedig yr Afon Dyfrdwy.
- Sbwriel, sŵn, difrod.
- Pwysau beicio mynydd ar rhwydwaith llwybrau ceffylau a chefn gwlad ehangach.
- Effaith mynediad ar safleoedd cadwraeth allweddol.

- Hyd y llwybrau wedi'u blocio / llwybrau na ellir eu defnyddio anhysbys.
- Meysydd parcio sylweddol sy'n gwasanaethu rhwydwaith yn cynnwys Loggerheads, Moel Famau a Pharc Gwledig Tŷ Mawr, Meysydd Parcio yng Nghorwen a Llangollen, a Llantysilio.
- Nifer y cilfannau yn addas ar gyfer defnydd yn anhysbys
- 3 Gorsaf rheilffordd sy'n gwasanaethu'r ardal (Prestatyn, Rhiwabon a'r Waun)
- 10,380.18 ha o Dir Mynediad (26.67% o arwynebedd AHNE)
  - 6441.35 ha yn dir comin.
  - 3938.83 ha yn cael ei fapio fel cefn gwlad agored.
- Nifer y darparwyr gweithgareddau antur yn anhysbys.
- Gwariant twristiaeth yn yr AHNE yn 2012 - £ 39.4 miliwn.

Mynediad a Hamdden

## Iechyd a lles Amddifadedd

Yn gyffredinol, nid yw'r AHNE yn ardal sydd â lefelau uchel o amddifadedd o'i gymharu â'r rhan fwyaf o ddangosyddion amddifadedd, gan gynnwys lefelau incwm, cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, iechyd, ansawdd tai a'r amgylchedd ffisegol. Ar y cyfan, mae'r AHNE o fewn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig 25% yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005). Fodd bynnag, un agwedd lle mae'r AHNE yn dangos lefelau arbennig o uchel o amddifadedd yw mynediad i wasanaethau, sy'n ganlyniad i gymeriad gwledig a phoblogaeth isel yr ardal. Gan fod y boblogaeth yn hŷn na'r cyfartaledd, mae mynediad at ofal iechyd lleol ac arbenigol, a gwasanaethau cymorth, i gyd yn cyfrannu at ymdeimlad o les cymunedol.

Er yn is na chyfartaledd Cymru, mae lefelau o salwch hir dymor wedi cynyddu yn yr AHNE rhwng 2001 a 2011.

- Cynnal a gwella mynediad i wasanaethau lleol.
- Nid yw pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn cael budd o'r AHNE.

- 2 Ardal Cymunedau yn Gyntaf o fewn yr AHNE.
- 7 Ardal Cymunedau yn Gyntaf o fewn 3km i'r AHNE.
- Canran yr ACEHI (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is) yn yr AHNE o fewn y chwartel mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad i wasanaethau - 26.3% (10 o 38)
- Canran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol:
  - Dwyrain 17.2%
  - Gogledd 21.7%
  - Gorllewin 19.5%
  - De 21.2 %
  - Cymru 22.7%

# Diwylliant a Phobl

| Adnoddau / Nodweddion Arbennig | Disgrifiad | Materion | Statws |
|---|---|---|---|
| Diwylliant a Phobl - Yr Amgylchedd Adeiledig | **Lleoliad**<br><br>Mae patrwm anheddu Bryniau Clwyd yn cael ei nodweddu gan bentrefi a phentrefannau ar bob ochr i'r brif grib, megis Llanbedr DC, Cilcain a Nannerch, ac ar hyd dyffrynnoedd yr afonydd, gan gynnwys Bodfari a Llanferres. Mae'r rhan fwyaf o'r pentrefi hyn yn gryno ac yn gnewyllol mewn ffurf. Mae'r aneddiadau hyn yn cael eu hategu gan ffermydd gwasgaredig ac anheddau ynysig sy'n ymestyn yn uwch i fyny'r llethrau.<br><br>Mae'r patrymau anheddu yn ne'r AHNE yn cael eu gweld yn bennaf ar hyd dyffrynnoedd yr afonydd. Mae pentrefi llai yn cynnwys Bryneglwys, Glyndyfrdwy, Carrog, Pentredŵr a Froncysyllte. Mae trefi Llangollen a Chorwen yn pontio'r Afon Dyfrdwy. Yn debyg i Fryniau Clwyd, mae ffermydd gwasgaredig ac anheddau ynysig i'w cael yn uwch i fyny'r llethrau.<br><br>Mae nifer o aneddiadau mwy yn ffinio â'r AHNE, gan gynnwys Prestatyn, Gallt Melyd, Dyserth, Gwernymynydd, Trefor, Cefn Mawr a'r Waun. | • Gwaith datblygu yn yr AHNE ac nid yw lleoliadau'r rhain yn cydymdeimlo bob amser â chydnaws â phatrwm cymeriad y dirwedd ac aneddiadau lleol. | Nifer y pentrefi/aneddiadau yn yr AHNE wedi'u diffinio yng nghynlluniau'r datblygiad:<br>• Sir Ddinbych 23<br>• Sir y Fflint 6<br>• Wrecsam 2<br>Cyfanswm – 31 |

Diwylliant a Phobl - Yr Amgylchedd Adeiledig

## Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth wedi eu dynodi gan awdurdodau cynllunio lleol i amddiffyn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad. Maent yn un dangosydd o ansawdd yr amgylchedd adeiledig. Dylai dynodiadau fod yn seiliedig ar Werthusiadau Cymeriad diweddaraf, a dylai awdurdodau cynllunio baratoi Cynlluniau Gwella / Rheoli. Dynodiad hefyd yn dod â rhai rheolaethau ychwanegol ar ddatblygiad, ond gellir cynyddu'r rhain drwy Gyfarwyddiadau Erthygl 4 os yw datblygiad a ganiateir yn niweidio cymeriad arbennig yr ardal.

- Gwerthusiadau Cymeriad Ardal Gadwraeth yn anghyflawn / allan o ddyddiad.
- Diffyg Cynlluniau Rheoli/ Gwella ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth.
- Dim trefniadau ar gyfer monitro cyflwr Ardaloedd Cadwraeth.

**Ehangder:**

- Mae yna 17 o ardaloedd cadwraeth yn yr AHNE, yn cwmpasu 88.85 ha (0.23% o'r AHNE)
  - Sir Ddinbych 9
  - Sir y Fflint 6
  - Wrecsam 2
- % o bentrefi / aneddiadau AHNE wedi eu cydnabod mewn cynlluniau datblygu sy'n Ardaloedd Cadwraeth - 41.9% (13 o 31)
- % o'r Ardaloedd Cadwraeth gyda Gwerthusiad Cymeriad diweddaraf yn anhysbys
- % o'r Ardaloedd Cadwraeth gyda Chynllun Rheoli / Gwella yn anhysbys
- Nifer o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn anhysbys

## Adeiladau Cofrestredig

Adeiladau o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol arbennig yn cael eu Cofrestru gan CADW. Mae rheolau llym dros ddatblygu Adeiladau Rhestredig a'u lleoliad i sicrhau cadwraeth o'r cymeriad arbennig neu eu gwella. Mae nifer a gradd Adeiladau Rhestredig mewn ardal yn ddangosydd arall o ansawdd yr amgylchedd adeiledig lleol. Cynghorir awdurdodau lleol i gynnal 5 arolwg blynyddol o gyflwr Adeiladau Rhestredig yn eu hardal i nodi adeiladau sydd mewn perygl.

- Pryderon ynghylch nifer yr adeiladau rhestredig mewn perygl.
- Mae angen diweddaru a chynnal y rhestr Adeiladau mewn Perygl ar gyfer pob Awdurdod Lleol.
- Y Tŵr Jiwbilî ar Foel Famau yw un o'r Adeiladau Rhestredig mwyaf amlwg a nodedig yn yr AHNE, ond mae angen adfer / cadwraeth i sicrhau ei ddyfodol tymor hir.

**Ehangder:**

- Mae yna 645 o Adeiladau Rhestredig yn yr AHNE
- 56 yn cael eu hystyried i fod 'mewn perygl'.
- Adeiladau Rhestredig arwyddocaol yn cynnwys Castell y Waun, Pont Llangollen a'r Tŵr Jiwbilî.

## Rheoli Datblygu

Mae rheoli datblygu yn yr AHNE yn ffordd bwysig i gynnal a gwella cymeriad a golwg yr ardal. Gall cynigion datblygu y tu allan i'r ardal hefyd gael effaith ar olygfeydd pwysig i mewn neu allan o'r AHNE.

Mae'r tri awdurdod cynllunio lleol (ACLl) yn ymgynghori â'r Cydbwyllgor ar geisiadau cynllunio a allai effeithio ar yr AHNE.

- Angen cynnal gweithgarwch Cyd-bwyllgor mewn perthynas ag ymateb i gynigion datblygu.
- Cynnal a datblygu hygrededd a dylanwad y Cyd-bwyllgor fel ymgynghorai cynllunio.
- Mae'r tri ACLl angen sicrhau dull gweithredu cyson ar draws ffiniau gweinyddol.
- Trefoli pentrefi a dyluniad trefol gwael.
- Yr angen am ymateb mwy rhagweithiol i ddatblygiad anawdurdodedig yn yr AHNE.

- Nifer y ceisiadau cynllunio a gyfeiriwyd at y JAC
  - 2011/12 – 199
  - 2012/13 – 212
  - 2013/14 – 221
- % o sylwadau JAC a fabwysiadwyd gan ACLl
  - 2011/12 – 68%
  - 2012/13 – 72%
  - 2013/14 – 74%
- Nifer yr achosion datblygiad anawdurdodedig posibl y cyfeirir at yr ACLlau
  - 2011/12 – 13
  - 2012/13 – 21
  - 2013/14 – 10

## Polisi a Chanllawiau Cynllunio

O fewn system dan arweiniad cynllun ar gyfer rheoli'r gwaith o ddatblygu polisi a chanllawiau cynllunio sy'n berthnasol yn yr elfen hanfodol o ddiogelu a gwarchod cymeriad ac edrychiad yr AHNE.

Mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig (CCA) yn ategu cynlluniau datblygu. Mae'r Cydbwyllgor wedi paratoi Canllawiau Datblygu anstatudol ar gyfer yr AHNE. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r Cyd Bwyllgor fel arfer yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i bolisi cenedlaethol.

- Polisïau clir a chadarn sydd eu hangen i gadw a gwella yr AHNE.
- Yr angen i'r Cyd-bwyllgor i ymgysylltu â'r broses Cynllun Datblygu Lleol; Canllawiau LlC bellach ddim yn gofyn i'r CDLlau i gynnwys polisïau cenedlaethol AHNE.
- Mae'r tri ACLl angen sicrhau dull gweithredu cyson ar bolisi a chanllaw AHNE ar draws ffiniau gweinyddol.
- Dim CCA penodol ar gyfer yr AHNE i gadw a gwella hynodrwydd lleol. Ni all Canllawiau Datblygu anstatudol gael eu mabwysiadu gan yr ACLl.
- Angen cynnal proffil AHNE a gweithgarwch Cydbwyllgor mewn perthynas ag ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a pholisi eraill.

Cynlluniau Datblygu Lleol:
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, 2006 - 2021 (a fabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030 (I baratoi: ar gyfer ei fabwysiadu wedi'i gynllunio yn 2018)
- Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013-2028 (I baratoi: ar gyfer ei fabwysiadu wedi'i gynllunio yn 2018)

Cynlluniau Datblygu Unedol (bellach wedi eu disodli gan system Cynllun Datblygu Lleol):
- Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint 2000-2015 (wedi fabwysiadu yn 2011)
- Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996 - 2011 (wedi fabwysiadu yn 2005)

Diwylliant a Phobl - Cymunedau Cynaliadwy

## Naws Am Le

Cymunedol, perthyn, ymlyniad ac ymdeimlad o le. Yn gysylltiedig â hyn yw'r iaith Gymraeg, gwerthoedd cymunedol cryf ac ymdeimlad o falchder lleol sydd i gyd yn rhan o harddwch naturiol ardal. Mae dealltwriaeth bod 'y tir yn ein gwneud ni'r hyn yr ydym ni'.

- Diffyg ymwybyddiaeth o'r AHNE a'i ddibenion o fewn rhannau o'r cymunedau lleol.
- Cymuned heb ganolbwynt a chamau gweithredu gwirfoddol sy'n cyfrannu at hynodrwydd lleol.

## Poblogaeth

Mae'r AHNE yn denau ei phoblogaeth ond mae rhywfaint o amrywiaeth ar draws yr ardal. Yn bennaf, Dyffryn Dyfrdwy yw'r fwyaf poblog oherwydd trefi mwy o ran maint fel Llangollen a Chorwen. Fodd bynnag, mae nifer o aneddiadau mwy o ran maint a phoblogaeth yn agos at Fryniau Clwyd megis yr Wyddgrug, Rhuthun, Prestatyn, Y Waun a chyrion tref Wrecsam.

Mae proffil oedran yr AHNE yn dangos poblogaeth hŷn na Chymru,Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Mae nifer y teuluoedd â phlant dibynnol wedi codi rhwng 2001 a 2011, yn arbennig yn ardal orllewinol yr AHNE.

- Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu yn y gymdeithas. Bydd cynnydd sydyn yn nifer y bobl dros 80 oed yn gweld cenhedlaeth awyddus i ymlacio, ond a allai fod yn amharod (neu'n methu) teithio yn bell.
- Dros y pymtheg mlynedd diwethaf, mae cynnydd parhaus yn y gyfradd genedigaethau wedi achosi ffyniant babanod bach.
- Bydd neiniau a theidiau yn 'ieuengach' nac erioed o'r blaen; a bydd gwarchod y plant ar eu hymddeoliad yn golygu mai dyna fydd yn blaenoriaethu eu hamser hamdden.
- Pwysau a chyfleoedd sy'n codi o agosrwydd yr AHNE i boblogaeth llawer mwy.

- Poblogaeth preswyl (2011) -18,690
  - 8,000 o'r rhain yn Nyffryn Dyfrdwy
- Dwysedd Poblogaeth (2011)
  - Gogledd – 0.7 (person bob sgwâr km)
  - Gorllewin – 0.4
  - Dwyrain – 0.4
  - De - 0.4
  - Cymru 1.5
- Families with dependent children
  - Gogledd – 378
  - Gorllewin – 839
  - Dwyrain – 426
  - De - 301

## Tai

Mae'r AHNE yn ardal ddeniadol i fyw. Mae hefyd o fewn amrediad cymudo rhwydd o ganolfannau cyflogaeth mawr megis Glannau Dyfrdwy, Caer, Wrecsam a thu hwnt. Mae hyn yn dylanwadu ar y farchnad dai leol trwy wthio prisiau tai i fyny, yn aml tu hwnt i'r hyn y gall llawer o bobl leol ei fforddio. Mae cyfanswm yr eiddo cymdeithasol / ar rent i'r cyngor a chymdeithasau tai yn gyfyngedig yn yr AHNE. Mae problemau o argaeledd a fforddiadwyedd i bobl leol yn gwaethygu oherwydd canran uwch na chyfartaledd Cymru o ail gartrefi / cartrefi gwyliau mewn rhannau o'r AHNE.

- Cynyddu nifer ac ystod y tai fforddiadwy yn yr AHNE i ddiwallu anghenion lleol.
- Mae lefelau uchel o alw am lety cymdeithas tai/ tai cyngor mewn rhai ardaloedd.
- Yr angen am bolisïau cynllunio cadarn i sicrhau bod datblygiadau tai newydd fforddiadwy a'r angen yn lleol yn cael eu hateb.

- 368 o Dai Cyngor yn ardaloedd AHNE Sir Ddinbych a Sir y Fflint.
- Nifer tai cyngor sir Wrecsam yn anhysbys).
- Nifer yr anheddau yn anhysbys Rhestr Aros y Cyngor / Cymdeithas
- Tai yn anhysbys Ail gartrefi yn yr AHNE yn anhysbys

## Cyflogaeth

Mae cyfran uchel o drigolion AHNE yn economaidd weithgar o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ond mae'r rhan fwyaf yn cymudo allan o'r ardal i drefi a chanolfannau eraill o gyflogaeth gerllaw. Felly, nid yw'r ardal yn arddangos lefelau uchel o hunangynhwysiant economaidd, sy'n gallu effeithio ar gydlyniant cymunedol. Y sector cyhoeddus yw'r ffynhonnell fwyaf o gyflogaeth, ond mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn parhau i fod yn gyflogwyr pwysig o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

- Diffyg hunangyfyngiant economaidd yn arwain at llai o bobl wedi 'ymwreiddio' yn eu hardal leol a llai o ymdeimlad o gymuned.
- Mae llai o swyddi lleol na'r boblogaeth sy'n gweithio.
- Lleihad yn y nifer o ddaliadau amaethyddol sy'n weithredol a chynnydd cyffredinol ym maint cyfartalog y daliadau hyn.
- Adnoddau i ddarparu Twristiaeth Cynaliadwy yn yr AHNE Strategaeth a Chynllun Gweithredu.

- Nifer y trigolion sy'n gweithio yn anhysbys
- Nifer o swyddi yn yr AHNE yn anhysbys
- % o boblogaeth economaidd weithgar (2011)
  • Dwyrain 70% • Gogledd 67%
  • Gorllewin 67% • De 68% • Cymru 66%
- % y trigolion sy'n byw ac yn gweithio yn yr AHNE yn anhysbys
- % o'r trigolion a gyflogir mewn amaethyddiaeth neu goedwigaeth (2011)
  • Dwyrain 5.4% • Gogledd 5.6%
  • Gorllewin 9.3% • De 4%
- Nifer y daliadau amaethyddol gweithredol yn anhysbys.
- Maint cyfartalog daliad amaethyddol yn anhysbys.
- Nifer y busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cefnogi'r AHNE yn anhysbys.
- % o'r boblogaeth sydd wedi ymddeol (2011)
  • Dwyrain 20% • Gogledd 20%
  • Gorllewin 21% • De 18%
- Lefelau o anghyflogaeth hir dymor (2011)
  • Dwyrain 0.9% • Gogledd 1.6%
  • Gorllewin 1.2% • De 1.7% • Cymru 2.4%

Diwylliant a Phobl - Cymunedau Cynaliadwy

## Cyfleusterau a Gwasanaethau

Mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau lleol fel ysgolion, siopau, swyddfeydd post, mannau cyfarfod cymunedol a chludiant cyhoeddus i gyd yn cyfrannu at ymdeimlad o les cymunedol. Gall mynediad i wasanaethau o'r fath yn yr AHNE fod yn gyfyngedig. Gwasanaethau gwledig yn dirywio ac yn parhau i fod o dan fygythiad o ystyried y rhagolygon economaidd ac ymarferoldeb darparu cyfleusterau o'r fath mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth ynysig a phrin.

- Cynnal cyfleusterau a gwasanaethau allweddol gwledig presennol sy'n cwrdd ag anghenion pobl leol, ac atal rhag colli rhagor o gyfleusterau o'r fath.
- Adolygiad o ddarpariaeth addysg a nifer yr ysgolion gwledig.
- Datblygu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau newydd fel band eang cyflymder uchel a rhwydwaith ffonau symudol.
- Sicrhau cysylltiadau rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol i ganolfannau gwasanaeth.

- 40 o fannau addoli yn yr AHNE.
- Cyfleusterau yn ardal Sir Ddinbych o'r AHNE.
  - 57 o dafarndai / gwestai / bariau.
  - 118 o siopau.
- Nifer yr ysgolion cynradd yn yr AHNE – 14
- Nifer wedi cofrestru yn yr ysgol yn anhysbys
- Nifer o aneddiadau sydd â thafarndai - 21 (68%)
- Nifer o aneddiadau gyda neuadd gymunedol - 17 (55%)
- Nifer o aneddiadau gyda siop / Swyddfa Bost - 13 (42%)
- Nifer o aneddiadau gyda gwasanaeth bws dyddiol rheolaidd - 19 (61%)
- 'Mannau gwan' ar gyfer Band Eang - anhysbys
- Nifer y 'mannau gwan' ar gyfer rhwydwaith ffôn symudol - anhysbys

SHEPHERDS HUT
DRINKS
SNACKS
LOCAL HOMEMADE CAKES
LOCAL CRAFTS
LOCAL INFORMATION

# Rhan Tri
# CYNLLUN GWEITHREDU


Ansawdd a Chymeriad Tirwedd 97
Rhostir Grug a Chribau Eang 99
Glaswelltiroedd calchfaen, clogwyni a sgrïau 101
Coetir Llydanddail a Choed Hynafol 102
Dyffrynnoedd Afonydd 103
Setliad Hanesyddol ac Archaeoleg 104
Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd 105
Bryngaerau a Strwythurau Amddiffynnol 107
Nodweddion Hanesyddol Bach 108
Ffiniau 109
Atyniadau Ymwelwyr a Diwylliannol Eiconig 110
Llwybr Clawdd Offa a Llwybrau a Hyrwyddir 112
Yr Amgylchedd Adeiledig 113
Cymunedau Cynaliadwy 114

# Ansawdd a Chymeriad Tirwedd

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ACDA1 | Sicrhau bod adnoddau naturiol a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi | PolRhA1 | Cefnogi prosiectau Peilot Ynni Adnewyddadwy Cadwyn Clwyd a phrosiectau cymunedol eraill priodol sy'n ceisio lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yr AHNE heb niweidio'r nodweddion arbennig yr ardal neu ei chymeriad a'i ymddangosiad. | Cadwyn / AHNE | Tirfeddianwyr CNC | Bl 1 |
| | | | Cefnogi'r prosiect Ymateb Naturiol i Berygl Llifogydd yn Nalgylch Clwyd, yn enwedig mewn perthynas â gwaith rheoli o fewn Bryniau Clwyd | Cadwyn / AHNE | Tirfeddianwyr CNC | Bl 1, Bl 2 |
| ACDA2 | Sicrhau bod effeithiau newid amgylcheddol ar yr AHNE yn cael eu deall a bod ymateb strategol yn cael ei datblygu a'i gweithredu | PolRhA1<br>PolRhA2<br>PolRhA3 | Ymgysylltu â rhaglen Darpariaeth Effaith Weledol y Grid Cenedlaethol (VIP) i leihau effaith o drosglwyddo foltedd uchel yn yr AHNE a'i amgylchedd. | AHNE | | Bl 2 |
| | | | Hyrwyddo rhannu mastiau i leihau annibendod ac effaith ar gymeriad tirwedd lleol yr AHNE. | | | Bl 3 |
| | | | Gweithio gyda'r diwydiant i gymhwyso'r saith 'Rheol Holford' a datblygu canllawiau ar gyfer mesurau lliniaru. | | | Blynyddol |
| ACDA3 | Lleihau effeithiau cronnol o newid ar raddfa fach a all erydu cymeriad arbennig yr AHNE. | PolRhA3 | Paratoi canllawiau ar gyflwyno technolegau ynni adnewyddadwy i mewn i'r AHNE a'i leoliad, er mwyn lleihau'r effaith ar gymeriad y dirwedd leol | | | Bl 3 |
| | | | Annog a chefnogi mesurau cadwraeth ynni er mwyn helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer defnydd o ynni. | | | Blynyddol |
| ACDA4 | Amddiffyn llonyddwch yr AHNE a chymryd camau lle bo modd er mwyn lleihau sŵn a llygredd golau. | PolRhA1<br>PolRhA2 | Adnabod nodweddion arbennig yr AHNE sy'n sensitif i newid a monitro eu cyflwr. | | | Bl 2 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ACDA5 | Lle bo modd lleihau ymyrraeth weledol trwy sgrinio neu gael gwared ar ddoluriau llygad. | PolRhA2 | Cynnal gwaith monitro ffotograffiaeth pwynt penodol o olygfannau allweddol ar draws yr AHNE. | AHNE<br>AHNE<br>ALI | AHNE<br>ACGC | Bl 3 |
| | | | Sefydlu rhaglen fonitro o olygfannau allweddol ar draws yr AHNE | | | Bl 3 |
| | | | Gweithio gyda'r 3 Awdurdod Priffyrdd ac Asiantaeth Cefnffyrdd i symleiddio arwyddion traffig ffyrdd a chytuno ar gyfres o ganllawiau ar gyfer arwyddion yn AHNE. | | | Bl 2 |
| ACDA6 | Ymchwilio a chynyddu ein dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol y cymunedau yn yr AHNE. | PolRhA1<br>PolRhA4 | Trefnu diwrnodau hel atgofion cymunedol i ymgysylltu â chymunedau a thynnu ar eu cyfoeth o wybodaeth am yr ardal. - 1 y flwyddyn | | | Blynyddol |
| | | | Cefnogi'r gwaith ymchwil i hanes cymdeithasol yr ardal a'i gofnodi | | | Blynyddol |
| ACDA7 | Datblygu partneriaethau a fydd yn helpu i ysgogi ymwybyddiaeth o, a diddordeb mewn amrywiaeth ddiwylliannol o fewn yr AHNE. | PolRhA1<br>PolRhA4 | Cynnal Fforwm AHNE blynyddol i ysgogi trafodaeth ar nodweddion arbennig yr ardal a sicrhau cyfranogiad cymunedol | AHNE | ALI | Blynyddol |
| | | | Cynnal Partneriaeth AHNE fel rhan o strwythur llywodraethu ar gyfer yr AHNE | AHNE | ALI | Blynyddol |
| | | | Gweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol Cadwyn Clwyd i sicrhau bod amrywiaeth ddiwylliannol yn cael ei hadlewyrchu mewn rhaglenni RDP yn ymwneud â naws ar le. | AHNE | ALI | Blynyddol |
| | | | Gweithio gyda Menter Iaith i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn cymunedau'r AHNE | AHNE | Cadwyn Clwyd | Bl 2 |

# Rhostir Grug a Chribau Eang

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GGA1 | Gweithio gyda Grŵp Bionet Gogledd Cymru i gynnal neu ymestyn maint presennol y rhostir grug yn yr AHNE | PolBG1<br>PolBG2 | Lle y bo'n bosibl, adfer ardaloedd o rostir blaenorol yn enwedig o amgylch Coed Moel Famau, Coed Nercwys, Moel Findeg a Moel Famau. | CNC / AHNE | ALI | Blynyddol |
| GGA2 | Dod â meysydd o rostir grug i mewn i reolaeth gynhyrchiol gadarnhaol. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG3 | Parhau i gefnogi porwyr ar Fryniau Clwyd, Mynydd Llantysilio a Gogledd y Berwyn yn y gwaith o reoli rhostir drwy dorri a llosgi, trwy gynllun Tiroedd Comin Glastir a dulliau eraill. | CNC<br>AHNE<br>Tirfeddianwyr | LIC | Blynyddol |
| | | | Parhau i weithio gyda Choleg Cambria Llysfasi i ddarparu cyrsiau hyfforddiant mewn rheolaeth ucheldir fel rhan o'u cwrs Diploma Cenedlaethol - 2 ddigwyddiad y flwyddyn. | AHNE<br>Coleg Cambria | | |
| GGA3 | Parhau i fonitro'r rugiar ddu a rhywogaethau adar ucheldir eraill fel dangosydd o gyflwr cynefin | PolBG2 | Monitro poblogaethau'r Grugiar Ddu ac adar ucheldir eraill bob blwyddyn mewn safleoedd paru allweddol ar draws yr AHNE er mwyn hysbysu a thargedu rheoli penodol. | RSPB | AHNE<br>CNC | Blynyddol |
| GGA4 | Cynhyrchu bwyd cysylltiol gyda rheolaeth ecosystem. | PolBG3<br>PolBG4 | Gweithio gyda ffermwyr a phorwyr i gysylltu cig oen o'r ardaloedd ucheldir gyda thirweddau o ansawdd. | AHNE<br>Cadwyn Clwyd | Cadwyn Clwyd<br>Porwyr<br>AHNE<br>Llwybr Bwyd | Bl 2, Bl 3 |
| | | | Ymgysylltu cynhyrchwyr a manwerthwyr gyda Phrosiect Llwybr Bwyd Bryniau Clwyd er mwyn hyrwyddo cynnyrch lleol ac yn rhoi gwerth ychwanegol i gynnyrch sy'n gysylltiedig â gwaith cadwraeth cadarnhaol. | | | Blynyddol |
| GGA5 | Cefnogi ac annog rheolaeth gynaliadwy o'r rugiar lle mae ganddi effeithiau amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol. | PolBG3<br>PolBG4 | Cefnogi partneriaeth Rhosydd Gogledd Cymru ar Y Berwyn | RSPB | CNC<br>AHNE | |
| GGA6 | Darparu cefnogaeth i ffermwyr a pherchnogion tir mewn ardaloedd ucheldir i ddod â rhostiroedd mewn i gynlluniau rheoli. | PolBG3<br>PolBG4 | Mynychu cyfarfod porwyr lle y bo'n briodol | AHNE | | Blynyddol |
| | | | Darparu cefnogaeth ymarferol o ran llosgi mewn ardaloedd ucheldir lle bynnag y bo modd | AHNE | | Blynyddol |

# Glaswelltiroedd Calchfaen, Clogwyni a Sgrïau

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GCA1 | Cynnal ystent presennol o laswelltir calchaidd a phalmant calchfaen a sgri o fewn yr AHNE. | PolBG1<br>PolBG2 | Sicrhau bod amcanion cadwraeth pob safle yn cael eu deall a'u hymgorffori mewn cynlluniau prosiect. | CNC | AHNE, Bionet | Blynyddol |
| | | | Plotio a chofnodi systemau ogofâu a phalmant calchfaen yn yr AHNE ac adnabod nodweddion mewn perygl. | AHNE<br>CNC | | Bl 4 |
| | | | Cefnogi a hyrwyddo prosiectau drwy Grŵp Bionet Gogledd Cymru | | | |
| GCA2 | Dod â phob ardal o laswelltir calchfaen cyhoeddus/ a reolir, clogwyni a sgrïau i mewn i gynlluniau rheoli ffafriol. | PolBG1<br>PolBG2 | Cynnal gwaith rheoli prysgwydd wedi'i dargedu i adfer ardaloedd o gyn gynefin glaswelltir calchaidd ar Fryn Prestatyn, Dyffryn Alun ac Eglwyseg fel rhan o Brosiect Etifeddiaeth Calchfaen. | AHNE | CNC | Bl 2,3,4,5 |
| GCA3 | Darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd preifat o laswelltir calchfaen a phalmant i ddod i gynlluniau rheoli ffafriol. | PolBG3<br>PolBG4 | Datblygu Prosiect Cynllun Partneriaeth Tirwedd ar gyfer CDL i fynd i'r afael â materion o effeithiau ymwelwyr ar ardaloedd o laswelltir calchfaen, clogwyni a sgrïau yn enwedig o gwmpas Loggerheads, Eglwyseg a'r Panorama. | AHNE | CBSW<br>CNC<br>CSDd | Bl 2 |
| | | | Sicrhau bod y rheolwyr tir yn deall pwysigrwydd cynefinoedd calchaidd a'u sensitifrwydd i lefelau pori a chyfoethogi pridd o wrteithiau, defnyddio chwynladdwyr, aredig ac ail-hadu. | | | Blynyddol |
| GCA4 | Sicrhau bod defnydd hamdden yn cael ei leihau mewn ardaloedd sensitif | PolBG1<br>PolBG4 | Lleihau effaith Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ar sgri Eglwyseg trwy atgyweirio llwybrau ac atgyfnerthu. | AHNE | CNC | Bl 2,3 |
| | | | Asesu'r newidiadau blodau mae defnydd hamdden sy'n gysylltiedig â chywasgu pridd yn ei ddod. | | | Bl 3 |
| | | | Datblygu'r Cynllun Grant Cefn Gwlad i gynnwys ariannu holl nodweddion arbennig yr AHNE gan gynnwys prosiectau adfer glaswelltir calchfaen. | | | Blynyddol |

# Coetir Llydanddail a Choed Hynafol

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCHA1 | Cynnal ystent presennol o goetir llydanddail a hen goed yn yr AHNE. | PolBG1<br>PolBG2 | Cefnogi mesurau i leihau effeithiau plâu a chlefydau ar gymeriad y dirwedd leol (Phytopthora Ramorum - Llus a Llarwydd - Onnen wedi gwywo, a Phytophthora Alni - Gwernen | CNC | AHNE<br>Tirfeddianwyr | Blynyddol |
| | | | Cefnogi rhaglenni plannu priodol sy'n cryfhau gwydnwch coetiroedd i newid amgylcheddol. | | | Blynyddol |
| CCHA2 | Diogelu Hen Goed o fewn y dirwedd ar draws yr AHNE | PolBG1<br>PolBG2 | Cofnodi ystent presennol a chyflwr hen goed yn yr AHNE. | AHNE | Tirfeddianwyr<br>CNC | Bl 3 |
| | | | Nodi arian i ddatblygu rhaglen Plannu Coed mewn Parcdiroedd ar draws rhannau addas o'r AHNE. | | | Bl 3 |
| CCHA3 | Cynnal ac adfer coetir llydanddail tuag at gyflwr ffafriol trwy weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Coetiroedd Ynn Cymysg yr Ucheldir, coetiroedd derw'r ucheldir a choetiroedd gwlyb. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG3 | Dod â phob ardal o goetir llydanddail cyhoeddus/ a reolir i mewn i gynlluniau rheoli ffafriol megis Glastir neu Cytundebau Adran 15 SoDdGA erbyn 2013. | AHNE / CNC | ALI / NT | Bl 3 |
| | | | Gweithredu camau gweithredu o fewn adran 15 cytundebau rheoli presennol a chynlluniau Glastir. | CNC | Tirfeddianwyr | Bl 2 |
| | | | Datblygu'r Cynllun Grant Cefn Gwlad i gynnwys ariannu holl nodweddion arbennig yr AHNE gan gynnwys coetiroedd bach dan 2 ha. | AHNE | | Blynyddol |
| CCHA4 | Datblygu coetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd fel modelau o arfer gorau mewn rheoli coetir llydanddail. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG4 | Datblygu rhaglenni rheoli ar gyfer yr holl goetiroedd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol yn enwedig Bishops Wood, Coed Alex, Coedwigoedd Dyffryn Alun, Coed Glan yr Afon Llangollen, Rheilffordd Corwen Cynwyd a Choed Pen y Pigyn ac ar hyd coridor Afon Dyfrdwy yn Nhŷ Mawr, gan gynnwys Jeffry's Wood. | AHNE | CNC | Bl 2 |

# Dyffrynnoedd Afonydd

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CAA1 | Parhau i fonitro graddau rhywogaethau dangosol allweddol megis y dyfrgi a llygoden y dŵr er mwyn mesur cyflwr cynefin. | PolBG1<br>PolBG2 | Bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynlluniau Rheoli Dalgylch | CNC | AHNE/ | Blynyddol |
| CAA2 | Parhau i ddatblygu partneriaeth o asiantaethau a chyrff allweddol i sicrhau dull integredig a thirwedd i'r rheolwyr. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG3 | Cefnogi'r Prosiect Tirweddau Byw Alun a Wheeler a'i waith ar gysylltedd torlannol a rhywogaethau ymledol. | NWWT | AHNE – CNC - YBGGC | Bl 1,2,3 |
| | | | Datblygu'r Cynllun Grant Cefn Gwlad i gynnwys ariannu holl nodweddion arbennig yr AHNE yn cynnwys cyrsiau dŵr | AHNE | | Blynyddol |
| CAA3 | Cefnogi a datblygu dull ar raddfa tirwedd i raglen o reoli rhywogaethau ymledol yn enwedig mewn perthynas â ffromlys chwarennog. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG3 | Parhau i weithio mewn partneriaeth ag eraill i reoli rhywogaethau ymledol o fewn y Prosiect Tirweddau Byw Alun a Wheeler. | YBGGC | CNC, AHNE ALl | Blynyddol |
| | | | Cefnogi'r Bartneriaeth DINNS wrth fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ledled dalgylch afon Dyfrdwy. | YBGGC | CNC, AONB ALl | Blynyddol |
| | | | Cefnogi Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy i fynd i'r afael â phlanhigion ac anifeiliaid anfrodorol ymledol, fel clymog Japan, ffromlys chwarennog. | | | Blynyddol |
| CAA4 | Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a thirfeddianwyr/rheolwyr o bwysigrwydd y dyffrynnoedd afonydd ar gyfer bioamrywiaeth. | PolBG1<br>PolBG2<br>PolBG4 | Dyfeisio a chynnal prosiect arddangos enghreifftiol ar reoli dalgylch da | Cadwyn Clwyd | CNC, AHNE | Bl 3 |
| | | | Cynnal gweithdy blynyddol ar reoli llygredd a rheoli da ar gyfer tirfeddianwyr, cynghorwyr lleol a gweithwyr proffesiynol. | CNC | AHNE | Bl 3,4,5 |

# Setliad Hanesyddol ac Archaeoleg

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AHA1 | Gweithio tuag at sefyllfa lle mae cyflwr bob safle archeolegol o fewn yr AHNE yn hysbys ac mae gwaith rheoli priodol yn cael ei wneud. Defnyddio gwybodaeth CAH, prosiectau Traws-Gymru, cynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir a'r broses gynllunio i hwyluso hyn. | PolAH1<br>PolAH2 | Cynhyrchu rhestr o welliannau safle hanesyddol i flaenoriaethu gwaith a hyrwyddo arfer da ar draws pob math ac oedran o asedau. Targedu Camau Gweithredu Prosiectau drwy ddefnyddio cofrestr 'Mewn perygl'. | AHNE | CBSW, CSDd CSFf | Bl 3 |
| | | | Cynnal sesiynau DPP gyda chynllunwyr a swyddogion Priffyrdd i esbonio Archaeoleg a'r system Gynllunio a phwysigrwydd y nodweddion bach hyn o ran cynnal cymeriad aneddiadau | AHNE | Cadw, CBSW, CSDd, CSFf | Bl 2, Bl 4 |
| | | | Gweithio gyda Stad Amaethyddol Sir Ddinbych yng Nghaer Drewyn i sefydlu cyfradd stocio priodol a pharhau i reoli prysgwydd o amgylch y fryngaer. | CSDd | AHNE | Bl 2 |
| AHA2 | Annog perchnogion parciau a Gerddi o fewn yr AHNE Hanesyddol i gynnal ac adfer nodweddion parcdir presennol fel y nodwyd yn y Gofrestr. | PolBG1 | Gweithio gyda pherchnogion tir a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac asiantaethau perthnasol eraill i ymgymryd â gwerthusiadau ac i baratoi a gweithredu cynlluniau rheoli i gadw a gwella safleoedd | AHNE | ALl | Blynyddol |
| AHA3 | Cynyddu proffil yr Amgylchedd Hanesyddol trwy ddehongli a gwybodaeth effeithiol a chyson. | PolAH2 | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd safleoedd a nodweddion diwydiannol o fewn proses cynllunio a'r AHNE. | AHNE | Cadw | Blynyddol |
| | | | Drwy'r Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy, dyfeisio a rhedeg rhaglen ymgysylltu i breswylwyr (gan gynnwys ysgolion, Cynghorau Tref a Chymuned a Grwpiau Cymunedol) ac ymwelwyr, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Amgylchedd Hanesyddol yr AHNE a'r cysylltiadau hanesyddol rhwng safleoedd. | AHNE | Cadw<br>ALl | Bl 3, Bl 4, Bl 5 |
| AHA4 | Ymgorffori gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol i mewn i'r broses rheoli barhaus o fewn yr AHNE. | PolAH2 | Sicrhau bod pob penderfyniad ynglŷn â'r Amgylchedd Hanesyddol yn seiliedig ar dystiolaeth | ALl | AHNE | Blynyddol |
| | | | Sicrhau bod data LANDMAP a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn cael eu defnyddio i arwain penderfynu ar geisiadau cynllunio a hysbysu cynlluniau amaeth-amgylcheddol. | CNC<br>AHNE | ALl | Blynyddol |

# Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| STBA1 | Sicrhau cywirdeb gwerthoedd cyffredinol eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd. | PolAH1<br>PolAH3 | Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni dyheadau'r Cynllun Rheoli Tirwedd Safle Treftadaeth y Byd. | Grŵp Llywio WHS | | Blynyddol |
| STBA2 | Cynnal a chadw golygfeydd allweddol i ac o'r STB a'r lleoliad gweledol a diwylliannol. | PolAH3 | Sefydlu prosiect CDL gydag Ymddiriedolaeth y Camlesi ac Afonydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i warchod y golygfeydd allweddol i ac o'r STB. | AHNE | CRT, CBSW<br>CSDd, NRW | Bl 2 |
| STBA3 | Cymryd camau i gyfyngu ar yr effaith mae ymweliadau ymwelwyr yn ei gael ar gyfanrwydd hanesyddol a lleoliad Safle Treftadaeth y Byd | PolAH1<br>PolAH3 | Gweithio gyda Cadw a thirfeddianwyr lleol i ffurfioli'r mynediad at Raeadr y Bedol o Lantysilio. | AHNE | CSDd<br>Cadw | Bl 1 |
| STBA4 | Sicrhau ymagwedd gyson tuag at ddehongli, arwyddion ac ansawdd y profiad ar draws awdurdodau partneriaeth. | PolAH2<br>PolAH3 | Gweithio gyda phartneriaeth Safle Treftadaeth y Byd i ddatblygu dehongliad a strategaeth ar gyfer y coridor cyfan. | CRT | AHNE<br>CRT | Bl 3 |
| STBA5 | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd safleoedd a nodweddion diwydiannol o fewn cynllunio a'r AHNE. | PolAH1<br>PolAH2 | Drwy'r prosiect Ein Partneriaeth Tirwedd Darluniadol, asesu ac adfer nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â chloddio chwareli calchfaen am blwm yn enwedig o gwmpas y Mwynglawdd ac Eglwyseg. | AHNE | CBSW<br>Tirfeddianwyr | Bl 3 |
| | | | Gweithio tuag at atgyfnerthu nodweddion diwydiannol ar Fryn Prestatyn. | AHNE | CT Prestatyn | Bl 4 |
| | | | Drwy'r Prosiect Ein Tirwedd Darluniadol, darparu dehongliad o safon uchel ar gyfer safleoedd diwydiannol allweddol o fewn yr AHNE - yn arbennig y Lît yn Loggerheads, Ceunant y Cythraul a Phyllau Plwm y Mwynglawdd. | AHNE | Grŵp Llywio WHS | Bl 3 |
| STBA6 | Datblygu cofrestr "mewn perygl" ar gyfer safleoedd hanesyddol diwydiannol allweddol a gweithio tuag at raglenni a fydd yn ymateb lle mae angen gweithredu. | PolAH1<br>PolAH2 | Sefydlu prosiect CDL i nodi ac ymateb i safleoedd mewn perygl. | AHNE | ALI<br>Cadw | Bl 3 |

# Bryngaerau a Strwythurau Amddiffynnol

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SAA1 | Sicrhau parhad Prosiect y Grug a'r Caerau i gynnal lefel bresennol o waith yn y 4 bryngaer - Penycloddiau, Moel Arthur, Moel y Gaer Llanbedr a Moel Fenlli a cheisio parhau â'r rhaglen i gynnwys Moel y Gaer Bodfari a Moel Hiraddug. | PolAH1 | Monitro effaith Llwybr Cenedlaethol y Clawdd Offa ar Fryngaerau Bryniau Clwyd. | AHNE | CNC CSDd / CSFf | Bl 3 |
| | | PolAH1 | Parhau i gefnogi dull partneriaeth i fynd i'r afael â thresmasu gan gerbydau oddi ar y ffordd a'i effeithiau ar y bryngaerau, yn enwedig ar Fynydd Llantysilio - gweithio gyda'r Heddlu, CNC ac Awdurdodau Lleol. | Hawliau Tramwy CSDd | AONB HGC CNC | Blynyddol |
| SAA2 | Sicrhau'r nodweddion cyfanrwydd strwythurol a sicrhau bod effeithiau pwysau ymwelwyr yn cael ei leihau. | PolAH1 | Cwblhau'r gwaith atgyfnerthu meini yng Nghastell Dinas Bran o amgylch y porthdy. | CSDd | AHNE Cadw | Bl 2 |
| | | PolAH1 | Drwy'r prosiect Ein Tirwedd Darluniadol cymryd camau i leihau erydiad i Gastell Dinas Brân yn enwedig o'r pwynt mynediad dwyreiniol. | AHNE | Cadw CSDd | Bl 4 |

# Nodweddion Hanesyddol Bach

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| NHBA1 | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd nodweddion hanesyddol bach o fewn amgylcheddau cynllunio a phriffyrdd trwy ddarparu sesiynau hyfforddi i weithwyr proffesiynol. | PolAH1 | Sicrhau bod data LANDMAP a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn cael eu defnyddio i arwain ar benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a hysbysu cynlluniau amaeth-amgylcheddol. | CNC | AHNE | Blynyddol |
| | | PolAH2 | Cynnal sesiynau DPP gyda chynllunwyr a swyddogion Priffyrdd i esbonio Archaeoleg a'r system Gynllunio a phwysigrwydd y nodweddion bach hyn o ran cynnal cymeriad aneddiadau. | AHNE | ALI | Bl 3,4,5 |
| NHBA2 | Annog Cymunedau i nodi a mapio nodweddion o fewn eu cymunedau ar gronfa ddata safonol sy'n gydnaws â CAH. | PolAH2 | Annog y defnydd o becyn gwaith nodweddu hanesyddol Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yn aneddiadau'r AHNE. | AHNE | ALI | Blynyddol |
| | | PolAH2 | Ymweld â Chymunedau Lleol i drafod cofnodi nodweddion. | AHNE | Cadwyn Clwyd | Bl 3,4,5 |
| NHBA3 | Annog Cymunedau i fabwysiadu'r nodweddion hyn a gweithredu fel eu hyrwyddwyr drwy godi ymwybyddiaeth o fewn cynghorau cymuned a grwpiau ieuenctid. | PolAH2 | Yn unol ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Dathliad (2009) Sefydlu cefnogwr Amgylchedd Hanesyddol o fewn y Bartneriaeth AHNE. | AHNE | AHNE | Bl 2 |

# Ffiniau

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| FfA1 | Gan ddefnyddio'r CDC a chronfeydd eraill, datblygu cynlluniau Grant Cefn Gwlad i gefnogi prosiectau a fydd yn cynnal a gwella ffiniau mwyaf pwysig yn yr AHNE, yn ogystal â Nodweddion Arbennig eraill. | PolAH1 | Parhau i gefnogi trwy gynllun grant CDC i hwyluso gwelliant ffiniol. | AHNE | Tirfeddianwyr | Blynyddol |
| FfA2 | Yn unol â dyheadau o fewn y *Datganiad Strategol ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru* (2009), codi sylfaen sgiliau ymysg y gweithlu lleol i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gwneud y gwaith cadwraeth ac atgyweirio angenrheidiol. | PolAH1<br>PolAH2 | Parhau i weithio gyda myfyrwyr a staff yng Ngholeg Llysfasi i ddarparu cyrsiau hyfforddi mewn Sgiliau Cefn Gwlad. | AHNE | Coleg Cambria | Blynyddol |
| | | PolAH1<br>PolAH2 | Parhau i gynnig dyddiau hyfforddi i Wirfoddolwyr Cefn Gwlad mewn codi cloddiau ac adeiladu wal gerrig sych. | AHNE | DVSC<br>AVOW<br>FLVC<br>CNC | Blynyddol |
| FfA3 | Nodi'r ffiniau mwyaf pwysig yn yr AHNE o fewn<br>cyd-destun hanesyddol. | PolAH2 | Casglu gwybodaeth am gyflwr presennol y ffiniau o fewn yr AHNE. | AHNE | AHNE | Bl 3 |

# Atyniadau Ymwelwyr a Diwylliannol Eiconig

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AEA1 | Sicrhau bod ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth yn deall yr angen am gadw a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE, ac yn eu cefnogi fel asedau allweddol sy'n sail i dwristiaeth. | PolHTh1 | Cynnal statws Siarter Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr AHNE. | AHNE | Cadwyn, CSFf / CSDd, CBSW | Bl 2 |
| | | PolHTh2 | Cydlynu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau sy'n effeithio ar yr AHNE. | CSDd, CSFf, CBSW | AHNE, VW | Blynyddol |
| | | PolHTh1 | Cynnal Fforwm Twristiaeth Blynyddol. | AHNE | ALI | Blynyddol |
| | | PolHTh1 | Gweithio gyda Croeso Cymru a'r Tirweddau Gwarchodedig eraill i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru. | | ALI | Blynyddol |
| AEA2 | Hyrwyddo a chynorthwyo mynediad cyfleus a chynaliadwy i mewn i'r AHNE a lleoedd arbennig ynddo. | PolHTh2<br>PolHTh3 | Defnyddio safleoedd cefn gwlad fel Parc Gwledig Tŷ Mawr a Loggerheads i weithredu fel pyrth i'r AHNE drwy ddarpariaeth paneli dehongli a gwybodaeth o ansawdd da. | AHNE | ALI | Blynyddol |
| AEA3 | Parhau i ddatblygu cysylltiadau cludiant cyhoeddus a datblygu strategaeth i leihau tagfeydd rhwng atyniadau poblogaidd a gyda chanolfannau eraill sy'n denu pobl. | PolHTh3 | Gweithio gyda'r staff a chwmnïau cludiant cyhoeddus i gydlynu cludiant cyhoeddus i ac o ganolfannau mynediad AHNE. | AHNE<br>Cadwyn | Cadwyn, CRT, CBSW, CSDd, FCC | Blynyddol |
| AEA4 | Ymchwilio i ffyrdd o leihau tagfeydd o amgylch ardaloedd ymwelwyr allweddol. | PolHTh1 | Paratoi Cynllun Rheoli Ymwelwyr ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd ac ystyried ffyrdd o leihau tagfeydd a fydd yn lleihau'r effaith ar drigolion a gwella profiad yr ymwelydd. | CRT | AHNE, CBSW, CSDd | Bl 3 |
| | | PolHTh4 | Gweithredu'r cynllun ar gyfer datblygu maes parcio ychwanegol yn Loggerheads a gweithredu gwelliannau maes parcio yn Nhŷ Gwledig Tŷ Mawr. | AHNE | Cadwyn, CSDd | Bl 2 |
| AEA5 | Targedu gwybodaeth yn ymwneud â'r Cod Cefn Gwlad, ymddygiad ac effaith ymwelwyr ar statws cadwraeth safleoedd allweddol. | PolHTh1 | Casglu a lledaenu data ar anghenion a dyheadau hamdden defnyddwyr gwirioneddol a darpar ddefnyddwyr. | AHNE | CNC, NFU, UAC | Bl 3 |
| AEA6 | Cynorthwyo busnesau twristiaeth i fanteisio ar y cyfleoedd a chyfrifoldebau o fod mewn ardal a warchodir. | PolHTh1 | Datblygu cynllun Llysgennad Twristiaeth AHNE. | AHNE | CSDd, CSFf, CBSW | Bl 2 |
| | | PolHTh1<br>PolHTh3 | Darparu cefnogaeth i grwpiau busnes ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a pharhau i ddatblygu'r Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy o fusnesau a swyddogion. | AHNE | CSDd, CSFf, CBSW | Blynyddol |

# Llwybr Clawdd Offa a Llwybrau a Hyrwyddir

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LlCOA1 | Parhau â rhaglen o welliannau Hawliau Tramwy ar draws yr AHNE drwy ddefnyddio'r Fenter Milltiroedd Cymunedol a gwaith gwella mynediad ardal eraill sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad. | PolHTh1 | Ceisio mynediad diogel a chyfleus ar gyfer ceffylau, beicwyr a cherddwyr wrth greu llwybrau newydd yn yr AHNE. | AHNE | Hawliau Tramwy CSDd | Bl 2 |
| LlCOA2 | Darparu mwy o gyfleoedd lle y bo'n briodol ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth yn yr AHNE a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. | PolHTh1 | Creu ffeiliau digidol o'r holl lwybrau a hyrwyddir o fewn yr AHNE a'u gwneud yn hygyrch ar y we. | AHNE | CSDd, CSDd, CBSW | Bl 2,3,4 |
| LlCOA3 | Gweithio gyda'r Fforymau Mynediad Lleol er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol gyda defnyddwyr mynediad a pherchnogion tir. | PolHTh3 | Darparu cefnogaeth i ffermwyr a pherchnogion tir wrth ddelio â phwysau hamdden. | AHNE | UAC, CNC, NFU | Blynyddol |
| LlCOA4 | Codi ymwybyddiaeth o fanteision iechyd a lles cydnabyddedig a ddarperir gan yr AHNE a datblygu mentrau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn arbennig cerdded a beicio. | PolHTh3 | Parhau i ddatblygu trwy bartneriaid weithgareddau gwirfoddoli a rhaglen ddigwyddiadau sy'n annog y defnydd o gefn gwlad a datblygu a hyrwyddo Teithiau Cerdded Iechyd a Campfeydd Gwyrdd yn agos at aneddiadau AHNE. | AHNE | | Blynyddol |
| LlCOA5 | Deall a gweithio tuag at ddileu rhwystrau corfforol a seicolegol at fynediad i alluogi pob sector o'r gymdeithas i gymryd rhan mewn ac elwa o fynediad awyr agored a chyfleoedd hamdden. | PolHTh3 | Sicrhau y defnyddir y mynediad lleiaf cyfyngol ar bob llwybr a hyrwyddir yn yr AHNE. | AHNE | CSDd, CSFf, CBSW, CNC | Blynyddol |
| | | PolHTh3 | Parhau i ddarparu cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael profiad o nodweddion arbennig yr AHNE. | AHNE | CNC | Blynyddol |
| LlCOA6 | Ymchwilio i ffyrdd o hyrwyddo'r llwybr gyda busnesau twristiaeth lleol a datblygu mentrau a fydd yn cryfhau'r cysylltiadau busnes. | PolHTh5 | Drwy'r prosiect Cerdded gydag Offa, rhoi cymorth i fusnesau twristiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar botensial y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer economi'r ardal. | AHNE | Cadwyn,CSDd, CRT, CBSW | Blynyddol |
| LlCOA7 | Cryfhau cysylltiadau rhwng y Llwybr ac aneddiadau a mannau o ddiddordeb gan ddefnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy ehangach a Chludiant Cyhoeddus. | PolHTh5 | Drwy'r prosiect cydweithredol trawsffiniol Cerdded gydag Offa a Thirweddau Gwarchodedig eraill, gweithio gyda grwpiau busnes i gynyddu ymwybyddiaeth o Lwybr Clawdd Offa fel porth i'r AHNE. | AHNE | Cadwyn,CSDd, CRT, CBSW | Blynyddol |
| LlCOA8 | Monitro erydiad mewn ardaloedd allweddol a datblygu rhaglen o fesurau a fydd yn lleihau effaith y llwybr ar y dirwedd drwy gyfyngu lled neu ddyfnder llwybr fel y bo'n briodol. | PolHTh3 | Ymgymryd â mesurau rheoli erydiad ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yng Nghyrn y Brain, Eglwyseg, Moel Famau a bryngaerau Bryniau Clwyd er mwyn lleihau effaith y llwybr ar y dirwedd a nodweddion cadwraeth yr ardal. | AHNE | CNC | Bl 2,3,4,5 |
| LlCOA9 | Nodi safleoedd ddangosydd allweddol i fonitro niferoedd yr ymwelwyr yn yr AHNE. | PolHTh5 | Cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar gyfer safleoedd allweddol fel Parc Gwledig Tŷ Mawr, Loggerheads a data Cyfrif Pobl ar gyfer y llwybrau yn yr AHNE. | AHNE | CSDd, CNC, CSDd | Blynyddol |

# Yr Amgylchedd Adeiledig

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AAA1 | Sicrhau bod datblygiad newydd yn yr AHNE ac o'i amgylch wedi'i leoli i gyd-fynd â'r dirwedd, ac wedi ei gynllunio i gyd-fynd â chymeriad ac ymddangosiad yr ardal a'i lleoliad, yn enwedig o ran effaith weledol, graddfa, deunyddiau a thirlunio. | PolDP1 | Paratoi canllawiau ar gyfer datblygiadau mewn safleoedd porth i gyd-fynd â'r AHNE a chryfhau cymeriad tirwedd lleol. | AHNE | CSFf, CSDd, CBSW | Bl 3 |
| | | PolDP1 | Gweithio gyda'r awdurdodau cynllunio lleol i baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ffurfiol a chanllawiau dylunio ar gyfer datblygu yn yr AHNE. | | | Bl 4 |
| | | PolDP1 PolDP3 | Hwyluso cyfarfod blynyddol gyda phartïon â diddordeb ar yr amgylchedd adeiledig. | | | Blynyddol |
| | | PolDP1 | Ymgymryd ag astudiaethau cymeriad o'r holl aneddiadau, gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr aneddiadau mwy o faint a phwyntiau pwysau, er mwyn nodi materion sensitif a chyfleoedd ar gyfer newid. | | | Bl 3,4,5 |
| | | PolDP1 | Ystyried a rhoi sylwadau ar >100 o geisiadau cynllunio a chynigion datblygu eraill yn ac o gwmpas yr AHNE bob blwyddyn, ac i geisio mabwysiadu >85% o farn y JC. | | | Blynyddol |
| | | PolDP1 | Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion datblygu yn yr AHNE drwy gynorthwyo gyda rhaglenni hyfforddiant a datblygu aelodau pwyllgor cynllunio a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer swyddogion. | | | Blynyddol |
| AAA2 | Gwarchod a gwella cymeriad a hynodrwydd lleol pentrefi, adeiladau a gerddi hanesyddol o fewn yr AHNE. | PolDP | Gweithio gyda'r awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau bob 5 mlynedd o'r gofrestr Adeiladau mewn Perygl ac arolygon cyflwr yn yr AHNE a chymryd camau i leihau nifer yr adeiladau sydd mewn perygl. | AHNE | | Bl 2 |
| | | PolDP | Cynnal a/neu ddiweddaru Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli ar gyfer yr holl Ardaloedd Cadwraeth yn yr AHNE, gan gynnwys adolygiadau ffiniau ac asesiad o gyflwr cyffredinol yr ardaloedd. | | | Blynyddol |
| | | PolDP | Hyrwyddo'r defnydd o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 i reoli datblygu a ganiateir mewn Ardaloedd Cadwraeth sy'n niweidiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal fel y nodwyd gan Werthusiadau Ardal Gadwraeth. | | CSDd, CSFf, CBSW | Blynyddol |
| | | | Sicrhau bod Parciau a Gerddi Hanesyddol yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol a fyddai'n niweidio cymeriad neu nodweddion cydnabyddedig arbennig y safle a gofrestrwyd. | | Cadw, ALl | Blynyddol |
| AAA3 | Hyrwyddo camau i leihau effaith weledol datblygiadau amlwg sy'n bodoli eisoes yn yr AHNE. | PolDP1 | Datblygu canllawiau i leoli a dylunio adeiladau amaethyddol a choedwigaeth yn yr AHNE i wella cymeriad y tirlun lleol. | AHNE | ALl, CLA | Bl 4 |
| | | PolDP1 PolSQ2 | Gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol i leihau effaith peilonau yn ardal Dyffryn Molwynion a Thremeirchion drwy eu Prosiect Gwelliant Gweledol. | AHNE | Tirfeddianwyr | Bl 3,4,5 |
| | | PolSQ2 | Gweithio gyda Scottish Power i osod ceblau tros ben o dan y ddaear lle bynnag y bo modd. | Scottish Power | AHNE | Blynyddol |

# Cymunedau Cynaliadwy

| | Amcanion | Cyf Polisi | Camau Gweithredu | Arwain | Partneriaid | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PCA1 | Helpu cymunedau lleol i gadw a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol hanfodol. | PolDP3 | Cefnogi a hyrwyddo perchnogaeth gymdeithasol/ cymunedol priodol a phrosiectau a mentrau megis 'The Pub's the Hub' a fydd yn cynnal a gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau lleol. | Cadwyn Clwyd | AHNE | Blynyddol |
| | | PolDP2 | Gwrthsefyll cynigion datblygu sy'n golygu colli cyfleusterau cymunedol megis siopau lleol a thafarndai. | AHNE CSFf,CSDd, CBSW | AHNE | Blynyddol |
| | | PolDP2 | Adnabod y ddarpariaeth band eang cyfredol ar draws yr AHNE a gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill i sicrhau'r cyflymder gorau posibl o wasanaeth, delio ag 'ardaloedd digyswllt' band eang, a hyrwyddo Cynllun Cyflym Iawn LlC. | Cadwyn Clwyd | AHNE | Bl 3 |
| | | PolDP3 | Hyrwyddo economi prosesu bwyd lleol o ansawdd uchel a phroffidiol, fel ffordd o adfywio incymau gwledig; ac i godi ymwybyddiaeth ymysg trigolion, busnesau ac ymwelwyr am y manteision i'r dirwedd, yr economi a'r gwead cymdeithasol o brynu nwyddau o ffynonellau lleol. | Cadwyn Clwyd, AHNE | Llwybr Bwyd | Blynyddol |
| | | PolDP2 | Cefnogi mentrau sy'n darparu gwasanaethau cymunedol hanfodol drwy'r Gymraeg. | AHNE | Menter Iaith | Blynyddol |
| PCA2 | Cefnogi datblygu tai fforddiadwy i bobl leol mewn lleoliadau priodol, wrth gynnal y safonau uchaf o ddylunio a thirlunio. | PolDP2 | Cefnogi'r awdurdodau lleol wrth gyflawni arolygon anghenion tai a fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle mae galw mawr am dai fforddiadwy a nodir gan restrau aros ALl/AT. | ALl | AHNE | Blynyddol |
| | | PolDP2 | Gweithio gydag awdurdodau cynllunio a thai lleol i hyrwyddo cynlluniau tai fforddiadwy i bobl leol, i sicrhau unedau fforddiadwy fel rhan o unrhyw ddatblygiad tai marchnad newydd, ac i annog y ddarpariaeth o dai fforddiadwy i bobl leol trwy addasiadau a datblygu anheddau newydd unigol mewn pentrefi a phentrefannau. | CSFf,CSDd, CBSW | | Blynyddol |
| | | PolDP3 | Hyrwyddo cyfleoedd i annog busnesau lleol i fod yn fwy amgylcheddol ac yn economaidd gynaliadwy, yn enwedig mewn ffyrdd sy'n cadw rhinweddau arbennig yr AHNE. | AHNE, Cadwyn Clwyd | | Bl 3,4,5 |
| PCA3 | Meithrin ymdeimlad o le a balchder lleol i sicrhau lles cymdeithasol. | PolDP3 | Cefnogi Cynllun Llysgennad Cymunedol i wella cyfathrebu gyda chymunedau. | Cadwyn Clwyd | AHNE | Bl 2,3,4,5 |
| | | PolDP3 | Cynnal Fforwm blynyddol. | AHNE | | Blynyddol |
| PCA4 | Sicrhau bod llywodraethu'r AHNE yn hyrwyddo partneriaethau effeithiol, yn meithrin cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r AHNE. | PolDP3 | Cynhyrchu rhaglen ddigwyddiadau i wirfoddolwyr ddwywaith y flwyddyn. | AHNE | CSDd,CNC | Blynyddol |
| | | PolDP3 | Cysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol. | | | |
| | | PolDP3 | Cynnal a datblygu'r Bartneriaeth AHNE. | | | |
| | | PolDP3 | Datblygu Cynllun Parcmon Ifanc gyda rhaglen o weithgareddau ar draws yr AHNE. | | | |

WILLOW CATE
FISH &

# ATODIAD

Sut mae'r cynllun yn danfon ar gyfer Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

# Sut mae'r cynllun yn danfon ar gyfer Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

| Nodau Llesiant | | Amcanion / Nodau'r Cynllun Rheoli | |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | ymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | **ACDA1** | Sicrhau bod adnoddau naturiol a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi |
| | | **GGA2** | Dod â meysydd o rostir grug i mewn i reolaeth gynhyrchiol gadarnhaol. |
| | | **GGA4** | Cynhyrchu bwyd cysylltiol gyda rheolaeth ecosystem. |
| | | **GGA5** | Cefnogi ac annog rheolaeth gynaliadwy o'r grugiar lle mae ganddi effeithiau amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol |
| | | **FfA2** | Yn unol â dyheadau o fewn y Datganiad Strategol ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru (2009), codi sylfaen sgiliau ymysg y gweithlu lleol i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gwneud y gwaith cadwraeth ac atgyweirio angenrheidiol. |
| | | **AEA06** | Cynorthwyo busnesau twristiaeth i fanteisio ar y cyfleoedd a chyfrifoldebau o fod mewn ardal a warchodir |
| | | **LICOA6** | Ymchwilio i ffyrdd o hyrwyddo'r llwybr gyda busnesau twristiaeth lleol a datblygu mentrau a fydd yn cryfhau'r cysylltiadau busnes. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | **ACDA3** | Lleihau effeithiau cronnol o newid ar raddfa fach a all erydu cymeriad arbennig yr AHNE. |
| | | **ACDA4** | Amddiffyn llonyddwch yr AHNE a chymryd camau lle bo modd er mwyn lleihau sŵn a llygredd golau. |
| | | **ACDA5** | Lle bo modd lleihau ymyrraeth weledol trwy sgrinio neu gael gwared ar ddoluriau llygad. |
| | | **GGA3** | Parhau i fonitro'r grugiar ddu a rhywogaethau adar ucheldir eraill fel dangosydd o gyflwr cynefin |
| | | **GGA6** | Darparu cefnogaeth i ffermwyr a pherchnogion tir mewn ardaloedd ucheldir i ddod â rhostiroedd mewn i gynlluniau rheoli. |
| | | **GCA1** | Cynnal ystent presennol o laswelltir calchaidd a phalmant calchfaen a sgri o fewn yr AHNE. |
| | | **GCA2** | Dod â phob ardal o laswelltir calchfaen cyhoeddus/ a reolir, clogwyni a sgrïau i mewn i gynlluniau rheoli ffafriol.. |
| | | **GCA3** | Darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd preifat o laswelltir calchfaen a phalmant i ddod i gynlluniau rheoli ffafriol. |
| | | **GCA4** | Sicrhau bod defnydd hamdden yn cael ei leihau mewn ardaloedd sensitif. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **CCHA1** | Cynnal ystent presennol o goetir llydanddail a hen goed yn yr AHNE. |
| | | **CCHA2** | Diogelu Hen Goed o fewn y dirwedd ar draws yr AHNE. |
| | | **CCHA3** | Cynnal ac adfer coetir llydanddail tuag at gyflwr ffafriol trwy weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Coetiroedd Ynn Cymysg yr Ucheldir, coetiroedd derw'r ucheldir a choetiroedd gwlyb. |
| | | **CCHA4** | Datblygu coetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd fel modelau o arfer gorau mewn rheoli coetir llydanddail. |
| | | **CAA1** | Parhau i fonitro graddau rhywogaethau dangosol allweddol megis y dyfrgi a llygoden y dŵr er mwyn mesur cyflwr cynefin. |
| | | **CAA2** | Parhau i ddatblygu partneriaeth o asiantaethau a chyrff allweddol i sicrhau dull integredig a thirwedd i'r rheolwyr. |
| | | **CAA3** | Cefnogi a datblygu dull ar raddfa tirwedd i raglen o reoli rhywogaethau ymledol yn enwedig mewn perthynas â ffromlys chwarennog |
| | | **CAA4** | Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a thirfeddianwyr/rheolwyr o bwysigrwydd y dyffrynnoedd afonydd ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | | **STBA3** | Cymryd camau i gyfyngu ar yr effaith mae ymweliadau ymwelwyr yn ei gael ar gyfanrwydd hanesyddol a lleoliad Safle Treftadaeth y Byd |
| | | **STBA5** | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd safleoedd a nodweddion diwydiannol o fewn cynllunio a'r AHNE. |
| | | **SAA2** | Sicrhau'r nodweddion cyfanrwydd strwythurol a sicrhau bod effeithiau pwysau ymwelwyr yn cael ei leihau |
| | | **AEA4** | Ymchwilio i ffyrdd o leihau tagfeydd o amgylch ardaloedd ymwelwyr allweddol. |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | **AEA2** | Hyrwyddo a chynorthwyo mynediad cyfleus a chynaliadwy i mewn i'r AHNE a lleoedd arbennig ynddo. |
| | | **LICOA4** | Codi ymwybyddiaeth o fanteision iechyd a lles cydnabyddedig a ddarperir gan yr AHNE a datblygu mentrau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn arbennig cerdded a beicio. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | **AEA3** | Parhau i ddatblygu cysylltiadau cludiant cyhoeddus a datblygu strategaeth i leihau tagfeydd rhwng atyniadau poblogaidd a gyda chanolfannau eraill sy'n denu pobl. |
| | | **LICOA1** | Parhau â rhaglen o welliannau Hawliau Tramwy ar draws yr AHNE drwy ddefnyddio'r Fenter Milltiroedd Cymunedol a gwaith gwella mynediad ardal eraill sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad. |
| | | **LICOA2** | Darparu mwy o gyfleoedd lle y bo'n briodol ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth yn yr AHNE a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn |
| | | **LICOA5** | Deall a gweithio tuag at ddileu rhwystrau corfforol a seicolegol at fynediad i alluogi pob sector o'r gymdeithas i gymryd rhan mewn ac elwa o fynediad awyr agored a chyfleoedd hamdden. |
| | | **LICOA7** | Cryfhau cysylltiadau rhwng y Llwybr ac aneddiadau a mannau o ddiddordeb gan ddefnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy ehangach a Chludiant Cyhoeddus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | **ACDA6** | Ymchwilio a chynyddu ein dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol y cymunedau yn yr AHNE. |
| | | **PCA1** | Helpu cymunedau lleol i gadw a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol hanfodol. |
| | | **PCA2** | Cefnogi datblygu tai fforddiadwy i bobl leol mewn lleoliadau priodol, tra'n cynnal y safonau uchaf o ddylunio a thirlunio. |
| | | **PCA4** | Sicrhau bod llywodraethu'r AHNE yn hyrwyddo partneriaethau effeithiol, yn meithrin cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r AHNE. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | **ACDA7** | Datblygu partneriaethau a fydd yn helpu i ysgogi ymwybyddiaeth o, a diddordeb mewn amrywiaeth ddiwylliannol o fewn yr AHNE. |
| | | **AHA3** | Cynyddu proffil yr Amgylchedd Hanesyddol trwy ddehongli a gwybodaeth effeithiol a chyson. |
| | | **NHBA1** | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd nodweddion hanesyddol bach o fewn amgylcheddau cynllunio a phriffyrdd trwy ddarparu sesiynau hyfforddi i weithwyr proffesiynol. |
| | | **NHBA2** | Annog Cymunedau i nodi a mapio nodweddion o fewn eu cymunedau ar gronfa ddata safonol sy'n gydnaws â CAH. |
| | | **NHBA3** | Annog Cymunedau i fabwysiadu'r nodweddion hyn a gweithredu fel eu hyrwyddwyr drwy godi ymwybyddiaeth o fewn cynghorau cymuned a grwpiau ieuenctid. |
| | | **PCA3** | Meithrin ymdeimlad o le a balchder lleol i sicrhau lles cymdeithasol. |
| | | **AAA2** | Gwarchod a gwella cymeriad a hynodrwydd lleol pentrefi, adeiladau a gerddi hanesyddol o fewn yr AHNE. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | **ACDA2** | Sicrhau bod effeithiau newid amgylcheddol ar yr AHNE yn cael eu deall a bod ymateb strategol yn cael ei datblygu a'i gweithredu |
| | | **STBA1** | Sicrhau cywirdeb gwerthoedd cyffredinol eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd. |